1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk/prom

# PROM



PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

GORAU YNG NGHYMRU
A RHIF 4 YN Y DU
★★★ACM 2016★★★
AM FODLONRWYDD MYFYRWYR

Cychwynnwch eich antur nesaf…



**Diwrnodau Agored Uwchraddedig ac Israddedig 2017:**

Dydd Mercher, 12fed Gorffennaf
Dydd Sadwrn, 16eg Medi
Dydd Sadwrn, 14eg Hydref
Dydd Sadwrn, 11eg Tachwedd

**Diwrnodau Agored Ar-Lein 2017:**

Dydd Iau, 6ed Ebrill
Dydd Mercher, 6ed Rhagfyr

**Ysgoloriaethau graddedigion Aber**

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig Ysgoloriaeth tuag at ffioedd dysgu cyrsiau Meistr a Ddysgir drwy Gwrs, LLM drwy Ymchwil, a graddau MPhil i raddedigion Prifysgol Aberystwyth sy'n cofrestru i astudio yn 2016. Os oes gennych radd Baglor Dosbarth Cyntaf, bydd yr ysgoloriaeth yn talu am 20% o'ch ffioedd dysgu. Bydd myfyrwyr â graddau Ail Ddosbarth ar dir i gael ysgoloriaeth werth 10% o'r ffioedd dysgu. Rhaid i'r ceisiadau am y cwrs perthnasol fod wedi cyrraedd erbyn **29 Gorffennaf** fan hwyraf: www.aber.ac.uk/cy/postgrad/howtoapply/

**Eich cyfle i grwydro'r campws, trafod ysgoloriaethau, llety a'r cyrsiau a gynigir.**

Gwireddu eich dyheadau personol a phroffesiynol drwy raglen raddedig yn Aberystwyth, gan gynnwys...

- ✓ Meistr mewn Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth a achredir gan *CILIP*
- ✓ Cwrs MSc 2 flynedd mewn Cyfrifiadureg (Peirianneg Meddalwedd) (gyda Hyfforddiant Diwydiannol a Phroffesiynol)
- ✓ Cyrsiau Meistr mewn Rheolaeth a achredir gan *AMBA*
- ✓ Cyrsiau dysgu o bell ar gael
- ✓ Cyrsiau Ymarfer Dysgu a datblygiad proffesiynol



**Archebwch ar-lein:** www.aber.ac.uk/cy/open-days/

**Ffôn:** 01970 622 065 **Ebost:** diwrnodagored@aber.ac.uk

21434 - 09.11.16

# Cynnwys

## Croeso

Croeso i rifyn 2016 PROM, sy'n dathlu ei 25ain rhifyn eleni. Mae PROM mewn cwmni da oherwydd rydym yn nodi sawl pen-blwydd yn y cylchgrawn eleni, yn ogystal â chynnig yr amrywiaeth arferol o newyddion a gwybodaeth am Aber.

Cyfarfu criw bach o gyn-fyfyrwyr i lunio Cyfansoddiad Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr 125 o flynyddoedd yn ôl yn 1897; bydd yr adrannau Celf a Daearyddiaeth yn dathlu eu canmlwyddiant cyn hir, y naill wedi'i sefydlu yn 1917 a'r llall yn 1918; sefydlwyd yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn 1919, a saith deg mlynedd yn ôl y cyflwynwyd Ystad Penglais, yn cynnwys fferm, plasty a 220 o erwau, yn rhodd i'r Brifysgol drwy haelioni Alban Davies i ddarparu cartref i'r Prifathro a Phentre Jane Morgan a Fferm Penglais yn ddiweddarach, felly mae digonedd i'w ddathlu.

Ond mae yna benblwyddi i'w cofio am resymau gwahanol hefyd, ac eleni nodwn 50 mlynedd ers trychineb erchyll Aberfan a siglodd Gymru, Prydain a'r byd. O glywed y newyddion enbyd ar y pryd, rhaid oedd i fyfyrwyr Aber weithredu.


Mae llawer iawn i'w ddathlu nawr hefyd ac i edrych ymlaen ato yn y dyfodol i'r Brifysgol, ei myfyrwyr, ei staff a'i chyn-fyfyrwyr, fel y cewch ddarllen yng ngholofn yr Is-Ganghellor Dros Dro ar dudalen 4.

Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau darllen rhifyn 25 PROM, ac wrth gwrs, fel arfer, gwerthfawrogir eich sylwadau a'ch awgrymiadau yn datblygu@aber.ac.uk neu 01970 621568.

***Golygydd***

## Erthyglau

10  Ymchwil y Rwmen

14  O Dregaron i Tierra del Fuego

22  Cofio Aberfan

26  Hanes Plas Penglais

28  Gwir Werthfawrogiad

## Colofnau

4 ........ Yr Is-Ganghellor
16 ........ Aber Dramor
18 ........ Cyfweliad: Hywel Ceri Jones a Phrosiect Erasmus
40 ........ Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr
46 ........ Teyrngedau
50 ........ Cicio'r Bar

## Newyddion

7 ........ Y diweddaraf am yr Hen Goleg
32 ........ Cronfa Aber – Diolch
38 ........ Graddio a Chymrodyr 2016
42 ........ Gwobrau, Penodiadau, Cyflawniadau
44 ........ Silff Lyfrau

Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth yw PROM .

PROM is available in Welsh and English. If this copy is not in your preferred language, please contact development@aber.ac.uk or phone 01970 621568 and we'll send you another copy.

*Barn yr awduron unigol a fynegir yn yr erthyglau, ac nid ydynt yn cynrychioli'r Brifysgol oni nodir hynny. Er bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y deunydd a gyhoeddir yn gywir ac yn ddibynadwy, nid yw'r cyhoeddwyr yn derbyn atebolrwydd am unrhyw honiadau a weir gan gyfranwyr.*

Os ydych am dderbyn y newyddion alumni diweddaraf yn gyson o Brifysgol Aberystwyth, diweddarwch eich cyfeiriad e-bost cyfredol ar **www.aber.ac.uk/alumni/diweddarumanylion**, dilynwch ni ar Twitter neu ymunwch a Chyswllt Aber neu ein grwpiau alumni ar Facebook a LinkedIn. Gweler **www.aber.ac.uk/alumni** i gael dolenni.

PROM 25 | Cylchgrawn Prifysgol Aberystwyth

*Cyhoeddwyd gan: Prifysgol Aberystwyth University*
*Dyluniwyd gan: Y Stiwdio Ddylunio, Prifysgol Aberystwyth*
*Argraffwyd gan: McLays, Caerdydd*

# Heriau Anodd, Gwaith Caled a Chanlyniadau Gwych

Rwy'n ysgrifennu hyn ychydig ddyddiau ar ôl gorffen un o'r heriau caletaf ym myd y campau. Ddydd Sul 18 Medi, roeddwn yn un o ddwy fil o athletwyr ar linell gychwyn triathlon Ironman Cymru yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro. Roedd yn her frawychus a dweud y lleiaf – nofio 2.4 milltir yn y môr am 7 y bore, yna beicio 112 milltir a marathon 26.2 milltir i orffen. Rhaid i mi gyfaddef ei bod hi'n galed ar adegau a 'mod i wedi teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to. Ond fe ddaliais ati ac ychydig cyn hanner nos (bron i 17 awr ar ôl i mi gychwyn), llwyddais i groesi'r llinell derfyn.

Un o'r pethau a fu'n hwb i mi i ddal ati oedd fy addewid i godi arian i Gronfa Aber, ac yn arbennig felly i Galedi Myfyrwyr a Lles Myfyrwyr. Ers ei sefydlu yn 2009 (y Gronfa Flynyddol oedd ei henw bryd hynny), mae'r gronfa wedi elwa ar haelioni ein teulu o gyn-fyfyrwyr ac mae wedi gwneud gwahaniaeth. Mae dwsinau o fyfyrwyr yr oedd perygl y byddai'n rhaid iddynt adael y Brifysgol oherwydd anawsterau ariannol wedi cael help llaw, a phrosiectau gwerthfawr fel Nawdd Nos wedi eu diogelu.

Mae'n debyg na fydd llawer ohonoch sy'n darllen hwn erioed wedi wynebu her triathlon Ironman (ac rwy'n amau'n gryf a fyddaf innau'n gwneud hynny eto), ond rwy'n siŵr bod nifer ohonom wedi wynebu heriau digon anodd rywbryd yn ein bywydau. Y gobaith yw y byddwn yn dod drwyddi'n gryfach a hyd yn oed yn fwy penderfynol o lwyddo. Gellid dweud bod Prifysgol Aberystwyth hithau wedi gorfod wynebu ambell frwydr anodd, ond y nod bob amser yw dod at ein gilydd fel sefydliad i wella pethau.

Mae ein canlyniadau diweddar yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr (ACM) dros yr haf ynghyd â *The Times and Sunday Times Good University Guide* yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy weithio gyda'n gilydd. Yn ôl ACM, arolwg dylanwadol o israddedigion ar eu blwyddyn olaf, Aberystwyth oedd y brifysgol orau yng Nghymru ac un o'r pedair prifysgol orau o'i math yn y DU o ran bodlonrwydd cyffredinol y myfyrwyr. Rydym wedi dringo dros 100 o safleoedd yn nhabl cynghrair ACM, a ni oedd un o'r dringwyr uchaf yn y *Good University Guide*, gan godi 23 o safleoedd, ac yn yr un modd â fy ymarfer ar gyfer y triathlon, roedd y ffigurau hyn yn ffrwyth gwaith caled a phenderfyniad.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi amser, ymdrech a chronfeydd gwerthfawr i sicrhau ein bod yn cynnig y profiad gorau posib i fyfyrwyr. Rydym wedi cyflwyno rhaglen fuddsoddi uchelgeisiol i wella ein cyfleusterau preswyl a'n hadnoddau addysgu. Mae prosiectau eraill ar y gweill, gan gynnwys ein Campws Arloesi a Menter newydd £40.5m, a'n cynlluniau i ailagor Neuadd Pantycelyn ac i ailddatblygu'r Hen Goleg yn ganolfan treftadaeth, diwylliant, dysgu a menter, i wasanaethu'r dref a'r brifysgol yn ogystal â'r genedl. Gyda'i gilydd, yr ystod eang hon o gynlluniau yw un o'r buddsoddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes y Brifysgol. Mae hefyd yn golygu bod Aberystwyth yn parhau i fod yn lle eithriadol i ddysgu a byw ynddo.

I fyfyrwyr heddiw sy'n talu ffioedd, mae ansawdd yr addysgu, perthnasedd y cwricwla a sgiliau cyflogadwyedd i gyd yn allweddol. Un maen prawf pwysig o ran cyflogadwyedd yw'r arolwg blynyddol o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch. Roedd perfformiad Aberystwyth yn well eto eleni gyda 92% o'n myfyrwyr gradd gyntaf llawn amser naill ai mewn gwaith neu astudiaethau pellach ymhen chwe mis ar ôl graddio yn 2015. Unwaith eto, rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau bod gan ein myfyrwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gael yr yrfa y maent ei heisiau nid dim ond swydd sy'n talu'r biliau. Mae cynlluniau fel AberYmlaen wedi cynnig profiad go iawn i lawer o fyfyrwyr yn y gweithle ac wedi rhoi mantais iddynt mewn marchnad swyddi sy'n mynd yn fwyfwy cystadleuol. Mae Rhwydwaith Cyfleoedd Aber hefyd yn helpu ein graddedigion ifanc wrth iddynt gychwyn ar eu llwybr proffesiynol, a mawr yw ein diolch i'n cyn-fyfyrwyr ym mhob maes ac ym mhob cwr o'r byd am fod mor hael eu parodrwydd i rannu eu profiad helaeth.

Eleni rydym wedi croesawu mwy o fyfyrwyr o'r Undeb Ewropeaidd nag erioed o'r blaen. Mawr obeithiwn y bydd hyn yn parhau wrth i ni addasu i Brydain wedi pleidlais Brexit. Does neb yn gwybod eto sut yn union y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn effeithio ar y sector addysg uwch. Mae rhagor o heriau i ddod heb os nac oni bai, ond fe'u hwynebwn yn gadarnhaol ac yn bragmataidd, gan barhau i edrych tuag allan a chynnal ein prosiectau cydweithredol a'n cysylltiadau rhyngwladol.

Mae'n arbennig o dda cael cydnabod cyfraniad parhaus ein cyn-fyfyrwyr i Aber yn y 25ain rhifyn arbennig hwn o PROM ac wrth i ni baratoi i ddathlu 125 mlynedd ers sefydlu Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr y flwyddyn nesaf. Diolch i chi am eich cefnogaeth fel aelodau gwerthfawr a phwysig o gymuned Aber ac edrychwn ymlaen at barhau i gael eich cefnogaeth dros y misoedd nesaf fel yn y blynyddoedd a aeth heibio.

**Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros Dro**



# Yr Athro April McMahon yn ffarwelio ag Aber

Mae'r graddio bob amser yn ddiweddglo bendigedig i'r flwyddyn academaidd, ond roedd eleni hyd yn oed yn fwy arbennig i mi, oherwydd roedd yn nodi diwedd fy mhum mlynedd yn Aberystwyth. Cafodd llawer o'r amser hwnnw ei dreulio'n gweithio i wella pethau i fyfyrwyr ddoe, heddiw ac yfory. Gwn fod llawer o gyn-fyfyrwyr Aberystwyth wedi cael amser wrth eu bodd yma, a bod y profiad hwnnw wedi newid bywydau a chyfleoedd. Wrth reswm, felly, rydych am i eraill gael eu fersiwn unigryw hwythau o'r profiad arbennig y mae Aber yn ei gynnig. Ond er mwyn i ni allu denu myfyrwyr y dyfodol, mae'n rhaid iddynt wybod y gallwn gystadlu â'r hyn sydd ar gael mewn lleoedd eraill, gan fod mwy o ddewis i fyfyrwyr nawr nag erioed o'r blaen o ran ble i astudio a beth i'w astudio. Er mwyn dangos ein bod nid yn unig yn gallu cymharu, ond ein bod mewn sawl ffordd yn sefyll allan, mae'n rhaid i ni ddangos bod y myfyrwyr sydd yma ar hyn o bryd yn gwerthfawrogi'r profiad, oherwydd yn y sector addysg uwch heddiw mae hynny yr un mor bwysig i enw da'r Brifysgol â'n hymchwil rhagorol.

O'r herwydd, un o'r blaenoriaethau dros y pum mlynedd diwethaf oedd gwella profiad y myfyrwyr a llwyddiant y myfyrwyr ym myd gwaith. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol o'r newydd mewn ardaloedd a thechnolegau dysgu ac addysgu; wedi cymryd camau breision ymlaen o ran cyflogadwyedd drwy ein cynllun AberYmlaen; ac yn bwysicach na dim efallai, wedi rhoi gwerth o'r newydd i'r addysgu drwy ailwampio ein system dyrchafiadau academaidd yn llwyr. Ac rydych yn awr yn gweld ffrwyth y gwaith hwnnw – mae ein canlyniadau ardderchog yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr dros yr haf yn golygu bod Aberystwyth yn gyfforddus ymhlith y pedair prifysgol uchaf yn y DU a'r orau yng Nghymru o ran bodlonrwydd myfyrwyr.



*Yr Athro April McMahon*

Fe ddylai hyn oll olygu eich bod chi, gyn-fyfyrwyr Aber, yn parhau i deimlo balchder yn eich Prifysgol – ond mae hefyd wedi bod yn bwysig sicrhau bod y cyn-fyfyrwyr hwythau'n teimlo ein bod yn eu gwerthfawrogi ac yn gofalu amdanynt. Gyda chymorth rhyfeddol Louise a'i chydweithwyr yn yr adran Datblygu a Chysylltiadau Alumni, a chymorth Steve Lawrence a Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, rydym wedi cael mwy o gyfle nag erioed o'r blaen i fynd allan i gwrdd â chyn-fyfyrwyr ble bynnag yr ydych, boed ym Malaysia, neu ar ein teithiau blynyddol i'r Unol Daleithiau, neu yn Llundain neu Gaerdydd. Rwy'n siŵr y bydd croeso i chi bob amser yn Aber, ond mae'n rhaid i Aber estyn allan atoch chithau hefyd. Rwy'n dymuno pob llwyddiant i'm cydweithwyr wrth iddynt barhau i wneud i fyfyrwyr ddoe, heddiw ac yfory deimlo'u bod yn rhan bwysig o ddyfodol Aber.

**Yr Athro April McMahon**

*Mae'r Athro McMahon bellach wedi dechrau swydd uwch fel Dirprwy Is-Ganghellor Addysg ym Mhrifysgol Caint; dymunwn bob llwyddiant iddi yn ei menter newydd.*

# John yn cwblhau Triathlon Ironman Cymru

Mae'r Is-Ganghellor Dros Dro, yr Athro John Grattan, wedi codi dros £7,000 tuag at galedi myfyrwyr ar ôl llwyddo i gwblhau un o'r heriau chwaraeon caletaf yn y byd. Llwyddodd John i orffen triathlon Ironman Cymru yn Ninbych y Pysgod, Sir Benfro, mewn ychydig yn llai na 17 awr.

Yn ystod yr amser hwnnw, roedd yn rhaid i'r academydd 56 mlwydd oed nofio 2.4 milltir yn y môr, beicio 112 milltir a rhedeg marathon llawn 26.2 milltir. Croesodd y llinell derfyn yn hwyr nos Sul 18 Medi 2016, i sŵn cymeradwyaeth ei deulu a thorf o gefnogwyr o Brifysgol Aberystwyth.

Yn ei grys melyn Prifysgol Aberystwyth, roedd yr Athro Grattan yn un o ddwy fil o athletwyr a gymerodd ran yn her Ironman Cymru eleni. Dechreuodd ymarfer o ddifrif ar gyfer y triathlon naw mis yn ôl, gyda chymorth staff y Ganolfan Chwaraeon a'r Adran Gwyddor Chwaraeon

Wrth siarad ar ddiwedd y triathlon, dywedodd John: "Heb os nac oni bai, dyma'r her gorfforol fwyaf i mi ei hwynebu erioed ac rwyf wrth fy modd fy mod wedi gallu cwblhau'r cwrs yn yr amser penodedig.

"Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi fy noddi ac wedi fy nghefnogi wrth i mi fynd ati i wynebu'r her hon. Rwy'n hynod falch fod yr holl arian a godwyd yn mynd tuag at Gronfa Aber ac yn benodol tuag at brosiectau i leddfu caledi myfyrwyr a phrosiectau lles myfyrwyr."



*John yn dathlu gyda'i wraig Katherine a'i feibion Christopher a Nathan ar ôl croesi'r llinell derfyn*





# Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Mae'r cynlluniau i ailddatblygu'r Hen Goleg yn mynd rhagddynt, a chynlluniau ar y gweill i gyflwyno cais o'r newydd i Gronfa Treftadaeth y Loteri ym mis Rhagfyr 2016 ar ôl methu o drwch blewyn â sicrhau cyllid ddiwedd mis Ebrill.



Dywedodd Louise Jagger, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni, "Roedden ni'n gwybod o'r cychwyn y byddai'r rownd gyntaf hon yn un hynod gystadleuol ac felly rydym yn benderfynol o gynnal momentwm y prosiect ardderchog hwn a darparu adnodd gwych i arddangos cyfleoedd treftadaeth, diwylliant, dysgu, ymchwil a menter, a fydd yn ysbrydoli'r defnyddwyr ac yn hwb i'r economi.

"Rwy'n cael ar ddeall bod y prosiect wedi cael derbyniad da a bod y canlyniad yn ymwneud i raddau helaeth â gorfod gwneud penderfyniadau ynghylch mwy o brosiectau nag yr oedd y gyllideb a oedd ar gael yn ei ganiatáu. Mae'n eithaf cyffredin i brosiectau sy'n llwyddo yn y pen draw orfod cael eu hailgyflwyno ar ôl cael adborth. Gyda chefnogaeth barhaus, rydym yn ffyddiog y bydd gan y cynnig ar ei newydd wedd siawns dda iawn o gael cymeradwyaeth."

Datblygodd y Brifysgol gynnig prosiect Bywyd Newydd i'r Hen Goleg gyda bwrdd prosiect a oedd yn cynnwys aelodau o Gyngor y Brifysgol, staff y Brifysgol, a chynrychiolwyr Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Tref Aberystwyth, Undeb Myfyrwyr Aberystwyth a Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr.

Dywedodd y Dirprwy Is-Ganghellor Dr Rhodri Llwyd Morgan: "Cawsom gefnogaeth eang wrth ddatblygu'r cynlluniau'n lleol ac ymhlith sefydliadau yn y cyffiniau ac ar hyd a lled Cymru. Mae'r prosiect wedi datblygu gyda chymorth cryn dipyn o fewnbwn gan y gymuned leol drwy nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr iawn y rhan allweddol y mae'r gymuned leol wedi'i chwarae o ran datblygu a chefnogi ein gweledigaeth.

"Byddwn yn dal ati i weithio ar raglen amrywiol o weithgareddau a chawsom lwyddiant mawr gyda mentrau newydd fel y Diwrnod i'r Gymuned yn yr Hen Goleg ym mis Mehefin 2016, a oedd yn cyd-ddigwydd ag aduniad blynyddol Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio'n agos â Chronfa Treftadaeth y Loteri a rhanddeiliaid, gan gynnwys ein cyn-fyfyrwyr, i weld sut y gallwn gryfhau unrhyw gynnig yn y dyfodol."

# Neuadd Pantycelyn

Ym mis Mehefin cymeradwyodd Cyngor y Brifysgol gynlluniau i ailagor Neuadd Pantycelyn yn llety Cymraeg ar ei newydd wedd erbyn mis Medi 2019, yn amodol ar ystyried opsiynau cyllido i'r prosiect ym mis Hydref 2016, gan gynnwys ystyried ymgyrch benodol i godi arian i Bantycelyn.

Pwysleisiodd y Cyngor y bydd yn rhaid sicrhau'r cyllid angenrheidiol er mwyn i'r Cyngor allu rhoi ymrwymiad pendant, ac ystyried sefyllfa ariannol y Brifysgol ar hyn o bryd, yr ansicrwydd ar ôl y refferendwm ac elfennau eraill o ansicrwydd ym maes addysg uwch yn y DU ac yng Nghymru.

"Mae heddiw yn nodi cam arall ymlaen yn ein bwriad i ddarparu llety o'r radd flaenaf ym Mhantycelyn i fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg sy'n dod i Aberystwyth yn y dyfodol," meddai Cadeirydd y Cyngor a Changhellor Prifysgol Aberystwyth, Syr Emyr Jones Parry. "Yn ystod ein cyfarfod, pwysleisiwyd hefyd ein hymroddiad i Gampws Arloesi a Menter Aberystwyth yng Ngogerddan, a chytunwyd i fwrw ymlaen â'n cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri i'r Hen Goleg. Bydd llety Cymraeg yn parhau i fod ar gael yn neuadd Penbryn ar Gampws Penglais, a bydd brand ar wahân i'r rhan honno sydd wedi'i neilltuo'n llety Cymraeg er mwyn cadw'r cysylltiad â Phantycelyn."

Mae Bwrdd Prosiect Pantycelyn yn cwrdd yn rheolaidd ers mis Medi 2015 i drafod dyfodol yr adeilad, ac yn ymgynghori'n eang â'r myfyrwyr, undeb y myfyrwyr, staff y Brifysgol a'r gymuned ehangach. Ar gais y Cyngor, bydd gwaith Bwrdd Prosiect Pantycelyn yn parhau, a bydd y pwyslais ar weithio gyda'r penseiri i lunio cynlluniau manwl ar gyfer ailwampio'r adeilad a fu'n cynnig llety Cymraeg ers 1973.

Cyflwynodd Louise Jagger, Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni, adroddiad i Fwrdd Prosiect Pantycelyn ar ganfyddiadau astudiaeth ddichonoldeb annibynnol ar godi arian ym mis Hydref 2016 i lywio'r penderfyniadau terfynol ynglŷn â'r opsiynau cyllido. Gofynnodd yr astudiaeth farn yr holl gyn-breswylwyr yn ogystal â chyn-fyfyrwyr a chefnogwyr eraill, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y penderfyniadau a'r datblygiadau.





# Llamu i fyny'r cynghreiriau

*Mae'r Brifysgol wedi perfformio'n dda mewn nifer o arolygon a chynghreiriau yn ystod 2016.*

Dangosodd y *Times Higher Education World University Rankings*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, fod y Brifysgol ymhlith y 200 sefydliad addysg uwch mwyaf rhyngwladol yn y byd. Mae Aberystwyth yn safle 162 am 'olygwedd ryngwladol' yn ôl y rhestr sydd wedi ystyried perfformiad 800 o brif sefydliadau addysg uwch y byd.

Yn Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Awst 2016, bu'r Brifysgol yn dathlu'r canlyniadau gorau erioed.

Yn ôl yr arolwg blynyddol, Aber yw'r brifysgol orau yng Nghymru, y bedwaredd o blith prifysgolion eang eu cwmpas ac un o'r deg uchaf o blith holl sefydliadau addysg uwch y DU ar gyfer bodlonrwydd cyffredinol myfyrwyr.

Dengys y canlyniadau bod bodlonrwydd cyffredinol ymhlith myfyrwyr yn Aberystwyth yn 92%. Mae hynny chwe phwynt yn uwch na'r ffigwr o 86% ar gyfer y DU.

Mae dwy o adrannau Aberystwyth ar y brig yn eu meysydd yn y DU o ran ansawdd eu haddysgu, sef yr Ysgol Gelf ac Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, gyda'r ddwy yn cael sgôr o 100% yr un, a bron pob adran arall yn cael dros 90% am fodlonrwydd cyffredinol.

Cafodd Prifysgol Aberystwyth ganlyniadau rhagorol hefyd ar draws ystod o'i chyrsiau israddedig unigol, gyda naw rhaglen yn cael sgôr o 100% ar gyfer fodlonrwydd cyffredinol, a 23 o brif raglenni gradd eraill yn sgorio 90% neu'n uwch.

Daeth canlyniadau Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr wythnosau'n unig ar ôl cyhoeddi'r ffigurau cyflogadwyedd diweddaraf ar gyfer prifysgolion y DU, oedd yn dangos bod 92% o raddedigion mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl gadael Aberystwyth (HESA 2016).

Yn ogystal, am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd Aberystwyth ymhlith y dringwyr mwyaf yn *The Times and The Sunday Times Good University Guide* a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016. Llamodd y Brifysgol 23 safle yn nhabl 2017.

Prifysgol Aberystwyth sydd ar y brig yng Nghymru o ran rhagoriaeth dysgu a phrofiad myfyrwyr ac yn drydydd yn y tabl cyffredinol ar gyfer holl sefydliadau addysg uwch Cymru.

Ar draws y DU, mae dadansoddiad gan *The Times and The Sunday Times Good University Guide* yn gosod Aberystwyth ymhlith y 10 prifysgol orau o ran rhagoriaeth dysgu ac yn y $19^{eg}$ safle ar gyfer profiad myfyrwyr. Yng ngeiriau'r cyhoeddwyr, mae'n "drawsnewidiad hynod o'i gymharu â 2015".


## Datgelu 'Dewin Hylifau Hud' yr Hen Goleg, yr Athro Snape

Mae ymchwil gan Dr Beth Rodgers, darlithydd yn yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, wedi datgelu bod gan yr Hen Goleg, adeilad y dywedir yn aml ei fod yn debyg i Hogwarts J K Rowling, ei Athro Snape ei hun o 1888 tan 1901.

Mewn erthygl yn yr Irish Times, dywed Dr Beth Rodgers iddi ddod ar draws Snape mewn erthygl am Aberystwyth a gyhoeddwyd yn *The Women's Penny Paper* yn 1890, cylchgrawn oedd yn hyrwyddo mynediad i addysgu uwch i fenywod - roedd Aberystwyth yn un o'r prifysgolion cyntaf yn y Deyrnas Gyfunol i dderbyn myfyrwyr benywaidd.

Penodwyd Henry Lloyd Snape i'r Gadair Cemeg, neu "dewin yr hylifau hud" yn ôl disgrifiad Rodgers, ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1888, yn dilyn marwolaeth Athro'r Gwyddorau Naturiol, T S Humpdige. Labordy Humpdige oedd man dechrau tân mawr yr Hen Goleg yn 1885 achosodd farwolaeth dri o bobl.

Cyhoeddwyd teyrnged iddo yn y *Journal of the Chemical Society* yn dilyn ei farwolaeth yn 1933 sy'n ei ddisgrifio fel "gŵr 'egnïol, brwd ac ymroddedig', a oedd yn cymryd ei wyddoniaeth o ddifrif ond a oedd hefyd o ddifrif am lenyddiaeth, yn frwd dros y gymdeithas ddadlau ac yn gyfrannwr allweddol at ddramâu'r coleg".



Dyfarnwyd yr OBE iddo yn 1921 am ei waith gyda milwyr oedd wedi eu hanafu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfrannodd at addysg uwchradd yn ogystal ag addysg prifysgol yn Aberystwyth, ac yn ddiweddarach aeth i weithio i Gyngor Swydd Gaerhirfryn fel Cyfarwyddwr Addysg.



# Campws Arloesi a Menter Aberystwyth

*Mae Campws Arloesi a Menter Aberystwyth (CAMA) yn fuddsoddiad gwerth £40.5 miliwn ar gampws y Brifysgol yng Ngogerddan, ar gyrion Aberystwyth. Yn ogystal â buddsoddi ei hadnoddau ei hun, mae'r Brifysgol wedi sicrhau nawdd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol (BBSRC).*

Trwy fabwysiadu agwedd gydweithredol rhwng y byd academaidd a busnes, y nod yw datblygu cynnyrch a gwasanaethau i gwrdd â heriau mawr yr $21^{ain}$ ganrif, yn arbennig ym meysydd sicrwydd bwyd, rheoli iechyd ac adnoddau.

Bydd y campws newydd yn darparu adnoddau sy'n arwain y byd ynghyd â'r arbenigedd i greu atebion masnachol i'r diwydiant technoleg amaeth. Bydd yn darparu amgylchedd blaengar lle y gall cydweithredu rhwng busnes a'r byd academaidd ffynnu drwy adeiladu ar arbenigedd y gymuned wyddonol bresennol yn IBERS yn ogystal â darparu arbenigedd academaidd ar draws y Brifysgol i fusnesau. Bydd adnoddau o safon uchel ar y campws yn helpu mentrau masnachol i dyfu, ffynnu a sbarduno twf economaidd yn yr ardal a thu hwnt. Bwriedir cwblhau'r campws erbyn canol 2019.

**I gael rhagor o wybodaeth, ewch i** www.aiec.wales **neu ebostiwch** aiecadmin@aber.ac.uk

## Y Brifysgol yn Anrhydeddu Cyfreithwraig Gyntaf y Caribî

Yn sgîl darganfod cerdyn post â llun o wraig ifanc ddu mewn gŵn prifysgol, mae'r Brifysgol yn anrhydeddu un o'i chyn-fyfyrwyr.

Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Cenedlaethol y Menywod yn y Brifysgol yn 2016, cafodd ystafell astudio yn Llyfrgell Hugh Owen ei henwi'n swyddogol yn Ystafell Iris de Freitas ar ôl cyfreithwraig gyntaf y Caribî.

Ganed Iris de Freitas yn 1896, yn ferch i fasnachwr yn Guyana Brydeinig. Cofrestrodd fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1919 ar ôl cyfnod byr yn astudio yn Toronto. Tra oedd yn Aberystwyth bu'n astudio botaneg, Lladin ac ieithoedd modern, y gyfraith a chyfreitheg, a bu'n byw yn Neuadd Alexandra, y neuadd breswyl bwrpasol gyntaf i ferched i gael ei hadeiladu gan brifysgol yn y Deyrnas Gyfunol. Bu hefyd yn Is-Lywydd Cyngor Cynrychioli Myfyrwyr y Brifysgol a Llywydd Cyngor Adrannol y Merched.

Graddiodd gyda BA yn 1922, ond parhaodd ei chysylltiad gyda'r Brifysgol gan gwblhau gradd LLB ym Mehefin 1927. Yn 1929 cafodd ei derbyn fel y wraig gyntaf i ymarfer y gyfraith yn y Caribî, a'r gyntaf yno i arwain yr erlyniad mewn achos o lofruddiaeth.

Mewn teyrngedau a gyhoeddwyd iddi yn y *Guyana Chronicle* yn dilyn ei marwolaeth ym mis Mai 1989, disgrifiwyd hi fel arloeswraig a ffigwr blaenllaw a fentrodd i broffesiwn a oedd yn llwyr wrywaidd, a rhywun a arweiniodd y ffordd i fenywod ym maes y gyfraith.


Mae aelodau o staff ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi casglu ynghyd wahanol elfennau o'i hanes ar ôl i gyn-fyfyrwyr ddod o hyd i'r cerdyn post ar lein yn Ebrill 1925, gyda'r disgrifiad "Cerdyn post o fenyw ddu mewn gŵn Aberystwyth 1922-23". Ar ochr arall y cerdyn ceir yr ychydig eiriau canlynol mewn llawysgrifen, "With love and in memory of an enjoyable session, Iris 1922-23", a manylion y ffotograffydd, H H Davies o Heol y Wig, Aberystwyth. Mae'r cerdyn bellach yn archif y Brifysgol.



*Y llun o Iris de Freitas ar y cerdyn post ddaeth i'r golwg ar eBay*



# Beth sy'n Digwydd y tu mewn i System Dreulio Buwch a pham y dylai fod ots gennym



*Oherwydd ei arwyddocâd byd-eang o ran cynhyrchu bwyd, yr economi amaethyddol ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae ffermio da byw mewn modd effeithlon a chynaliadwy'n rhywbeth y dylai pawb falio yn ei gylch.*

Mae microbïom (byddin o organebau microbaidd) cymhleth a hynod amrywiol yn byw ym mhrif stumog anifeiliaid cnoi cil (y rwmen) a nhw sy'n diffinio i raddau helaeth pa mor effeithlon yw twf yr anifail, ynghyd â faint o nwyon tŷ gwydr mae'r anifail yn eu rhyddhau i'r amgylchedd. Mae Dr Sharon Huws yn Uwch Ddarlithydd mewn Gwyddor Anifeiliaid gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn IBERS ac mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ddeall microbïom y rwmen er mwyn ymdrin â rhai o'r prif heriau byd-eang ym myd amaeth, megis cynhyrchu da byw, allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ansawdd y cig a'r llaeth a gynhyrchir. Mae'r ddealltwriaeth ddyfnach o ficrobïom y rwmen y mae Sharon a'i grŵp ymchwil yn ei datblygu hefyd yn cael ei defnyddio i ddod o hyd i gyfansoddion gwrthficrobaidd newydd ar y cyd â chwmnïau biotechnoleg, a'r nod yn y dyfodol yw eu marchnata at ddefnydd anifeiliaid a phobl. Mae ymwrthedd i wrthfiotigau yn destun pryder cynyddol drwy'r byd; mae heintiau sy'n gwrthsefyll gwrthfiotigau lluosog ar gynnydd, ac yn y dyfodol, gallai ymwrthedd o'r fath olygu na fydd modd trin afiechydon bob dydd, ac felly mae gwaith i ddarganfod a datblygu cyfansoddion gwrthficrobaidd newydd yn hollbwysig.

Da byw, ac yn arbennig felly anifeiliaid cnoi cil fel gwartheg, defaid a geifr, sy'n cyflenwi llawer o'n cig a bron y cyfan o'n llaeth, ac o'r herwydd mae ffermio da byw yn bwysig i faeth dynol, ac yn cyflogi tua 20% o boblogaeth y byd. Mae cig a llaeth yn darparu fitaminau a maetholion pwysig, ac mae bwyta cig wedi ei gysylltu â datblygiad corfforol a meddyliol plant. Mae anifeiliaid cnoi cil hefyd yn bwyta'r biomas planhigion gwydn a geir ar dir ymylol ac yn ei droi'n gig ac yn llaeth, ac felly'n defnyddio tir nad oes fawr ddim gwerth economaidd iddo fel arall.

Mae'r galw byd-eang cynyddol am gynhyrchion anifeiliaid cnoi cil, ynghyd â phoblogaeth ddynol sy'n cynyddu, yn golygu y bydd y cynhyrchion hyn yn dod yn fwyfwy prin dros y blynyddoedd sydd i ddod. Mae tir hefyd yn adnodd prin wrth i boblogaeth y byd dyfu; mae angen tir i dyfu bwyd sy'n cael ei fwyta'n uniongyrchol gan bobl ac ar gyfer adeiladu, ac mae hynny'n golygu bod llai o dir ar gael i dda byw amaethyddol. Ac ystyried y pwysau cynyddol hyn, mae gwella cynhyrchiant anifeiliaid cnoi cil gyda'r tir sydd ar gael ar hyn o bryd yn nod pwysig i'r sector.

Mae da byw hefyd yn gyfrifol yn fyd-eang am tua 9% o'r $CO_2$ a 37% o'r methan (y mae ei botensial i gynhesu'r byd 23 gwaith yn fwy na $CO_2$) sy'n cael ei ryddhau i'r amgylchedd. Mae'r anifeiliaid hefyd yn defnyddio dŵr ac yn ychwanegu at lygredd dŵr, gan gyfrannu hyd at 30% o'r nitrogen a'r ffosfforws sy'n mynd i mewn i'n hafonydd. Mae nitrogen sy'n cael ei ryddhau gan anifeiliaid cnoi cil hefyd yn cyfrannu tuag at ryddhau ocsid nitraidd ($N_2O$), ac er bod lefelau $N_2O$ yn yr amgylchedd yn gymharol isel, mae potensial cynhesu'r nwy hwn 296 gwaith yn fwy na $CO_2$ ac yn para am fwy na 100 mlynedd yn yr atmosffer.

Law yn llaw â gwella cynhyrchu a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn modd cynaliadwy, mae'n rhaid i ni hefyd sicrhau bod ansawdd y cig a'r llaeth a gynhyrchir yn dda a'u bod yn ddiogel i'w bwyta a'u hyfed o safbwynt iechyd dynol. Mae llaeth, a chig

coch yn arbennig, yn aml yn cael eu beirniadu oherwydd lefel uchel yr asidau brasterog dirlawn y gallant eu cynnwys sy'n niweidiol i iechyd dynol. Mae'r porthiant y mae anifeiliaid cnoi cil yn ei fwyta yn uchel yn yr asidau brasterog amlannirlawn y credir eu bod yn llesol i iechyd dynol, ond nid yw'r rhain yn bresennol mewn llaeth na chig oherwydd cânt eu troi i raddau helaeth yn frasterau dirlawn gan ficrobau yn y rwmen, proses a elwir yn biohydrogeniad.

## Beth sydd yn y rwmen?

Mae'r rwmen yn gartref i ficrobïom hynod amrywiol, yn cynnwys bacteria, protosoa, ffyngau, archaea a bacterioffagau (firysau bacteriol). Mae swyddogaeth eplesol y rwmen yn golygu y gellir dadelfennu'n ficrobaidd ddeunydd ymborthol a fyddai fel arall yn anhydraul, sy'n diffinio swm, ansawdd a chyfansoddiad y cig a'r llaeth a gynhyrchir.



Mae eplesu yn y rwmen, serch hynny, yn gymharol aneffeithlon o safbwynt cynhyrchu anifeiliaid, gan fod cyn lleied â 30% o'r nitrogen sy'n cael ei amlyncu yn cael ei gadw gan yr anifail er mwyn cynhyrchu llaeth neu gig a'r nitrogen nad yw'n cael ei gadw yn cael ei ysgarthu ar ffurf wrea neu amonia. Yn wir, aneffeithlonrwydd y rwmen sy'n bennaf gyfrifol am lygredd nitrogen mewn afonydd ac $N_2O$ yn yr atmosffer. Mae'r gymuned ficrobaidd gymysg hefyd yn eplesu cyfran fawr o'r porthiant sy'n cael ei fwyta yn asidau brasterog anweddol, sy'n cael eu metaboleiddio gan y nifer cymharol fach o archaea methanogenaidd i gynhyrchu methan ($CH_4$). Mae'r anifail hefyd yn defnyddio tua 12% o'i egni wrth gynhyrchu methan, ac felly mae lleihau allyriadau methan hefyd yn debygol o olygu bod mwy o egni gan yr anifail i dyfu'n effeithiol.

> "...mae taer angen darganfod a datblygu cyfansoddion gwrthficrobaidd newydd yn wyneb y bacteria newydd a all wrthsefyll cyffuriau sy'n dod i'r amlwg o hyd."

Mae ymchwil grŵp Dr Huws wedi dangos yn ddiweddar bod y cysylltiadau o fewn y microbïom yn fwy cymhleth nag a feddyliwyd o'r blaen, ac mae hynny'n pwysleisio'r angen i ystyried y bïom yn ei gyfanrwydd wrth ymdrin â'r angen i wella twf anifeiliaid, a sicrhau bod cynhyrchion anifeiliaid cnoi cil yn iach, a'u bod ar yr un pryd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

Mae cig a llaeth a gynhyrchir o anifeiliaid sy'n cael eu magu ar borthiant ffres yn hytrach na'r rhai sy'n cael eu magu ar borthiant wedi'i gywain (gwair, gwellt a silwair) yn cynnwys lefelau uwch o'r asidau brasterog amlannirlawn sy'n llesol i iechyd dynol a llai o asidau brasterog dirlawn. O ddeall y mecanweithiau sydd wrth wraidd y ffenomen hon mae'n bosib y gellid datblygu strategaethau i sicrhau bod cig a llaeth yn cael eu cynhyrchu mewn ffordd iach hyd yn oed pan fo'n rhaid rhoi porthiant wedi'i gywain i'r anifeiliaid. Rydym yn gwybod hefyd fod bwydo gwair ffres sy'n cynnwys lefelau uchel o siwgr i'r anifeiliaid (gweiriau sy'n cael eu bridio yn IBERS) yn hybu twf yr anifeiliaid ac ar yr un pryd yn lleihau allyriadau methan.

## Y dyfodol

Mae'r tîm hefyd yn edrych ar sut y gall cyfansoddion newydd a gynhyrchir gan ficrobau'r rwmen ladd bacteria, a pha mor debygol yw hi fod bacteria'n datblygu ymwrthedd i'r cyfansoddion newydd hyn. Mae problem ymwrthedd i wrthfiotigau yn arbennig o bwysig i wledydd sy'n datblygu lle mae cynhyrchion gwrthficrobaidd yn aml yn cael eu prynu dros y cownter heb gyngor meddygol.


Gyda dyfodiad ymwrthedd i elfennau gwrthficrobaidd mewn bacteria pathogenaidd, mae'n mynd yn fwyfwy anodd trin heintiau mewn anifeiliaid a phobl. Dros y blynyddoedd diwethaf ychydig iawn o gynhyrchion gwrthficrobaidd newydd sydd wedi'u datblygu oherwydd cost cynnal treialon clinigol a'r refeniw isel i gwmnïau fferyllol ar ôl eu datblygu. Rydym yn awr mewn sefyllfa ddybryd lle mae taer angen darganfod a datblygu cyfansoddion gwrthficrobaidd newydd yn wyneb y bacteria newydd a all wrthsefyll cyffuriau sy'n dod i'r amlwg o hyd.

Yn ddiweddar, mae Dr Huws wedi cael cyllid sylweddol gan y Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol a Rhwydwaith Ymchwil Cenedlaethol Gwyddorau Bywyd (cyllid Llywodraeth Cymru) i ddarganfod a datblygu cyfansoddion gwrthficrobaidd newydd a geir ym microbïom y rwmen. Er bod microbau'r rwmen yn gweithio'n symbiotig gyda'i gilydd, mae adegau pan fo angen iddynt gystadlu. Mae Dr Huws a'i thîm wedi dod o hyd i dros 300 o gyfansoddion gwrthficrobaidd newydd a gynhyrchir gan y microbau, sy'n caniatáu iddynt gystadlu'n effeithiol â'i gilydd. Mae'r gwaith yn gysylltiedig â sawl cwmni biotechnoleg yn ogystal â chyrff cyllido ymchwil, a'r nod yn y pen draw yw datblygu cyfansoddion gwrthficrobaidd hyd at dreialon clinigol at ddefnydd pobl ac anifeiliaid.

Mae'n wirioneddol bwysig deall yr hyn sy'n digwydd ym microbïom y rwmen, o safbwynt yr amgylchedd, cynhyrchu bwyd yn ddiogel ac yn iach, ynghyd ag iechyd dynol ac iechyd anifeiliaid. Ym mis Medi 2016 llofnododd 193 gwlad y Cenhedloedd Unedig ddatganiad yn ymrwymo i gael gwared ar heintiau microbaidd sy'n gwrthsefyll cyffuriau, a elwir hefyd yn "arch-fygiau". Mae'r datganiad hwn, y pedwerydd yn unig o'i fath gan y Cenhedloedd Unedig ym maes gofal iechyd, yn tynnu sylw at yr angen i ymdrin â phroblem fyd-eang a gallai atal 700,000 o farwolaethau bob blwyddyn.

Gallai'r budd i'r gymdeithas a ddaw yn sgil deall y system dreulio gymhleth hon yn well barhau yn y blynyddoedd sydd i ddod wrth i berygl ymwrthedd i elfennau gwrthficrobaidd ledaenu; gallai fod yn bwysig i bob un ohonom.





# O Dregaron i Tierra del Fuego

## Cyrhaeddiad byd-eang Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Aberystwyth

*Geiriau gan yr Athro Mike Woods*

*Yr Athro H J Fleure 1908-1930. Llun: Archifau Prifysgol Aberystwyth*

# O Dregaron i Tierra del Fuego

## Cyrhaeddiad byd-eang Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear Aberystwyth



*Adeilad Llandinam*

*Aeth bron i ganrif heibio ers i'r myfyrwyr cyntaf gael eu derbyn i astudio am radd mewn Daearyddiaeth yn yr hyn a oedd bryd hynny'n Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth. Roedd y dosbarth cychwynnol hwnnw a gyrhaeddodd yr Hen Goleg yn haf 1918 yn arloeswyr nid yn unig yng Nghymru ond ym Mhrydain hefyd. Er y dysgwyd daearyddiaeth yn rhan o gynlluniau gradd cyffredinol yn Aberystwyth ac mewn mannau eraill ers rhai degawdau, dim ond prifysgolion Glasgow a Lerpwl oedd wedi trechu Aberystwyth wrth ganiatáu i fyfyrwyr arbenigo mewn Daearyddiaeth am radd Anrhydedd, ac Aberystwyth oedd y brifysgol gyntaf un ym Mhrydain i ganiatáu i ddaearegwyr astudio am radd naill ai yn y Celfyddydau (BA) neu'r Gwyddorau (BSc).*

Roedd cydnabod agweddau'r Celfyddydau a'r Gwyddorau mewn Daearyddiaeth yn adlewyrchu athroniaeth y sefydlwr, yr Athro Daearyddiaeth, H J Fleure. Yn un o gewri Daearyddiaeth dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd Fleure yn bolymath yr oedd ei ddiddordebau'n ymestyn ar draws daearyddiaeth ffisegol a dynol, anthropoleg, archaeoleg a sŵoleg. Ei ddatganiad y dylai daearegwyr "gadw un llygad ar Ddyn a'r llall ar Natur" oedd sail y cwricwlwm cynnar yn Aberystwyth, gyda'r set gyntaf o bapurau arholiad terfynol wedi eu trefnu yn ôl rhanbarthau'r byd lle roedd gofyn i fyfyrwyr drafod nodweddion dynol a ffisegol.

Yn ystod y ganrif ddilynol, tyfodd Daearyddiaeth Aberystwyth i fod yn un o'r adrannau daearyddiaeth mwyaf ym Mhrydain, gan symud wrth iddi gynyddu i amryfal adeiladau yn y dref ac yn olaf i Adeilad Llandinam a godwyd i'r diben ar gampws Penglais yn 1965. Yn ogystal â chynnal y cydbwysedd rhwng daearyddiaeth ddynol a daearyddiaeth ffisegol, mae'r adran wedi ffurfio cysylltiadau newydd, gan gyfuno â'r Adran Ddaeareg, sy'r un mor enwog (sefydlwyd yn 1910) yn 1988, a chyflwyno graddau newydd mewn Gwyddorau Amgylcheddol a Gwyddorau Daear Amgylcheddol.

Bu hefyd yn un o'r adrannau daearyddiaeth mwyaf dylanwadol, gan lunio datblygiad dysgu daearyddiaeth ac ymchwil mewn ysgolion a phrifysgolion ledled y byd. Am amryw flynyddoedd yn y 1920au hi oedd pencadlys y Geographical Association, a oedd yn nodi ymrwymiad i ddaearyddiaeth mewn ysgolion sy'n parhau mewn Digwyddiadau Cyfoethogi Safon Uwch sy'n cael eu cyflwyno gan ein staff mewn ysgolion ledled y wlad, ac sydd wedi cynhyrchu cenedlaethau o athrawon daearyddiaeth o blith ein graddedigion. Yn yr un modd, mae'r adran wedi bod yn faes hyfforddi nodedig i ddaearyddwyr academaidd. Ers y dyddiau cynnar, mae daearyddwyr a hyfforddwyd yn Aberystwyth wedi ymestyn allan i brifysgolion ymhob rhan o'r byd, ac yn aml yn chwarae rhan allweddol yn natblygiad daearyddiaeth fel disgyblaeth academaidd yn eu gwledydd mabwysiedig: cyn-fyfyrwyr megis Emyr Estyn Evans a sefydlodd yr adran Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Queen's Belffast, a Gladys Wrigley, y wraig gyntaf i gwblhau gradd PhD mewn Daearyddiaeth yn yr Unol Daleithiau ac a aeth ymlaen i olygu cylchgrawn Cymdeithas Ddaearyddol America, *Review,* am dros 30 mlynedd. Heddiw, mae graddedigion daearyddiaeth Aberystwyth i'w cael yn gweithio fel darlithwyr ac athrawon mewn prifysgolion o Galiffornia i Tsieina, ac o Dde Cymru Newydd i Dde Affrica.

Gellir olrhain cyrhaeddiad a dylanwad daearyddiaeth Aberystwyth yn ei hymchwil. Roedd yr Athro Fleure yn un o laweroedd a werthfawrogodd y ffaith bod Aberystwyth wedi ei lleoli yng nghanol maes ymchwil daearyddol o'r radd flaenaf yng Nghymru, a bu'n dilyn ei ddiddordeb yn y berthynas rhwng yr amgylchedd a diwylliant drwy gyfrwng astudiaeth, sydd bellach yn ddrwg-enwog, a oedd yn cynnwys mesur maint penglogau trigolion Tregaron, mewn ymdrech braidd yn gyfeiliornus i archwilio gwahaniaethau daearyddol mewn priodoleddau corfforol. Mae'n wir i ymchwil Fleure gael ei difrïo, ond parhawyd y diddordeb mewn diwylliannau rhanbarthol gan ei olynydd, Darryl Forde, gan lunio'r ysgol daearyddiaeth ddiwylliannol fyd-enwog, 'Ysgol Aberystwyth'. Creodd daearyddwyr dynol diweddarach enwau da rhyngwladol ym meysydd daearyddiaeth hanesyddol a daearyddiaeth drefol, tra datblygodd daearyddiaeth ffisegol gryfderau dylanwadol byd-eang mewn geomorffoleg a bioddaearyddiaeth, gyda'r naill grŵp a'r llall yn ymestyn y tu hwnt i Gymru gyda gwaith maes yn Affrica, Asia ac America Ladin.





*Tregaron o'r awyr*

Erbyn dechrau'r unfed ganrif ar hugain, roedd ymchwil gan ddaearyddwyr Aberystwyth yn digwydd ar bob cyfandir yn y byd a thu hwnt. Mae'r Ganolfan Rhewlifeg yn cael ei chydnabod yn un o brif ganolfannau'r byd ym maes ymchwil rhewlifeg, gyda lleoliadau astudiaeth maes yn ymestyn o'r Ynys Las i Tierra del Fuego ac Antarctica, a hyd yn oed yn chwilio am dystiolaeth o rewlifiant ar blaned Mawrth. Mae'r gwaith o fonitro newidiadau i rewlifoedd a llenni iâ yn gymorth i gynyddu dealltwriaeth o newid hinsawdd byd-eang, yn yr un modd ag y mae ymchwil gan y grŵp Newid Amgylcheddol Diweddar a Chwaternaidd yn archwilio cofnodion newidiadau amgylcheddol yn y gorffennol a'u heffeithiau, gan gynnwys dadansoddiad gan Labordy Ymchwil Ymoleuedd blaenllaw Aberystwyth. Mae'r Labordy Arsylwi'r Ddaear a Deinameg Ecosystemau yn torri tir newydd wrth ddefnyddio data a synhwyrir o bell o loerennau i archwilio pethau megis datgoedwigo a lledaeniad malaria – y mynegiant diweddaraf o gymhwyso cyfrifiadura mewn daearyddiaeth a gyflwynwyd gyntaf mewn addysgu ac ymchwil yn Aberystwyth yn ôl ym 1963.

Yn y cyfamser mae ein geomorffolegwyr a'n gwyddonwyr afonol a'n gwyddonwyr Daear yn gweithio mewn amgylcheddau o Kazakhstan i'r Kalahari, tra mae ymchwil gyfredol mewn daearyddiaeth ddynol yn archwilio astudiaethau achos mor bellennig â Brasil a Tsieina, Seland Newydd a Detroit, ar faterion o bwys, megis globaleiddio, ymfudiad a diogelwch bwyd. Yn y ffyrdd hyn, mae ymchwil yn yr adran nid yn unig yn ffurfio dadleuon gwyddonol, mae hefyd yn cael effaith ymarferol wirioneddol. Daearyddwyr Aberystwyth a gynhyrchodd y wyddoniaeth y tu ôl i'r gwobrau 'Baner Las' am ansawdd dŵr ger y traeth ac maent hefyd wedi helpu i greu rhai o raglenni hynod drawiadol y BBC megis *Frozen Planet* ac *Operation Iceberg*.

Dydyn ni ddim wedi anghofio chwaith am ein hardal ein hunain, a'r lle arbennig mae Daearyddiaeth Aberystwyth wedi ei hawlio ym mywyd deallusol Cymru. Mae gan lawer o'r genhedlaeth hŷn atgofion melys am yr Athro E G Bowen yn llusgo o amgylch y wlad yn ei Fini melyn (na fyddai byth yn codi'n uwch na'r ail gêr) i draddodi darlithoedd cyhoeddus ar ddaearyddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol Cymru. Mae'r ymrwymiad hwn i ymestyn allan yn lleol yn parhau heddiw, boed hynny trwy gyfrannu ein harbenigedd ym meysydd llifogydd a llygriad i archwilio effeithiau fflachlifoedd yng ngogledd Ceredigion yn 2012 a mesurau lliniaru yn y dyfodol, neu weithio gyda chyrff lleol i hyrwyddo newid ymddygiad ar gyfer byw'n gynaliadwy, neu i gofnodi atgofion trigolion o dywydd eithafol, neu i astudio daearyddiaeth yr iaith Gymraeg, neu i drafod profiadau beunyddiol globaleiddio gyda disgyblion ysgol.

Yn yr un modd ag y mae Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn Aberystwyth yn parhau i gydbwyso'r celfyddydau a gwyddoniaeth, y lleol a'r byd-eang, rydyn ni hefyd yn parhau i ymrwymo i integreiddio ymchwil ac addysgu. Nid yw hyn yn amlycach yn unman nag yn ein teithiau maes enwog. Mae cenedlaethau o raddedigion o'r 1970au a'r 1980 yn parhau i edrych yn ôl yn hiraethus ar y trip i Ddinbych-y-Pysgod yn y flwyddyn gyntaf, neu'r teithiau tramor i Baris neu Sbaen. Yn ddiweddarach, Aberystwyth oedd un o'r adrannau daearyddiaeth Prydeinig cyntaf i drefnu taith faes i Efrog Newydd, ac mae ein teithiau maes i Seland Newydd yn dal mor boblogaidd ag erioed ac yn achos cefnigen ymhlith myfyrwyr a staff mewn mannau eraill. Y tu hwnt i'r teithiau maes mae ein haddysgu yn cyfuno'r traddodiadau gorau, megis dosbarthiadau tiwtorial, gyda'r datblygiadau newydd diweddaraf. Adnewyddwyd ein darlithfeydd yn ddiweddar ac maent yn cynnwys y cyfarpar a'r cyfleusterau diweddaraf, ac mae amryw aelodau o'n staff wedi ennill gwobrau am eu dulliau dysgu arloesol.

Wrth i'r *QS University Rankings* osod Aberystwyth ymhlith y cant uchaf o adrannau daearyddiaeth yn y byd, mae gennym ddigon i'w ddathlu fel y mae ein canmlwyddiant yn nesáu. Rydyn ni wrthi'n gweithio'n brysur ar raglen arbennig o ddigwyddiadau a fydd yn rhedeg o ganol 2017 hyd ganol 2018, gan gyrraedd ei huchafbwynt gyda Phenwythnos Dathlu Canmlwyddiant ac aduniad cyn-fyfyrwyr. Yn wir, bydd cyn-fyfyrwyr yn ganolog yn nigwyddiadau'r Canmlwyddiant. Wedi'r cyfan, ein cyn-fyfyrwyr yw'r gynhysgaeth bennaf o ganrif o Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear yn Aberystwyth, ac rydyn ni eisiau dathlu eich cyflawniadau a choffáu eich atgofion. Byddwn yn hysbysebu rhagor o fanylion cyn bo hir, felly cadwch lygad ar wefan yr adran a PROM a'r cyfryngau cymdeithasol i weld sut y gallwch chi gymryd rhan.



*Tierra del Fuego, yr Ariannin*

**Daeth Michael Woods i Brifysgol Aberystwyth yn Ddarlithydd Daearyddiaeth Ddynol yn 1996, ac fe'i penodwyd yn Athro Daearyddiaeth Ddynol yn 2008. Rhwng 2007 a 2013 ef oedd Cyfarwyddwr y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Mae diddordebau ymchwil Michael ym maes daearyddiaeth wledig a daearyddiaeth wleidyddol. Ef yw Cyd-Gyfarwyddwr Aberystwyth Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD) a chynrychiolydd Aberystwyth ar bwyllgor gwaith y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru. Enillodd Wobr John Fraser am Ragoriaeth Ymchwil mewn Daearyddiaeth Wledig gan Gymdeithas Daearyddwyr America am ei waith ymchwil yn 2010.**



# Steve Rawlinson

## Llywydd y Gymdeithas Ddaearyddol 2015-16

Adathliadau canmlwyddiant yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ar y gweill, roedd yn dda iawn gan yr Adran glywed bod un o'i graddedigion, Steve Rawlinson, wedi ei benodi'n Llywydd y Gymdeithas Ddaearyddol yn 2015–16. Graddiodd Steve yn Aberystwyth yn 1973 yn yr Adran Daearyddiaeth bryd hynny, cyn dychwelyd yn 1974 i ddilyn cwrs MSc dan oruchwyliaeth 'Big Jim' Taylor. Roedd ei ymchwil yn canolbwyntio ar reoli afiechydon anifeiliaid – llyngyr yr afu mewn defaid yn bennaf – a symudodd yn gyflym o edrych ar reolaeth ffisegol/amgylcheddol i ystyried y meini tramgwydd canfyddiadol sy'n atal ffermwyr rhag rhoi mesurau ar waith i reoli afiechydon. Roedd y gwaith hwn yn allweddol o safbwynt sbarduno ei agwedd fwy cyfannol at ddaearyddiaeth ac yn arbennig felly ddaearyddiaeth ymddygiadol, diddordeb sydd wedi para gydol ei yrfa.

Ar ôl gadael Aber aeth Steve i weithio ym myd addysg, cyn ymddeol o Brifysgol Northumbria yn 2012. Mae wedi gweithio ym mhob sector ym myd addysg o addysg bellach, i goleg cymunedol a'r lefel gynradd. Yn Northumbria bu'n Brif Ddarlithydd Addysg Ddaearyddol, yn gyfrifol am addysg ddaearyddol ar gyrsiau addysg gynradd a hefyd yn Uwch Diwtor Derbyn yn gyfrifol am ddenu myfyrwyr i gyrsiau israddedig yn ogystal â chyrsiau TAR Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon.

Ar ôl ymddeol, anrhydedd oedd cael ei ethol yn Llywydd y Gymdeithas Ddaearyddol yn 2015–16. Y Gymdeithas Ddaearyddol yw'r brif gymdeithas bynciol i athrawon daearyddiaeth yn y DU. Mae'n elusen gofrestredig a'i chenhadaeth yw 'hybu gwybodaeth a dealltwriaeth ddaearyddol drwy addysg'. Mae'r Gymdeithas yn gymuned fywiog o ymarferwyr sy'n arloesi ers dros ganrif, ac mae ganddi ddealltwriaeth ddigymar o ddysgu daearyddiaeth.

Dywed Steve fod dewis astudio daearyddiaeth yn Aberystwyth yn "benderfyniad a newidiodd fy mywyd. Roedd y gymuned daearyddiaeth yn Aber mor groesawgar ac yn llawn cymeriadau a oedd yn gwmni da. Ymhlith aelodau cofiadwy o'r staff roedd 'Big Jim' Taylor, Johnnie Aitchison ac E G Bowen, oedd bob amser mor barod ei wên. Fe wnes i fwynhau fy nyddiau fel myfyriwr israddedig, a dweud y lleiaf!" Mae penodi Steve yn Llywydd y Gymdeithas Ddaearyddol yn adfer cysylltiad hanesyddol Aberystwyth â'r sefydliad. Yn negawdau cynnar yr ugeinfed ganrif yn Aberystwyth yr oedd pencadlys y Gymdeithas Ddaearyddol o dan Gadeirydd y Cyngor ar y pryd, H J Fleure.

Thema Blwyddyn Lywyddol Steve oedd *Creu Cysylltiadau Daearyddol* ac er mwyn parhau â'r thema honno, mae'n awyddus iawn i greu cysylltiadau â rhai o'i gyd-fyfyrwyr yn Aber sydd hwythau wedi cael gyrfaoedd llwyddiannus, a chynnig ei gefnogaeth i ddathliadau canmlwyddiant yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear sydd ar y gweill.



**Dr Paul W T Poon yw Llyfrgellydd Prifysgol Macau ers 2005. Ef oedd Llyfrgellydd Coleg Asia Newydd a Phrifysgol Tsieineaidd Hong Kong, cyn ymuno â Llyfrgell Prifysgol Dinas Hong Kong, yn gyntaf fel Llyfrgellydd Cyswllt ac yna fel Llyfrgellydd y Brifysgol. Yn ei swydd bresennol, mae Dr Poon wedi gweddnewid y llyfrgell draddodiadol yno yn llyfrgell academaidd ddeinamig o'r radd flaenaf, yn barod i wynebu heriau'r unfed ganrif ar hugain. Yn 2015, enillodd Dr Poon Wobr Alumni Nodedig 2015 Ysgol Wybodaeth Prifysgol Michigan. Mae'n Athro Cynorthwyol yn Llyfrgell Prifysgol Jiaotong Shanghai ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cyngor Rhanbarthol Asia-Basiffig OCLC. Mae wedi cyhoeddi'n helaeth yn Saesneg a Tsieinëeg ac mae'n aelod o fwrdd golygyddol y *Chinese Journal of Library and Information Science* a'r *Journal of Library Science* in China.**

# Fy Amser yn Aberystwyth

## Dr Paul Poon (1968-1969)

Roeddwn yn un o'r ail griw o fyfyrwyr i gael eu derbyn i Goleg Llyfrgellwyr Cymru yn ôl yn 1968. A minnau wedi graddio ym Mhrifysgol Tsieineaidd Hong Kong, roeddwn yn rhan o'r rhaglen uwchraddedig, ar gwrs Cyswllt Cymdeithas y Llyfrgelloedd (DU). Doedd dim campws, dim ystafelloedd dosbarth go iawn, dim ond adeiladau "parod" i'w defnyddio fel ystafelloedd dosbarth, ardaloedd cymdeithasol, llyfrgell, mannau ymgynnull a swyddfeydd. O'r herwydd, byddai'r staff a'r myfyrwyr yn mynd i lawr i waelod y bryn amser cinio i'r dafarn. Dyna lle cefais flas am y tro cyntaf ar gwrw casgen Cymreig, a lle dysgais hefyd ddweud: *iechyd da*. Hefyd, dim ond un bwyty Tsieineaidd bach oedd yn y dref, a hwnnw ger y prom; mae'n siŵr fod yna gryn dipyn ohonynt erbyn hyn.

Frank Hogg oedd Prifathro cyntaf Coleg Llyfrgellwyr Cymru. Ar ôl i mi adael y Coleg, cwrddais â Frank sawl gwaith yn Hong Kong ac yn Indonesia lle'r oedd yn ymgynghorydd i system y llyfrgelloedd cyhoeddus.


Roedd y myfyrwyr gwrywaidd yn byw mewn neuadd breswyl (ag enw Cymraeg na allaf byth ei ynganu'n iawn) beth ffordd o'r coleg. Byddem yn teithio'n ôl ac ymlaen ar fysiau bob dydd, ac rwy'n cofio enw'r gyrrwr hyd heddiw – Mr Roberts. Roedd morynion yn dod i mewn bob dydd i dacluso ein hystafelloedd a pharatoi'r bwyd, a'r warden oedd John Roe, a fu'n ddiweddarach yn goruchwylio fy nhraethawd hir ar gyfer cymrodoriaeth. Roedd y merched yn byw mewn neuadd breswyl arall, ac roedd yn achlysur mawr pan gâi'r bechgyn a'r merched barti gyda'i gilydd yn neuadd y bechgyn cyn diwedd y flwyddyn. Roedd pob un (neu o leiaf y rhan fwyaf) o'r bechgyn yn ymddwyn orau y medrent bryd hynny.

Mae'n rhaid bod yno 15–18 o uwchraddedigion. Un enw rwyf yn ei gofio o hyd yw Eric Wainwright, a aeth i Awstralia yn ddiweddarach a gwneud yn dda yn sector y llyfrgelloedd academaidd – ar un adeg ef oedd Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Llyfrgell Genedlaethol Awstralia. Ymhlith yr enwau eraill a gofiaf mae Roger Shringley, Jock Holmes a Robert Taylor.

Aeth Michael Ramsden, un o'r staff darlithio, i Melbourne, Awstralia i ymuno â staff Ysgol Lyfrgellyddiaeth RMIT ac yn ddiweddarach daeth yn bennaeth yr adran, yn ddeon y gyfadran, ac yn Ddirprwy Is-Ganghellor Dros Dro.

Wel, on'd oedden nhw'n ddyddiau da? Rwyf bellach yn fy saithdegau, ond rwy'n dal i weithio fel Llyfrgellydd Prifysgol Macau, ar ôl cyfnod hir mewn swyddi arwain yn y sector llyfrgelloedd academaidd yn Hong Kong. Byddai'n wych cael cysylltu o'r newydd â rhai o'm cyd-fyfyrwyr yng Ngholeg y Llyfrgellwyr. Dyma fy nghyfeiriad ebost wtpoon@umac.mo.

Yn ddiweddar iawn, cefais gyfle i ailgysylltu â Phrifysgol Aberystwyth pan gyfrannais swm bychan tuag at "Her IronMan Cymru 2016" a gwblhawyd gan yr Athro John Gratton, yr Is-Ganghellor Dros Dro.



# Aber Dramor

Mae'n arbennig o galonogol cofnodi yma yn y 25ain rhifyn o PROM fod lefelau ein gweithgarwch rhyngwladol yn uwch nag erioed, ac ystyried y rhan y mae PROM wedi'i chwarae dros y blynyddoedd i feithrin cyswllt rhwng cyn-fyfyrwyr ym mhedwar ban byd a'r Brifysgol ac a'i gilydd. Rydym yn ddiolchgar i'n rhwydwaith cynyddol o wirfoddolwyr sy'n cynrychioli'r cyn-fyfyrwyr ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni i'n helpu i gadw mewn cysylltiad â'n cymuned fyd-eang mewn 150 o wledydd. (www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/international/). Mae eu cymorth yn amhrisiadwy i staff a myfyrwyr Aber o safbwynt denu myfyrwyr, astudio ac ymchwilio ar lwyfannau mwyfwy rhyngwladol a meithrin partneriaethau â sefydliadau addysg uwch ledled y byd.

Eleni cafwyd aduniadau yn Taiwan, Xian a'r Swistir, i gyd wedi'u trefnu'n lleol. Cafodd cyn-fyfyrwyr a chyfeillion yn ein haduniadau yn Efrog Newydd ac yn Washington DC ym mis Mai 2016 gyfle, yng nghwmni'r Is-Ganghellor, i fwynhau taith rithwir i Aberystwyth mewn dangosiad arbennig o *Y Gwyll/Hinterland*, a chafwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl y dangosiad gyda Chyfarwyddwr y gyfres ac un o'r rhai a'i creodd, a Chymrawd er Anrhydedd Aberystwyth, Ed Thomas.


Cryfhawyd ein cyfeillgarwch agos â Chlwb Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth ym Malaysia ymhellach gydag ymweliad arbennig iawn ag Aberystwyth yn y gwanwyn gan gyn-fyfyriwr a Chymrawd er Anrhydedd Aberystwyth, Ei Fawrhydi Tuanku Muhriz, gyda'i deulu a'i gyfeillion, gan gynnwys cyn Lywydd y Clwb, Dato' Nasharuddin Hussein. Roedd yn dda iawn hefyd gan Ei Fawrhydi Tuanku Muhriz gael cyfle i gwrdd â rhai myfyrwyr o Malaysia sy'n astudio yma ar hyn o bryd mewn derbyniad yn yr Hen Goleg.

Roeddem yn falch iawn o groesawu'r Cymrawd er Anrhydedd Dato' Zawiyah Baba a Llywydd cyntaf y Clwb a'r Cymrawd er Anrhydedd Tan Sri Arshad Ayub a'i deulu i seremoni raddio ei wyres, Azryn, ym mis Gorffennaf. Da iawn oedd cael cwmni Llywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Steve Lawrence, a'r Is-Ganghellor yn yr achlysuron hyn i ddathlu cryfder y cysylltiadau sy'n parhau rhwng Aber a Malaysia ac i dderbyn yn ffurfiol y llyfr coffa a gyhoeddwyd gan y Clwb ar achlysur dyfarnu Cymrodoriaeth er Anrhydedd Aberystwyth i Ei Fawrhydi Tuanku Muhriz ym Mhrifysgol Malaysia yn 2014.

Hefyd yn 2016 cynrychiolwyd y Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Alumni yng Ngŵyl Gymreig Gogledd America yn Calgary, lansiwyd yn llawn ein cysylltiadau cynyddol â Washington DC ac Efrog Newydd a daeth newyddion cyffrous i law am gysylltiadau newydd yn Nigeria. Rwy'n ddiolchgar iawn i'n cyn-fyfyrwyr yn y gwledydd hyn ac yn Singapore am fy helpu i a'm tîm i ddatblygu syniadau ar gyfer rhwydwaith o gymdeithasau cyn-fyfyrwyr. Rwy'n ddiolchgar hefyd i'r cyn-fyfyrwyr sy'n gweithio gyda staff a myfyrwyr yn ein campws ym Mawrisiws i lansio'u Cymdeithas i gefnogi ein myfyrwyr ym Mawrisiws, datblygiad arbennig o gyffrous i'r Campws fel canolfan strategol i addysg uwch yn y rhanbarth ac i barhad dylanwad Aberystwyth ledled y byd. Yn olaf, cadwch olwg am newyddion am y datblygiadau sydd ar y gweill yn Siapan a Dubai.

Os oes gennych unrhyw syniadau i helpu ein gwaith denu myfyrwyr, cymorth i fyfyrwyr neu weithgareddau alumni yn eich gwlad, neu os hoffech wybod mwy am ein cynlluniau a'n gweithgareddau, mae croeso i chi gysylltu â datblygu@aber.ac.uk; rydym yn gwerthfawrogi eich diddordeb a'ch help.

**Louise Jagger,**
**Cyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni**



# Hywel Ceri Jones

## Sylfaenydd Rhaglen Gyfnewid Addysgol Ewropeaidd Erasmus

*Cyfweliad gan John Gilbey*
*(gilbey@bcs.org.uk)*

*Bu bron i Dr Hywel Ceri Jones, un o raddedigion balch Aber, Ewrogarwr brwd a Chymrawd er Anrhydedd y Brifysgol, beidio â dod i Aberystwyth i astudio.*

"Newidiais fy meddwl ar y funud olaf ynglŷn â mynd i Abertawe," meddai. "Roedd Pennaeth Ysgol Ramadeg Pontardawe, Stan Rees, yn un o gyn-fyfyrwyr nodedig Aberystwyth. Dywedodd wrthyf, 'Hywel, gwranda. Aber yw'r lle perffaith i ti. Mae'n rhaid i ti fynd yno.'

"Doeddwn i erioed wedi bod yno. Roedd yn naid i'r tywyllwch, ac yn golygu gadael cartref, oherwydd pe bawn i wedi mynd i Abertawe mae'n ddigon posib y byddwn yn byw gartref. Cyrhaeddais yma yn 1955, ac mae'n rhaid fy mod yn un araf am ddysgu oherwydd fe arhosais yma tan 1962. Saith mlynedd yma yn Aber, pedair ohonynt ar gwrs gradd anrhydedd Ffrangeg. Yn fy nhrydedd flwyddyn, bûm draw yn Ffrainc yn dysgu ar y cynllun 'blwyddyn dramor'. Bûm yn dysgu yn Lorient yn Llydaw, a oedd wedi ei dinistrio i raddau helaeth iawn yn y rhyfel. Roedd bom ar ôl bom wedi eu gollwng arni am fod un o arfdai pwysig iawn y llynges yno, a chafodd popeth ond yr arfdy ei daro. Hyd yn oed pan oeddwn i yno, yn 1957, roedd y dref yn dal wrthi'n cael ei hailadeiladu, a'r ysgol yn dal yn llawn o gytiau dros dro, gan nad oeddent wedi gwneud y gwaith ailadeiladu yno eto. Roedd yn brofiad gwych, heb neb arall o'm cwmpas yn siarad Saesneg, felly roedd yn rhaid i mi ddysgu siarad Ffrangeg yn dda iawn, a rhywfaint o Lydaweg, ac fe wnes i hynny, a gwneud ffrindiau da hefyd.

> Aber yw'r lle perffaith i ti.

"Ar ôl blwyddyn ar y cwrs Diploma mewn Addysg treuliais ddwy flynedd yn gwneud gwaith ymchwil ar Henri Barbusse, ond yn fy mlwyddyn olaf cefais fy ethol yn Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Dyna a lywiodd fy ngyrfa mewn gwirionedd, oherwydd symudais o Aber i Brifysgol Sussex a oedd yn newydd ar y pryd, y gyntaf o saith prifysgol newydd a grëwyd ar ôl Adroddiad Robbins. Roeddwn ymhlith y pymtheg cyntaf i gael eu penodi, a threuliais ddeuddeg mlynedd yno. Bûm yn Gofrestrydd Cynorthwyol, a helpu wedyn i greu'r Ganolfan Technoleg Addysgol yno a dod yn un o ddwy 'law dde' yr Is-Ganghellor, yr hanesydd nodedig Asa Briggs, Arglwydd Briggs yn ddiweddarach, ar ochr gynllunio a datblygiad academaidd y brifysgol.

"Fe wnes i hynny tan 1972, ac yna dywedodd Asa wrthyf 'Hywel, mae'r Deyrnas Gyfunol yn ymuno â'r Gymuned Ewropeaidd (bryd hynny), rwyt ti'n berffaith i fynd draw yno'. Roeddwn wedi gweithio gydag ef ar ddimensiwn rhyngwladol Sussex, ar y gydberthynas â'r OECD ac UNESCO, felly penderfynais wneud cais a chefais fy mhenodi. Cyrhaeddais ym Mrwsel ar yr un pryd â dau ffrind i mi yn Aber, Gwyn Morgan ac Aneurin Hughes - roedden ni'n tri wedi olynu ein gilydd yn llywyddion Undeb y Myfyrwyr yn Aber, a'r ddau arall hefyd wedi bod yn Llywyddion ar Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Roedden ni'n driawd gwych a chawsom amser hapus iawn gyda'n gilydd dros y blynyddoedd!"

Roedd digonedd o le yn Ewrop yn yr 1970au i syniadau a datblygiadau blaengar mewn meysydd pwysig.

"Cefais fy mhenodi gan y Comisiwn Ewropeaidd yn bennaeth cyntaf ar yr adran addysg, hyfforddiant a pholisi ieuenctid – doedd neb wedi gwneud y swydd o'r blaen, felly roedd yn gyfle euraidd i geisio creu rhywbeth newydd. Bûm yn gyfrifol am ddatblygu polisi addysg a hyfforddiant y Comisiwn am ugain mlynedd. Roedd yn gyfnod digon anodd, oherwydd doedd y gair 'addysg' ddim wedi ymddangos o gwbl yng Nghytundeb Rhufain i sefydlu'r Gymuned Ewropeaidd; mae'n bwnc sensitif sy'n agos at galon y syniad o sofraniaeth, ac felly roedd rhai aelod-wladwriaethau'n arbennig o nerfus yn ei gylch. Ond fe lwyddon ni i gychwyn arni, a chefais gyfle i greu Rhaglen Erasmus a nifer o raglenni cydweithredol Ewropeaidd eraill."

Mae Rhaglen Erasmus (Cynllun Gweithredu Rhanbarth Ewrop ar Symudedd Myfyrwyr Prifysgol) wedi cael effaith aruthrol ar y ffyrdd y mae prifysgolion yn gweithredu ar draws Ewrop, ac wedi bod yn hwb i ryngwladoli rhaglenni astudio.

“Fe gydiodd y cynllun yn nychymyg pobl o’r cychwyn cyntaf ac yn fuan iawn roedd bron pob prifysgol yn Ewrop yn cymryd rhan. Mae bellach yn rhan ganolog o’r strategaeth Ewropeaidd bresennol, a disgwyliwn 5.5 miliwn o fyfyrwyr Erasmus erbyn 2020. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae dimensiwn ‘Erasmus Mundus’ hefyd ac felly mae wedi ehangu i bob cwr o’r byd. Er enghraifft, mae Sbaen a Phortiwgal yn cynnig cysylltiadau gwirioneddol ag America Ladin. Ceir cyfleoedd i wneud cyrsiau gradd meistr ar y cyd – ar y cychwyn roedd pwyslais Erasmus i raddau helaeth iawn ar fyfyrwyr israddedig, ond erbyn hyn mae’n cwmpasu rhaglenni meistr uwchraddedig – ac rwy’n falch iawn o weld bod Aber a phrifysgolion eraill yng Nghymru’n cymryd rhan ynddi.”

A yw’n meddwl bod y rhaglen, a chynlluniau eraill tebyg, wedi gwireddu eu potensial yn llawn yng Nghymru?

“Rwy’n meddwl bod lle i Aber wneud mwy. Gallem wneud mwy o safbwynt strategol, gan greu partneriaethau hirdymor â phrifysgolion eraill ac ymgorffori’r ymrwymiad hwn i ryngwladoli yn y cwricwlwm. Bydd myfyrwyr yn mynd a dod, ond er bod symudedd yn elfen o’r rhaglen, mae hefyd yn ymwneud â rhyngwladoli’r cwricwlwm a thrwy hynny brofiad y myfyrwyr ym mhob disgyblaeth, a’r ddealltwriaeth ddiwylliannol sy’n mynd law yn llaw â hynny. Mae tystiolaeth fod y rhaglen wedi cael effaith aruthrol o ran gwella cyfleoedd gwaith myfyrwyr – gallant ei nodi ar eu CV a dweud ‘Edrychwch! Fe astudiais i ym Mhrifysgolion Lyon ac Aberystwyth’. Yn ogystal â’r hyn sydd ar dystysgrif gradd, mae’n fater o newid meddylfryd a gorwelion y myfyriwr.”

Dilynodd Hywel ei gwrs gradd bron yn gyfan gwbl yn yr Hen Goleg, a phan siaradais ag ef roedd newydd ddychwelyd ar ôl bod yn gweld y cynlluniau i ailwampio’r adeilad eiconig hwn, ac roedd yn llawn brwdfrydedd yn eu cylch.

“Mae gweledigaeth Mary Lloyd Jones yn hyn o beth yn gwbl ysbrydoledig, ac rwy’n llawn cyffro am y prosiect ac yn bwriadu ceisio helpu’r tîm i gychwyn arni. Rwy’n credu bod yma botensial aruthrol, a llawer o hanes. Rwy’n mawr obeithio y bydd Aber yn llwyddo i adeiladu prosiect llawn dychymyg a all fod yn rhan ddiwylliannol a chymdeithasol, ac yn rhan wirioneddol, o hanes Cymru, oherwydd mae’r brifysgol yma wedi chwarae rhan mor allweddol yn hanes addysg prifysgol yng Nghymru. Credaf fod angen iddo fod yn rhan o’r ‘gylchdaith’, ac roeddwn yn falch iawn o glywed bod trafodaethau addawol yn mynd rhagddynt â Chyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ynglŷn â chydweithio yn y dyfodol. Mae angen iddo fod yn rhan o’r profiad diwylliannol mewn gwahanol rannau o Gymru – atyniad enfawr i dwristiaid – ond hefyd yn ganolfan ddysg i bobl yn y gymuned, a fydd yn dod i mewn a chael gwahanol brofiadau i’w hysbrydoli. Mae lle i gynnal gweithgareddau o bob math yno, ond mae angen iddo fod yn ofod byw go iawn mewn ffordd sy’n gwneud i bobl deimlo nid yn unig ei fod yn eiconig, ond hefyd yn egnïol ac yn rhan o’u bywydau bob dydd.”

> “...fod y rhaglen wedi cael effaith aruthrol o ran gwella cyfleoedd gwaith myfyrwyr.”

O ran dyfodol prifysgolion yng Nghymru, ac Aberystwyth yn arbennig, mae gan Hywel Ceri Jones farn gref yn deillio o’i brofiad o weithio a chyfrannu at y model datblygu Ewropeaidd.

“Mae’n hollbwysig o safbwynt llwyddiant y strategaeth Gymreig yn gyffredinol fod prifysgolion Cymru, gyda’i gilydd, yn dangos eu bod yn gwbl ymroddedig i’r strategaeth economaidd a chymdeithasol. Yr hyn a welaf ar hyn o bryd yw addewid y gall prifysgolion fod yn ganolfannau datblygu. Efallai fod hynny i’w weld yn fwy amlwg ar hyn o bryd yng Nghymru yng Nghaerdydd ac Abertawe wrth i’r dinas-ranbarthau ddatblygu – ac yn enwedig yn Abertawe a’i hail gampws newydd bendigedig. Hoffwn weld hynny’n cael ei gofleidio’n gryfach ledled Cymru; gwahanol ganolfannau datblygu yn y gogledd, y de, y dwyrain a’r gorllewin. Yma yn Aberystwyth, mae IBERS wedi gwneud argraff fawr arnaf, ynghyd â’r weledigaeth ar gyfer y Campws Arloesi a Menter newydd. Mae’n amlwg ei fod, fel Caerdydd ac Abertawe, gyda’r gorau yn y byd. Ysgolheigion a gwyddonwyr o safon fyd-eang, ac adnodd o safon fyd-eang. Hoffwn weld mwy o lawer o ryngweithio rhwng y canolfannau prifysgol hyn, a Llywodraeth Cymru’n meithrin ac yn cefnogi eu potensial yn y tymor byr yn ogystal ag yn y tymor hir.

“Ym myd gwleidyddiaeth, y perygl yw mai agwedd fyrdymor a geir i raddau helaeth – mater o ailethol gwleidyddion – a gall y prifysgolion gynnig gweledigaeth a phersbectif mwy hirdymor. A dyna pam fy mod hefyd wedi dadlau bod angen i Lywodraeth Cymru greu asiantaeth newydd – yr hyn yr wyf yn ei alw’n ‘Asiantaeth Arloesi a Datblygu Cymru’. Nid ail-greu Awdurdod Datblygu Cymru gynt, yr oeddwn yn meddwl gyda llaw iddo wneud gwaith da iawn ac na ddylai fod wedi ei daflu o’r neilltu yn y fath fodd, ond un sy’n addas at y diben yn yr unfed ganrif ar hugain, ag arloesi’n ganolog iddi. Byddai’r asiantaeth Gymreig hon yn dod â phethau at ei gilydd, yn rhyw fath o ddynamo â phersbectif Cymru gyfan, yn cefnogi ac yn annog y canolfannau yn ein prifysgolion ledled Cymru. Gwlad fach ydyn ni, ac mae’n rhaid i ni fanteisio ar ein cryfderau. Mae gennym gymaint o dalent ac egni yma yng Nghymru, ac fe ddylid cyd-gysylltu’r rhain a’u hyrwyddo’n fwy brwd.”

Mae’r thema hon – datblygiadau cynaliadwy wedi’u cynllunio, heb eu llesteirio gan ofynion ymatebol gwleidyddiaeth bleidiol – yn awgrymu bod dyfodol cryf i addysg uwch ac ymchwil yng Nghymru, lle mae cymuned academaidd gadarn yn sylfaen gref i ddatblygiad cenedl a chanddi ymdeimlad hanesyddol cryf o ymwneud ag eraill yn Ewrop ac ym mhedwar ban byd.

Ychydig wythnosau ar ôl i mi gwrdd â Hywel, cafwyd y bleidlais hanesyddol gan bobl y DU i beidio â pharhau i fod yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd. Mae’r rhai sydd wedi buddsoddi cymaint mewn integreiddio Ewropeaidd, wrth reswm, yn gresynu at hynny. Mewn gohebiaeth ddiweddar, mae Hywel yn nodi ei bryder ynghylch “yr effeithiau niweidiol posib ar brifysgolion ym maes ymchwil ac addysgu” a allai ddod yn sgil hyn. Amser a ddengys dros y blynyddoedd nesaf i ba raddau y gall prosiectau cydweithredol Ewropeaidd yr ymladdwyd mor galed i’w sefydlu oroesi ‘Brexit’.

## Pumed Plentyn o’r un Teulu yn Graddio o Aber

Pan raddiodd Mirain Glyn o Brifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennaf 2016, roedd yr achlysur yn ddiwedd cyfnod i deulu o Wynedd.

Hi oedd yr olaf o bump o blant y teulu Glyn i raddio ym Mhrifysgol Aberystwyth; y cyntaf oedd ei brawd Siôn a ddechreuodd 'nôl yn 2005. Ers hynny, teithiodd pob un o’r teulu i lawr o Fetws y Coed i astudio yng Ngheredigion.



*Chwith i’r dde: Siôn ap Glyn, Beca Glyn, Mirain ap Glyn, Llŷr Serw ap Glyn a Heledd Dylasau.*

Dros yr un mlynedd ar ddeg ddiwethaf bu aelod o’r teulu Glyn yn byw ac yn astudio yn Aberystwyth ac mae’r dref fel ail gartref iddynt, fel yr eglura Mirain: “Bu fy nheulu’n ymweld ac yn astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth ers cyhyd mae’r lle fel cartref oddi cartref i ni. Fel fy mrodyr a’m chwiorydd doeddwn i erioed eisiau mynd i unrhyw le arall a bydd yn ddrwg gen i adael. Rydyn ni wedi gwneud ffrindiau da ac mae gennym atgofion gwych – a pha Brifysgol arall all ddweud bod ganddi’r fath arfordir hardd!”

Ers gorffen eu hastudiaethau mae pob un wedi symud ymlaen yn eu hamrywiol feysydd.

Graddiodd yr hynaf, Siôn, yn 2008 mewn Gwleidyddiaeth a Hanes ac arhosodd ymlaen i wneud cwrs TAR yn y Brifysgol. Y awr mae’n Swyddog Cyfathrebu yng Nghaerdydd ac mae ei frawd Llŷr, a raddiodd yn y Gyfraith yn 2009, bellach yn Swyddog y Tribiwnlys gyda Thribiwnlys Prisio Cymru i Lywodraeth Cymru.

Nesaf daeth y tair chwaer, a graddiodd Heledd yn 2011 gyda Gradd Anrhydedd BA yn y Gymraeg a bellach mae’n athrawes gynradd yn y Fron Goch, y Bala. Graddiodd Beca y llynedd mewn Amaethyddiaeth ac Astudiaethau Busnes, ac ar ôl cyfnod tri mis yn Seland Newydd mae hi wedi mynd 'nôl i weithio ar fferm y teulu gyda’i thad. Ac yn olaf, graddiodd Mirain eleni gyda BA mewn Addysg ac Astudiaethau Plentyndod. Yn ystod ei chyfnod yn Aberystwyth bu’n llysgennad ac yn gynrychiolydd Cymraeg i’r adran Dysgu Gydol Oes, yn aelod o UMCA, y Geltaidd, a bu’n chwarae rygbi i’r tîm merched Cymraeg.

# Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau

## Pwy yw Pwy yn y Brifysgol?

*Wrth sôn am staff yn Aber, y staff academaidd sy’n dod i’r meddwl, ac wedyn efallai y staff cymorth a welwn ar y campws bob dydd, ond mae sawl un arall yn gweithio yn y Brifysgol sy’n chwarae rhan allweddol yn ei llwyddiant, a hynny’n aml heb gael fawr ddim sylw. Mae Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau Aber yn haeddu rhywfaint o’r sylw hwnnw!*

### Tîm Cyswllt Ysgolion a Cholegau



*O’r chwith i’r dde: Dafydd Morse (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Cathy Piquemal (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau) David Moyle (Rheolwr Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Teleri Lewis (Swyddog Prosiect Cyswllt Ysgolion a Cholegau) Dewi Phillips (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau)*

*Aelodau eraill o’r tîm: Harriet Greatrex (Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau, De Orllewin Lloegr) David Maxwell (Cynghorydd AU Rhanbarthol, Canolbarth Lloegr)*

Mae aelodau’r tîm yn teithio ar hyd a lled y Deyrnas Gyfunol drwy gydol y flwyddyn ysgol. Drwy gyfuniad o sgyrsiau mewn ysgolion a cholegau, arddangosfeydd UCAS, digwyddiadau rhanbarthol i gyfoethogi meysydd llafur a nosweithiau rhieni/gyrfaoedd ledled y wlad, mae’r tîm wedi siarad â miloedd o fyfyrwyr ynglŷn â symud ymlaen i addysg uwch.

“Rydym yn frwd dros ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr i’w helpu i wneud penderfyniadau”, meddai David Moyle sy’n rheoli’r tîm. “Mae natur y swydd yn hynod amrywiol ac rydym yn mwynhau cael mynd allan i siarad â myfyrwyr, rhieni ac athrawon er mwyn lledaenu’r neges am y cyfleoedd gwych a’r profiad rhagorol sydd ar gael i fyfyrwyr yn Aber.” Bu 2015/16 yn flwyddyn brysur arall wrth i’r tîm ymweld â channoedd o ysgolion a cholegau. Maent hefyd wedi croesawu dros 1,200 o fyfyrwyr i’r campws i gymryd rhan yn y cynllun Blas ar Fywyd Prifysgol a Phrofiad Bagloriaeth Cymru.

“Rydym yma i gynnig cymorth i ysgolion a cholegau drwy gydol y flwyddyn, a chynigiwn ystod gynhwysfawr o weithgareddau i roi gwybodaeth i fyfyrwyr ac i ennyn eu diddordeb”, meddai David. I gael gwybod mwy am y tîm, neu os ydych yn athro neu’n athrawes ac am gael gwybod mwy am y gwasanaethau estyn allan y mae’r Brifysgol yn eu cynnig yn rhad ac am ddim, ewch i: www.aber.ac.uk/cy/undergrad/schools/.



# Trychineb Aberfan Hanner canrif yn ôl

## Jeff Griffiths (Hanes 1969) yn rhannu ei atgofion

*Dim ond ychydig wythnosau cyn i Drychineb Aberfan ddigwydd roeddwn i wedi dechrau yn y Coleg. Ddydd Gwener, Hydref 21, 1966 llithrodd tomen rwbel glofa i lawr y mynydd gan ladd 116 o blant a 28 o oedolion yn y pentref glofaol hwn yn Ne Cymru. Aeth sôn am y drychineb ar led ymhlith y myfyrwyr a threfnwyd cyfarfod y noson honno yn neuadd breswyl Pantycelyn (neuadd i ddynion yn unig bryd hynny). Anerchwyd ni gan fyfyriwr a ddywedodd fod un o'i gefndryd yn bresennol yn Ysgol Gynradd Pantglas Aberfan pan amlyncwyd hi gan lithriad y domen. Roedd apêl wedi ei gwneud am wirfoddolwyr i gynorthwyo'r ymdrech achub yn Aberfan a phenderfynodd y cyfarfod anfon grŵp i helpu o blith myfyrwyr Aberystwyth.*

Ni phetrusais am eiliad cyn gwirfoddoli i fod yn aelod o'r grŵp. Roedd gweithfeydd glo yn parhau'n rhan o ddiwylliant De Cymru yn y 1960au ac roedd tystiolaeth o'r diwydiant glo, yn y gorffennol a'r presennol, yn dal o gwmpas ym mhobman. Roedd adfeilion adeiladau pyllau glo a hen dipiau glo wedi bod yn rhan o chwaraele fy mhlentyndod. Roedd fy ewythrod i gyd yn lowyr, yn union fel y bu cenhedlaeth gynharach o'm teulu. Roedd yr isadeiledd o adeiladau'r pyllau glo, y rheilffyrdd cario glo a'r olwynion pen pwll, sydd wedi diflannu bron yn llwyr erbyn hyn, yn parhau i ddiffinio tirwedd De Cymru.



Cyfarfu'r dynion oedd wedi gwirfoddoli unwaith eto yn hwyrach y noson honno yn Neuadd Pantycelyn. Gwelsom mai ein trafnidiaeth fyddai un o hen dryciau'r fyddin a oedd wedi cael ei ddefnyddio'r haf hwnnw gan Gymdeithas Archwilio'r Coleg i deithio ar draws anialwch Sahara (roedd erthygl yn rhifyn 2013 o PROM yn adrodd hanes y daith honno ac yn cynnwys ffotograff o'r tryc a oedd wedi ei liwio'n wyn ar gyfer ei daith drwy'r anialwch). Cychwynnwyd yn hwyr y noson honno i deithio tua'r pentref trallodus ger Merthyr Tudful, filltirordd lawer i'r de-ddwyrain o Aberystwyth. Mae gen i gof am daith anghyfforddus ddi-gwsg dros y Mynyddoedd Cambraidd yn y tywyllwch. Fe dybiwn i bod pob gwirfoddolwr yn ceisio dyfalu beth fyddai'n ein haros drannoeth ar ôl clywed am rif cynyddol y meirwon.

Cyrhaeddwyd Aberfan cyn toriad gwawr ddydd Sadwrn, Hydref 22, hanner can mlynedd yn ôl. Cyfeiriwyd ein grŵp o fyfyrwyr at adeilad cymunedol ar ochr bryn uwchben y pentref trist. Yma cawsom ein gwisgo mewn oferôls ac esgidiau glaw y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Gallem weld y goleuadau'n gwanu'r tywyllwch isod a chlywed hymian peiriannau trymion. Gwawriodd y dydd hwnnw'n braf a hyfryd ond roedd niwl yn oedi ar lawr y dyffryn. Wrth i'r niwl glirio gallem weld yr olygfa iasol yng ngwaelod y cwm gyda chraith fawr ddu o slyri glo yn amlyncu'r ysgol a'r tai teras yn ei lwybr. Unwaith roedd hi wedi goleuo digon, i ffwrdd â ni drwy strydoedd a'r dŵr yn llifo drwyddynt a'u llond o gerbydau gwasanaethau argyfwng.

> "Gallem weld y goleuadau'n gwanu'r tywyllwch isod a chlywed hymian peiriannau trymion."

Anfonwyd y grŵp i weithio yn Ysgol Gynradd Pantglas a oedd wedi cwympo'n rhannol ac i Ffordd Moy gyfagos lle roedd rhai o'r trigolion wedi eu lladd yn eu cartrefi teras. Wrth weld uchder a maint llithriad y tip glo roedd yn ymddangos yn annhebygol bod neb yn dal yn fyw, ac felly yr oedd hi. Ein tasg oedd pasio o law i law, yn gadwyn ddynol, sachau hessian a oedd wedi eu llenwi o slyri gan lowyr helmog a oedd yn tyllu i lithrfa'r tip. O bryd i'w gilydd roedd sgrin o blancedi yn cael ei dal i fyny pan fyddai cyrff yn cael eu darganfod yng ngweddillion yr ysgol. Roedd chwiban yn cael ei swnio ac arhosai pawb yn dawel tra byddai corff bach arall o dan ei flanced yn cael ein gludo ymaith. Rwy'n cofio'n arbennig fur un ystafell ddosbarth oedd heb gwympo ac arno boster diogelwch ar y ffyrdd gyda'r neges 'Arhoswch, Edrychwch a Gwrandewch', a oedd mor eironig o drist o dan yr amgylchiadau.

Yn ddiweddarach anfonwyd ein grŵp gwirfoddol o fyfyrwyr i weithio ar y tip oedd wedi cwympo i raddau ac wedi achosi'r drychineb. Roedd angen gosod sachau tywod i atal y nant a oedd yn llifo'n brysur i lawr y llethr. Ar y tip roedd pethau a edrychai ac a swniai fel hen seirenau i rybuddio bod cyrchoedd awyr ar ddod yn ystod yr Ail Ryfel Byd wedi eu gosod. Roedd y rhain yn swnio tra oedden ni'n gweithio pan ofnid bod cwymp arall ar fin digwydd. Erbyn y prynhawn, pan oedd achubwyr proffesiynol o bob rhan o'r wlad yn cyrraedd yn lluoedd, gofynnwyd i wirfoddolwyr fel ni roi'r gorau i'n hymdrechion a gadael ardal y drychineb.

Wrth ddychwelyd i Aberfan ac ymweld â'r rhes faith o feddau ar ochr y bryn byddaf yn atgoffa fy hun nad oedden ni fyfyrwyr fawr yn hŷn ar y pryd – rhai ohonom yn dal yn ein harddegau – na mwyafrif y rhai a drengodd yno hanner canrif yn ôl.

> *Mae argyfwng gwahanol arall heddiw yn dangos bod helbul eraill yn dal i ysgogi myfyrwyr i weithredu hanner canrif yn ddiweddarach:*



*O'r chwith i'r dde: Abigail Wren, Johnny Gaunt, Paddy Johnson, Freddie Mackereth, Jordan Rees a Billy Kingsbury gyda llond fan o nwyddau i'w cludo i Calais.* Llun drwy garedigrwydd y Cambrian News, www.cambrian-news.co.uk

Yn ystod blwyddyn academaidd 2015-16, ymatebodd pum myfyriwr i apêl gan Johnny Gaunt, gweithiwr iechyd proffesiynol yn Ysbyty Bronglais, am wirfoddolwyr i'w helpu i gasglu cyflenwadau a'u cludo i wersylloedd ffoaduriaid yng ngogledd Ffrainc.

Y myfyrwyr, pob un wedi graddio dros yr haf, yw Patrick Johnson (Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu), Billy Kingsbury (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Freddie Mackereth (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Jordan Rees (Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear) ac Abigail Wren (Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol).

Trefnodd y grŵp ganolfannau yn y Brifysgol lle gallai pobl ddod â'u cyfraniadau, ac aethant ati i godi arian i dalu eu costau er mwyn teithio gyda Johnny i Calais a Dunkirk. Yno, aethant â chyflenwadau newydd o fwyd ac offer gwersylla, a buont yn helpu â gwaith adeiladu a chynnal a chadw, ac yn helpu'r ffoaduriaid i ddysgu Saesneg.

Dywed y myfyrwyr fod y profiad wedi newid eu bywydau ac wedi rhoi parch aruthrol iddynt tuag at wydnwch ac ysbryd cymunedol y bobl y cwrddon nhw â nhw, a oedd wedi ffoi rhag gwrthdaro ac wedi dioddef caledi mawr gydag urddas. Maent yn dal mewn cysylltiad â rhai o'r ffoaduriaid ac yn bwriadu parhau i helpu'r achos hwn.

# Newyddion



## Enwi rhewlif yn Antarctica ar ôl rhewlifegydd

Mae rhewlif yn Antarctica wedi'i enwi ar ôl rhewlifegydd o Brifysgol Aberystwyth, yr Athro Neil Glasser. Yn 1500 metr o hyd a 500 medr o led, mae Rhewlif Glasser ar Ynys James Ross ac yn llifo tua'r gorllewin o gromen iâ fawr ar Greigiau Lachman.

## Lawnsio Canolfan Rhagoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig

Ym mis Mawrth 2016 lansiodd y Brifysgol y Ganolfan Rhagoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig, a fydd yn gweld y Brifysgol yn cydweithio'n agos iawn gyda Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd Canolbarth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau unigryw o ddarparu gofal iechyd mewn ardaloedd gwledig megis canolbarth Cymru.

Bydd y Ganolfan hefyd yn cefnogi amgylchedd ymchwil deniadol i gydweithwyr clinigol mewn sefydliadau iechyd partner.

## Hanesydd yn arwyddo cytundeb i gyhoeddi llythyron George Whitefield

Mae Dr David Ceri Jones, Darllenydd yn Hanes Cymru a'r Iwerydd yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru, wedi arwyddo cytundeb o bwys i gyhoeddi gohebiaeth George Whitefield (1714-1770), y diwygiwr efengylaidd traws-Iwerydd o'r ddeunawfed ganrif.

Roedd Whitfield, sydd i raddau helaeth yn angof tu hwnt i gylchoedd crefyddol, yn un o ffigurau cyhoeddus mwyaf adnabyddus canol y ddeunawfed ganrif, ac yn sicr ei ddiwygiwr efengylaidd mwyaf enwog a'r un a deithiodd fwyaf.

## Partneriaeth chwaraeon gyda'r Urdd

Bydd partneriaeth newydd gydag Adran Chwaraeon Urdd Gobaith Cymru yn cynnig cyfleoedd newydd ac yn hyrwyddo chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Adran Chwaraeon yr Urdd yn cynnal wyth cystadleuaeth genedlaethol bob blwyddyn, gyda tua 45,000 o bobl ifanc yn cymryd rhan. Bydd gan y Brifysgol bresenoldeb yn yr holl ddigwyddiadau hyn a byddant hefyd yn bartner allweddol yng ngweithgareddau wythnosol yr adran ledled Cymru. Bydd y bartneriaeth hefyd yn cynnwys cyfraniad ariannol gan y Brifysgol i noddi gwisg staff yr adran, cefnogi a datblygu mentrau cymunedol newydd a swyddfa i swyddogion chwaraeon newydd.



*O'r chwith i'r dde: Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor; Syr Emyr Jones Parry, Canghellor; Ken Skates AC, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth; Sioned Hughes, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru; Elinor Snowsill, chwaraewr rygbi rhyngwladol Cymru, ac Elan Gilford, Gwirfoddolwr Ifanc y Flwyddyn Gwobrau Chwaraeon Cymru).*

# Hanes Plas Penglais

*Geiriau gan Ruth Evans, golygwyd gan Elgan Davies*



*Mae 2016 yn nodi 70 mlynedd ers i Brifysgol Aberystwyth gymryd meddiant o ystad Penglais. Yn 1952 cofnodwyd sut y digwyddodd hynny gan Ruth Evans, gwraig Ifor Evans, a oedd yn Brifathro ar y pryd. Mae'r canlynol yn addasiad talfyredig o'i llawysgrif a gedwir gan Archifau Prifysgol Aberystwyth.*

Ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd Corfforaeth Aberystwyth am godi mwy o dai cyngor yn y dref ac roedd ystâd Penglais yn safle oedd dan ystyriaeth. Ond roedd y tir gyferbyn ar Riw Penglais wedi bod yn eiddo i'r Coleg er 1897 ac roedd ganddo gynlluniau ar gyfer campws newydd o adeiladau academaidd a fyddai'n symud y Coleg i gyffiniau'r Llyfrgell Genedlaethol. Ond os oedd y Coleg Ger y Lli i fod y Coleg ar y Bryn, roedd yn angenrheidiol ei fod yn rheoli'r bryn. Dyna'r unig ffordd y gallai fod yn wir ased i'r dref.

Roedd y pensaer Syr Percy Thomas wedi paratoi cynlluniau yn 1936 ac roedd yr adeilad cyntaf ar y campws, Bloc Ymchwil Amaethyddol, ar fin cael ei gwblhau pan gychwynnodd y rhyfel. Cwblhawyd y pwll nofio gyda chymorth yr Awyrlu ar ddiwedd 1940. Yna peidiodd y cyfan ac edrychai fel pe byddai'r holl gynlluniau gwych hynny yn ddim byd ond breuddwydion uchelgeisiol o orffennol gwell na welid ei debyg fyth eto.

Roedd ystad Penglais yn perthyn i deulu'r Richardes, a phan glywyd sïon yng ngwanwyn 1946 efallai y byddent yn barod i'w gwerthu, dechreuodd tref Aberystwyth drafodaethau petrusgar. Ar y dydd Gwener cyn Sulgwyn 1946 daeth galwad ffôn gynnar i godi'r Prifathro o'i wely yn Rhif 9 Maes Lowri ac fe glustfeiniais yn gwbl ddigywilydd ar ei ochr ef o'r sgwrs. Mae'n debyg bod cweryl wedi bod ym Mhenglais y bore hwnnw a bod Mrs Richardes, pennaeth y teulu, yn barod i werthu'r ystad gyfan yn y fan a'r lle.

Ffoniodd y Prifathro Gyfreithiwr y Coleg a gytunodd y dylent wneud cynnig amdani, ond roedd y ddau yn ymwybodol y byddai'n anodd i'r Coleg ddod o hyd i'r arian ar fyr rybudd. Yn y prynhawn cynhaliwyd cyfarfod yn swyddfa'r Prifathro yn y Coleg, a phan ddaeth adref gallwn weld o'i wyneb fod mwy o bethau a phethau mwy wedi digwydd. 'Hoffet ti fynd i weld y lle?' gofynnodd. Ac yna cefais yr hanes.

Roedd wedi treulio tua hanner awr gyda David Alban Davies [brodor o Geredigion a wnaeth ei arian yn y fasnach laeth yn Llundain ac a ddaeth adref ar ei ymddeoliad i fod yn noddwr hael i'r Coleg ac i dref Aberystwyth] a dyma'r sgwrs a fu rhyngddynt:

Prifathro: 'Rwyf newydd glywed bod ystad Penglais ar werth.'

Alban Davies: 'Pryn e, fachgen, pryn e. Dyna beth ry'n ni wastad wedi'i eisiau – rheolaeth lwyr o'r bryn. Faint maen nhw'n gofyn?'

P: 'Dwi ddim yn siŵr o'r union swm, tua £34,000.'

AD (gan ymestyn am ei lyfr sieciau): 'Mae'n siŵr bydd yn rhaid i chi roi blaendal. Unrhyw syniad faint?'

P: 'Nag oes. Hoffech chi weld y lle?'

AD: 'Na. Ewch chi i'w weld; rwy'n gwybod mai dyma'r hyn ry'ch chi eisiau,' (gan ymestyn siec gwag). 'Dyma chi, llanwch ef pan fyddwch yn gwybod y pris. Ond rwy'n gwneud un amod. Gadewch i'r rhodd fod yn ddienw am y tro, a beth bynnag a wnewch, peidiwch â dweud wrth fy ngwraig!'

Erbyn y noson honno roedd rhannau cychwynnol y ddêl wedi eu cwblhau a gallai'r Coleg ei ystyried ei hun yn berchennog balch 220 erw ychwanegol ar Benglais.

Yn ystod yr wythnosau yn dilyn ein hymweliad, trafodwyd y tŷ a'r ystad yn helaeth. Cytunwyd yn fuan y byddai'r fferm a berthynai iddynt yn rhan o Ffermydd y Coleg. Ond beth ddylid ei wneud â'r plasty? A ddylid ei wneud yn neuadd myfyrwyr? A ddylid ei ddymchwel? Neu a fyddai'n bosibl ei foderneiddio a'i ailadeiladu? Ni allaf gofio pryd y penderfynwyd ei wneud yn gartref i'r Prifathro. Rwyf ond yn cofio mai ein cyfaill a'n noddwr Alban Davies oedd yr un a'n hanogodd i'w wneud yn fodel o le, yn dŷ Prifathro a fyddai'n 'cystadlu â'r gorau yn y Deyrnas Gyfunol', i ailadrodd ei eiriau.

Cymerodd ddwy flynedd i ni gael Plas Penglais i'w gyflwr presennol. O ran ein gwaith gyda dodrefn y tŷ, roedd yn waith cymharol hawdd a phleserus, gan fod gennym ddodrefn hyfryd Cymynrodd Syr John Williams, a adawodd yn ei ewyllys at ddefnydd Prifathrawon y Coleg.

Tra oeddem yn stryffaglio ymlaen gyda'r tŷ, roedd yr Adran Fotaneg, a oedd wedi derbyn cyfrifoldeb am y tir, wrthi'n brysur. Nid oes gan yr un o golegau Cymru ardd fotaneg ac roedd y lle hwn yn ddelfrydol ar gyfer ystyried cynllun mawr o'r fath.

Rwyf wastad wedi teimlo'n gwbl hapus yma, yn wylaidd ddiolchgar am gael y cyfle gwych hwn i greu rhywbeth newydd mewn byd o ddinistr ac ymrafael. Pe cawn ddymuniad, dyma fyddai: Boed i Blas Penglais bob amser fod yn dŷ o hapusrwydd, yn ysbrydoli'r sawl sy'n credu mewn parhad, ac yn ffynhonnell o gryfder ar gyfer gwaith sydd eto i'w wneud.

*Addaswyd a chwtogwyd o Ruth Evans* The Story of Penglais (Gaeaf 1951-52), *gan Elgan Davies.*



# Meithrin Gwir Werthfawrogiad

*Geiriau gan yr Athro Robert Meyrick*

*Keith Vaughan (1912-1977)*
*Y Coedwigwr, 1949, lithograff lliw ar bleth-bapur gwyn.*
*Prynwyd â chronfeydd gwaddol yr amgueddfa gyda chymorth grant prynu gan y V&A, 1989*

*Bydd hi'n ganmlwyddiant ar ddysgu celf yn Aberystwyth yn 2017.*

Mae i'r Ysgol Gelf, sydd mewn adeilad rhestredig Gradd II* Edwardaidd mawreddog, a chanddi ei hamgueddfa achrededig ei hun lle ceir casgliad celf o bwys rhyngwladol, hanes nodedig o dderbyn rhoddion sy'n rhoi digonedd i ni i'w ddathlu. Aberystwyth oedd yr unig brifysgol ym Mhrydain i feithrin cyswllt â'r Mudiad Celf a Chrefft, a tan 1992, hi oedd yr unig brifysgol yng Nghymru i ddysgu celf, ac un o ddim ond wyth yn y DU i gynnig y pwnc.

Yn yr 1910au roedd pryder cynyddol am gyflwr y celfyddydau gweledol yng Nghymru. Yn 1917, a'r aeresau cyfoethog Gwendoline a Margaret Davies yn ystyried troi Neuadd Gregynog yn ganolfan crefftau gwledig, ysgrifennodd Gwendoline at y Brifysgol yn cynnig cymorth i ddysgu celf a chrefft ac i sefydlu amgueddfa. Gobaith y chwiorydd oedd y byddai'r gweithgareddau a oedd ar y gweill yng Ngregynog, law yn llaw â hyfforddi athrawon ysgolion elfennol ac uwchradd yn Aberystwyth, yn arwain at Ddiwygiad Celf a Chrefft yng Nghymru. Y nod oedd dysgu ac ysbrydoli cyw athrawon i barhau â'r gwaith da mewn ysgolion, ac yn arbennig mewn ysgolion lleol, ac y byddai hynny yn ei dro yn arwain at adfywio'r diwydiannau crefft lleol. Penodwyd Daniel Jones yn Feistr Darlunio yn yr Adran Celf a Chrefft, is-adran i'r Adran Addysg, yn yr Hen Goleg bryd hynny. Cafodd Jones gymorth yr arlunydd Valerius de Saedeleer a'i ferched, teulu o artistiaid a oedd ar ffo o Wlad Belg ac y daeth y chwiorydd Davies â nhw i Gymru ym mis Medi 1914.

> "Y nod oedd dysgu ac ysbrydoli"

Gan na fu gan y Brifysgol erioed arian i gynnal ei hamgueddfa ei hun, a chan nad oes cyllid wedi'i glustnodi gan y llywodraeth i amgueddfeydd prifysgolion yng Nghymru (yn wahanol i Loegr), mae popeth sydd wedi ei gyflawni dros y 140 mlynedd diwethaf wedi ei gyflawni yn *gyfan gwbl* drwy haelioni ein cymwynaswyr, noddwyr pwysig fel George Powell o Nanteos (1882), y chwiorydd Gwendoline a Margaret Davies o Landinam (1918), Syr John Williams (1926), Dr Elvet Lewis (1981), Marian



**Yr Athro Robert Meyrick yw Pennaeth yr Ysgol Gelf a'r Ceidwad Celfyddyd. Hyfforddodd ym maes celfyddydd gain a hanes celf ac erbyn hyn mae'n ysgrifennu'n bennaf am brintwaith yr 20fed ganrif ym Mhrydain yn ogystal â chelf a diwylliant gweledol Cymru. Mae wedi gwneud gwaith ymchwil ar gyfer arddangosfeydd a fu ar daith yn genedlaethol ac wedi eu curadu, ac wedi ysgrifennu llyfrau i gyd-fynd ag arddangosfeydd i amgueddfeydd ac orielau ledled Prydain. Yn 2001 cafodd wahoddiad i fod yn Gymrawd er Anrhydedd Cymdeithas Frenhinol y Paentwyr-Printwneuthurwyr yn 'gydnabyddiaeth am ei wasanaethau i gelfyddyd printwaith ym Mhrydain'.**



Evans-Quinn (2004) a Tessa Sidey (2011), sefydliadau cyhoeddus fel Cymdeithas Celfyddyd Gyfoes Cymru a'r artistiaid, cyfeillion a chyn-fyfyrwyr niferus sydd wedi cyfrannu'n ariannol i Brifysgol Aberystwyth neu wedi cynnig gweithiau celf iddi'n rhoddion neu'n gymynroddion. Mae cymynroddion ariannol yn creu cronfeydd gwaddol i fodloni anghenion yr Amgueddfa hyd byth; caiff y llog a geir bob blwyddyn ei ddefnyddio'n ddoeth i ddenu cymorth grant gan Amgueddfa Victoria ac Albert a'r Gronfa Gelf i gynorthwyo i brynu gweithiau newydd.

Mae i adeilad presennol yr Ysgol Gelf ei hanes diddorol ei hun. Ddechrau'r 1990au, cafodd Labordai Cemegol Edward Davies (adeilad a ariannwyd yn wreiddiol gan deulu Davies o Landinam er cof am dad Gwendoline a Margaret) eu hadfer a'u haddasu yn gartref i'r Ysgol Gelf ar ei newydd wedd. Agorwyd yr adeilad gan yr Is-Ganghellor Kenneth O Morgan ym mis Mawrth 1994. Esgorodd y cysylltiad agos rhwng y staff a'r myfyrwyr ar ymdeimlad cryf o gymuned a chydweithredu a buan y tyfodd yr adran. Gyda'i stiwdios, orielau ac ystafell astudio lle cedwir y casgliad cain, hardd, mae'r adeilad yn parhau i gynnig amgylchedd sy'n ysgogi staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymarfer, hanes a churadu celfyddyd.

Mae casgliadau'r Ysgol Gelf yn dathlu cyfoeth ac amrywiaeth heb eu hail, ac mae'r casgliad dysgu hwn yn unigryw yng Nghymru ac yn enwog drwy'r byd. Defnyddir y casgliadau a'n horielau i hyfforddi myfyrwyr sy'n mynd ymlaen i fod yn artistiaid, haneswyr celf, curaduriaid amgueddfeydd a threfnwyr arddangosfeydd. Rydym yn parhau i gasglu, cofnodi a dangos arteffactau ac iddynt werth addysgiadol a diwylliannol sy'n cyfoethogi profiad y myfyrwyr drwy roi cyfle iddynt i astudio gweithiau celf go iawn drostynt eu hunain. Caiff gweithiau celf hefyd eu dangos o amgylch yr Ysgol Gelf ac mewn mannau cyhoeddus ar y campws, a hynny er mwyn ceisio cyfoethogi bywydau'r myfyrwyr wrth iddynt fyw gyda gweithiau celf gwreiddiol.

Mae pob un o'n noddwyr wedi rhannu ein teyrngarwch tuag at Brifysgol Aberystwyth ac yn arbennig felly ein hymrwymiad i ddysgu, astudio a dangos celf yng Nghymru. Fel y dywedodd un o'n curaduriaid yn 1925, credwn yn yr angen sylfaenol i ehangu profiad diwylliannol y myfyrwyr 'drwy wybodaeth, ynghyd â meithrin gwir werthfawrogiad o'r pethau hardd hyn, er mwyn iddynt allu dysgu ac ysbrydoli er lles y cenedlaethau i ddod'.



*Tiwtorial Paentio – Robert Meyrick (chwith) a Michael Harrison (dde), 1987*

*Gwir Werthfawrogiad* oedd teitl arddangosfa a gynhaliwyd yn Oriel yr Ysgol Gelf yn haf 2016 i ddathlu a diolch i gefnogwyr sy'n parhau â'r traddodiad hael hwn. Mae'r Oriel ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 10:00 tan 17:00 (Ar gau dros y Pasg, y Nadolig a'r Calan.) Mynediad am ddim.

Yr Ysgol Gelf: **www.aber.ac.uk/cy/art**

Chwilio Amgueddfa, Arddangosfeydd a Chasgliadau'r Ysgol Gelf: **www.aber.ac.uk/cy/art/gallery-museum**



# Aduniadau



## Ffiseg 1964

Bu Dosbarth Ffiseg '64 yn ymweld ag Aber un penwythnos ym mis Mehefin, eu trydydd ymweliad ers dathlu'r 50 mlynedd yn 2014. Eleni cafodd y criw fynd ar wibdaith ar Reilffordd Cwm Rheidol, a mentrodd nifer ohonynt i waelod y Rhaeadr i gerdded y cylch. Daeth pawb at ei gilydd wedyn yng Ngwesty'r Hafod i fwynhau lluniaeth yr oedd mawr ei hangen.

Os hoffai unrhyw un o Ddosbarth Ffiseg '64 gysylltu â'r grŵp, cysylltwch â'r swyddfa datblygu yn datblygu@aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 621568.



*Llun o 2015: (o'r chwith i'r dde) Huw Williams, Emyr Williams, Paul Sweeney, Tim Price, Suzanne McIvor (Church cyn priodi), Lucy Roberts (Paterson cyn priodi), Lowri Evans, Helen Sweeney & Jane Crook (Mills cyn priodi).*

## Amaethyddiaeth 1985

Daeth cyn-fyfyrwyr o 1985 ynghyd mewn aduniad ger Croesoswallt ym mis Mai 2015 i ddathlu'r 30 mlynedd. Dywedodd Suzanne: "Cawsom brynhawn hyfryd yn chwerthin ac yn hel atgofion. Roedd yn wych cael cyfle i sgwrsio â'r rhai a lwyddodd i ddod i'r aduniad."



*Llun o 1985 i chi gael cymharu!*

## Neuadd Padarn

Ddechrau mis Gorffennaf, daeth criw o Hen Fechgyn Aber, a ddaeth i adnabod ei gilydd pan dreuliasant flwyddyn gyda'i gilydd yn Neuadd Padarn, yn ôl i Aber ar gyfer 30ain penwythnos aduniad Chwaraeon Padarn Lion Royal. Mae'n ddigwyddiad sydd wedi mynd yn llai egnïol dros y blynyddoedd, yn fwy "dartiau a phŵl" erbyn hyn na "5 bob ochr a sboncen"! Cael a chael oedd hi yn y gystadleuaeth tan y diwedd un, ond Mike Emery oedd yn fuddugol yn y pen draw.




*Yn y llun yng Ngwesty'r Castell, lle buont yn hel atgofion am ysgrifennu eu henwau mewn sialc ar y nenfwd (gwyrdd tywyll yn 1981) drwy adeiladu pyramidiau dynol, mae, o'r chwith i'r dde ar eu traed: Mike Emery, Daeareg (1981-85); Tim Arthur, Cyfrifeg (1981-84); Stu Anderson, Cyfrifeg (1980-83); Alun Beynon, Daeareg (1981-84); Simon Leach, Economeg Amaethyddol (1981-85); Ar eu heistedd: Declan Keely (ffrind ysgol); Andy Flye, Cyfrifiadureg (1981-84); Sean Conboy, Hanes (1981-84); Dave Winkler, Cyfrifeg (1981-84)*

# Cronfa Aber

BYDDWCH YN RHAN O'N DYFODOL, GALLECH HELPU I WNEUD GWAHANIAETH



*Mae Cronfa Aber yn esblygiad o'r Gronfa Flynyddol, sef y rhaglen roi newydd i gyn-fyfyrwyr, rhieni, staff, a chyfeillion y Brifysgol. Mae'r Gronfa yn cefnogi prosiectau sy'n gwella profiad a datblygiad myfyrwyr yn uniongyrchol ac yn helpu i hyrwyddo dyheadau'r Brifysgol..*



**Dylan Jones,**
**Swyddog Cronfa Aber**

Trwy gydweithio gyda'n cefnogwyr a'n myfyrwyr, ei nod yw helpu i sicrhau bod pob myfyriwr yn cael pob cyfle i lwyddo yn Aber ac yn y blynyddoedd wedi hynny. Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth, ac mae'r holl arian sy'n cael ei roi yn mynd yn uniongyrchol i'n myfyrwyr.

## EIN PRIF FEYSYDD CYMORTH...



**Caledi Myfyrwyr** i roi cymorth a chefnogaeth ariannol i fyfyrwyr sy'n wynebu caledi ariannol gwirioneddol, difrifol ac annisgwyl.

Mae **Lles Myfyrwyr** yn darparu cefnogaeth a chymorth i ddatblygu sgiliau er mwyn i fyfyrwyr allu rheoli problemau y gallent eu hwynebu yn ystod eu hamser yn y brifysgol ac yn eu bywydau wedi hynny.

**Cyfle i Fyfyrwyr** sef rhoi mynediad, profiad a llwyfannau i fyfyrwyr gyflawni a llwyddo, drwy fentrau a phrosiectau yn y Brifysgol a thu hwnt – gyda chymorth gan ein gwirfoddolwyr o blith y cyn-fyfyrwyr, ymhlith eraill.

> "Yn Aber fe ges i'r arbenigedd a'r hyder roedd eu hangen am yrfa lwyddiannus. Rwy'n rhoi'n rheolaidd gan fy mod i'n awyddus i helpu myfyrwyr heddiw i ddysgu, ac i fwynhau popeth mae'n ei gynnig."
>
> *Mrs Gwenda Sippings (née Hughes) (graddiodd 1978, 1986)*



## RHOWCH RODD...

Mae rhoi rhodd yn rhwydd, ac yn hyblyg. Gallwch roi...


- yn rheolaidd trwy Ddebyd Uniongyrchol, Archeb Sefydlog, neu roi drwy'r Gyflogres
- drwy un rhodd sengl ar-lein (Cerdyn Credyd/Debyd); trwy'r post (siec)
- yn rhyngwladol ar y cyd â'n partneriaid (e.e. System SWIFT, Cronfa America ar gyfer Elusennau)

I gael rhagor o fanylion, ewch i: **www.aber.ac.uk/alumni** neu cysylltwch â **Dylan Jones, dej20@aber.ac.uk 01970 621652**

# DIOLCH!

Adroddiad Rhoddion Blynyddol 2015/16 Ffeithiau a Ffigyrau

Cyfanswm o **£148,144** wedi ei neilltuo ar gyfer prosiectau myfyrwyr




**629** o roddwyr unigol yn ystod y flwyddyn

**23** o brosiectau myfyrwyr newydd wedi'u hariannu yn ystod y flwyddyn

**100%** o'r arian yn mynd yn uniongyrchol i'n myfyrwyr

## EICH EFFAITH...

Mae haelioni ein cyn-fyfyrwyr a'n cefnogwyr yn helpu i newid bywydau cannoedd o fyfyrwyr bob blwyddyn. Hebddo, byddai prosiectau megis yr enghreifftiau isod o 2015/16 yn gyfyngedig neu ddim yn cael eu hariannu:



**Dysgu, Hyfforddi, Gwirfoddoli** – yn rhoi profiadau a datblygiad personol hollbwysig i fyfyrwyr trwy fwrsariaethau bach i fynychu cyrsiau, sesiynau achredu hyfforddi, hyfforddiant ar gyfer hyfforddwyr neu i sefydlu prosiectau unigol newydd i ymgysylltu, cefnogi a mireinio'u sgiliau gyda'r gymuned leol, ysgolion, clybiau a mudiadau yn wirfoddol, ochr yn ochr â'u cyrsiau gradd.




Mae **Bwrsariaethau Lleoliadau'r Haf** wedi helpu ein hisraddedigion Ffiseg i wella eu cyflogadwyedd, ac i ddysgu sgiliau ymarferol a gwybodaeth hanfodol drwy gymryd rhan mewn prosiectau byw, megis adeiladu modelau i arddangosfa'r Gymdeithas Frenhinol, profi offer labordy a chynnal arbrofion, ac astudio 'Bywyd ar Ecso-blanedau'.



**Bwrsariaethau Teithio –** Cafodd dau fyfyriwr o'r Adran Theatr, Ffilm a Theledu gyfle unwaith mewn oes i gynrychioli Aber yng Ngŵyl Ffilmiau fyd-enwog Tribeca yn Efrog Newydd, gan sicrhau profiad amhrisiadwy a sgiliau gyrfa trwy fynychu dosbarthiadau meistr a rhwydweithio gydag arbenigwyr uchel eu proffil yn y diwydiant ffilm.



**Cronfa Galedi'r Myfyrwyr –** Sicrhawyd bod dros £50,000 ar gael eleni, a chan fod ffioedd dysgu yn uwch nag erioed a gostyngiad yn y benthyciadau a'r grantiau cynhaliaeth, mae'r cronfeydd hyn wedi darparu cymorth uniongyrchol ar gyfer myfyrwyr sy'n wynebu problemau ariannol.



Mae **Bwrsariaethau Lleoliadau Gwaith** wedi helpu myfyrwyr Gwleidyddiaeth Ryngwladol i dalu costau teithio a chostau byw wrth iddynt fynychu lleoliadau yn San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i ddatblygu profiadau proffesiynol hanfodol, rhwydweithiau a sgiliau personol.



**Dosbarthiadau 'Ymladd Straen' Myfyrwyr** – Yn ystod cyfnodau arholiadau'r gaeaf a'r haf, bu'r Ganolfan Chwaraeon yn cynnig dosbarthiadau chwaraeon am ddim a phecyn cymorth personol ynglŷn â sgiliau a gwybodaeth i helpu myfyrwyr i fynd i'r afael â straen a gofid, yn ogystal â'r gwasanaethau a'r rhaglenni cwnsela arferol.



Dyfarnwyd grant dwy flynedd i **Nawdd Nos** i gynnal y costau rhedeg ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn sy'n darparu cefnogaeth emosiynol, gwybodaeth a gwasanaeth gwrando cyfrinachol; mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr hyfforddedig o blith y myfyrwyr ar ran holl fyfyrwyr Aberystwyth.

# Rhestr Rhoddwyr 2015/16

Diolch i bawb a restrir isod sydd wedi cyfrannu at Gronfa Aberystwyth yn ystod y flwyddyn **(01/08/2015—31/07/2016)** – yn ogystal â'r rhai hynny y mae'n well ganddynt aros yn ddienw.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y rhestr hon a chyflwyno ein cefnogwyr yn y ffordd fwyaf buddiol. Cofiwch roi gwybod i ni os oes gennych gwestiynau am y rhestr neu awgrymiadau ynglŷn â'r wybodaeth yr hoffech ei chael, drwy gysylltu â ni ar datblygu@aber.ac.uk neu 01970 621568.

"Mae'n anrhydedd mawr derbyn eich cefnogaeth a'ch haelioni. Byddwn yn sicrhau y bydd pob rhodd, beth bynnag fo'r swm, yn cyrraedd y man iawn neu'n bodloni'r angen mwyaf ac yn cael yr effaith ehangaf bosib. Diolch i chi gan bawb ym Mhrifysgol Aberystwyth. Rhestrir ein rhoddwyr isod mewn gwahanol gategorïau yn sgil adborth gan ein cyn-fyfyrwyr a'n cefnogwyr."



**Louise Jagger, Cyfarwyddwr,**
**Datblygu a Chysylltiadau Alumni**

## Mae Prifysgol Aberystwyth hefyd yn ddiolchgar iawn i'r canlynol a gyflwynodd roddion yn ystod y flwyddyn ac wedi rhoi dros £2,500 o fewn y 5 mlynedd diwethaf

Mr Nick Bowman (1983)
Mr David Davies (1966)
Mr Rashid Domingo
Dr Michael France (1971) & Mrs Elizabeth France (née Salem) (1971)
Mr Peter Hancock (1962)
Dr Alfred Keys (1955)
Miss Kay Powell (1969)
Mrs Ann Robertson (née Davies) (1954)
Mr Matthew Spratt (1996)
Yr Athro J D R Thomas
Miss Thesca Thomas (1951)
Mrs Trevena Vincent
Mr Andrew Wade (1979)
Mr Huw Wynne-Griffith (1966)

## Alumni Prifysgol Aberystwyth - wedi eu rhestru yn ôl degawd graddio (gradd gyntaf lle bo'n berthnasol)

### 1940-1949

Miss Teddy Curedale (1946)
Mr Ellis Davies (1944)
Mrs Brenda Farthing (née Williams) (1944)
Mr William George (1946)
Yr Athro Haydn Mason (1949)
Mrs Olwen Pearson (née Lloyd) (1946)
Mrs Joan Preston (née Owen) (1949)
Mrs Lorna Riley (née Farmer) (1946)
Mrs Mair Thomas (née Davies) (1942)

### 1950-1959

Y Farwnes Kay Andrews (1954)
Mr John Bethell (1950)
Mr David Davies (1950)
Mr Alan Davies (1959)
Miss Elaine Fisher (1956)
Mrs Sheila Goode (née Morgan) (1951)
Dr Isoline Greenhalgh (née Gee) (1955)
Yr Athro Tony Harris (1956)
Mrs Megan Hayes (née Lloyd) (1951)
Mrs Margaret James (1952)
Mrs Anna Johnes (née Rogers) (1950)
Y Cyng. Colin Legg (1958)
Miss Thea Lewis (1954)
Mr Tom Morgan (1955) & Mrs Heide Morgan
Mr Ron Newman (1953)
Dr Stuart Owen-Jones (1959)
Dr David Pugh (1954)
Mr David Rowe (1958)
Mr Alan Stuart (1955)
Mr Wynne Thomas (1958)
Mrs Ceinwen Thomas (née Jones-Roberts) (1959)
Mr Delwyn Tibbott (1955)
Dr David Walters (1959)
Mr Peter Watkin (1959)
Mr Kenneth Young (1952)* & Mrs Brenda Young (née Thomas) (1953)

### 1960-1969

Mr Graham Ashmore (1969)
Mr Tony Burley (1961)
Mr David Cockburn (1967)
Uwchgapten Howard Crump (1962) & Mrs Cynthia Crump (née Welch) (1962)
Mr Alun Davies (1961)
Dr Gwynfor Davies (1962)
Yr Athro Donald Davies (1962)
Mr Derek Davies (1965)
Mr David Davies (1965)
Mr Jonathan Davies (1966)
Mr Roy Dudley-Southern (1968)
Mr Robert Evans (1960)
Dr Claude Evans (1964)
Mr Cass Farrar (1966)
Mrs Judith Fisher (née Sherwen) (1969)
Mrs Heather Fluck (née Vincent) (1966)
Dr John Frampton (1965)
Mr Andrew Guy (1969)
Mrs Kath Hardy (née Maylott) (1966)
Mr Richard Hartnup (1969)
Mrs Orian Hopkin (née Jones) (1965)
Dr Jen Horgan (née Davies) (1964)
Mr John Howells (1969)
Miss Sue Hubbard (1965)
Mrs Jenni Hyatt (née Williams) (1962)
Mrs Ann Jones (née Davies) (1963)
Mr Richard Jones (1965)
Mr Lynton Jones (1967)
Miss Katharine Lowry (1967)
Yr Athro Vernon Morgan (1963) & Mrs Jean Morgan (née Anderson) (1964)
Mr David Morgan (1965)
Ms Mary Morgan (1967)
Ms Jennifer Nicholas (née Richards) (1969)
Mr Raymond Owen (1966)
Mrs Elizabeth Pinfold (née McWilliam) (1968)
Mr Geoff Poole (1961)
Mr Gareth Price (1961)
Dr Mike Purslove (1968)
Mrs Judith Rees (née Culliford) (1969)
Yr Athro Gwyn Rowley (1961)
Dr John Sheehy (1965)
Mrs Rhiannon Steeds (née Morgan) (1963)
Mrs Margaret Thair (née Long) (1969)
Mrs Margaret Tonkin (née Grace) (1961)
Mr Neil Townend (1962)
Mr Roger Tuppen (1966)
Dr Doug Watts (1968)
Mr Bernard Wehrle (1962)
Dr Monty White (1967)
Dr John Whittaker (1967)
Yr Athro Jack Yarwood (1961)

### 1970-1979

Mrs Elizabeth Anderson (née Russell) (1976)
Mr George Ashworth (1977) & Mrs Jennifer Ashworth (née Green) (1977)
Mr Graham Barker (1974)
Mrs Dorcas Batstone (née Williams) (1971)
Yr Arglwydd Nicholas Bourne (1973)
Dr Graham Brindley (1971)
Yr Athro Doreen Cantrell (née Linkins) (1979)
Dr Margaret Carrier (née Harris) (1975) & Mr David Carrier (1975)
Mrs Anne Chambers (née Harkness) (1978) & Mr Ian Chambers (1978)
Mrs Eleanor Coker (née Davies) (1973)
Mr Graham Colley (1974)
Dr David Cooper (1978)





"Diolch! Efallai na fyddwn ni byth yn cwrdd, ond mae eich cyfraniadau wedi gwireddu rhai o fy mreuddwydion ac, wrth weithio'n galed a chydag ychydig bach o lwc, efallai'r bennod gyntaf yn fy ngyrfa fel gwneuthurwr ffilmiau."

**BJ Braithwaite, un a dderbyniodd Fwrsariaeth Deithio Myfyrwyr (Gŵyl Ffilmiau Tribeca)**

Mrs Kathleen Crook (née Eden) (1972)
Mr Michael Daly (1976)
Mr David Davies (1972)
Mr Graham Davies (1971)
Mr Richard Davies (1979)
Mrs Janet Davies (née James) (1979)
Mrs Delyth Davies-Warman (née Davies) (1979)
Dr John Dent (1971)
Dr Maria Donkin (née Delaney) (1971)
Mr Nick Dugdale (1979)
Mr Steven Duley (1977)
Mr Brian Dutton (1970)
Ms Heather Eastes (1974)
Yr Athro Mary Edwards (1976)
Mrs Julia Ellis (née Greenshields) (1970)
Mr Alfred Evans (1975)
Mr Carey Evans (1977)
Mrs Olwen Evans (née Thomas) (1978)
Mr Martin Gash (1976)
Ms Anita Gatehouse (1978)
Mr David Girdler (1974)
Mr Ian Griffiths (1973)
Ms Wendy Griffiths (1978)
Mrs Alison Gunderson (née Hawkey) (1976)
Yr Athro John Gunn (1974)
Mr Andrew Hancock (1977)
Mr Arthur Harrison (1974)
Mr Steve Hasson (1977)
Mr Stuart Hayes (1972)
Dr Elizabeth Herbert McAvoy (née Herbert) (1977)
Mr Bob Hough (1977)
Miss Patsy Howes (1979)
Mr John Humphreys (1970)
Mr Christopher Jackson (1975)
Mr Andrew James (1973)
Dr Anthony Johnson (1974)
Miss Diana Jones (1974)
Mr David Jones (1976)
Mrs Sandra Jones (1977)
Mr Lyndon Jones (1978)
Ms Myra Kinghorn (1973)
Ms Anne Kirkham (1972)
Mr Stephen Lawrence (1978)
Mr Eric Lewis (1972)
Miss Elizabeth Little (1972)
Ms Helen Livesey-Jones (1974)
Mr Ian MacEachern (1973)
Mr Paul Marshall (1973)
Ms Susan McCormick (1979)
Mr Edward McKoy (1977)
Ms Carol Meredith (née Wood) (1979)
Mr David Metcalfe (1975)
Mrs Carol Moore (née Dinham) (1973)
Mr Howard Morgan (1971)
Mrs Ursula Myers (née Ravenor (Brown) (1971)
Dr Charles Nelson (1971)
Mr Glynn Neville (1971)
Mr Jon Parry (1974)
Mrs Lorna Paterson (née Thompson) (1974)
Ms Heather Pickford (née Preston) (1977)
Mr Nigel Powell (1975)
Mrs Kay Preston-Wilkes (née Preston) (1979)
Mrs Sian Ramsden Evans (née Ramsden) (1979)
Mr Chris Ridley (1976)
Mrs Rhian Roberts (née Evans) (1978)
Mrs Gwenda Sippings (née Hughes) (1978)
Mr Roland St Clere-Smithe (1978)
Mr Jeffrey Stanley (1977)
Mr Duncan Taylor (1977)
Mr Kevin Tribbensee (1972)
Dr Richard Tuxworth (1972)
Mrs Ann Vosper (née Bowen) (1977)
Dr Michael Walker (1971)
Ms Lesley Walker (1972)
Mr Michael Warren (1971)
Mr Paul Watkins (1978)
Mr Martin West (1975)
Mr Eilian Williams (1972)
Dr Rowland Williams (1975)
Mrs Janet Writer (née Cripps) (1971)
Ms Judith Yeadon (1977)

### 1980-1989

Mr Peter Aston (1984)
Dr Caroline Baker-Waller (née Waller) (1986)
Dr Mark Bentley (1982)
Mr Alun Beynon (1984)
Ms Enza Burgio (1988)
Mr Simon Burton (1988)
Mrs Sarah Carrington (née Brooke) (1989)
Mr Adrian Chard (1981)
Ms Judith Cole (1987)
Mrs Jane Court (née Shorten) (1984)
Mr Gareth Dart (1985)
Mrs Janet Davies (née Quinn) (1985)
Ms Anne Davies (1988)
Ms Wendy Dixon (1986)
Mrs Carole Edwards (née Heyes) (1987)
Mr Philip England (1983)
Ms Bethan Evans (1984)
Ms Claire Evans (née Davies) (1986)
Mr Derek Fenton (1984)
Mr Warwick Forster (1987)
Mr David Gallico (1989)
Dr Peter Hall (1984)
Ms Angela Hawekotte (1980)
Mr Mark Hayes (1983)
Mrs Carole Hayward (née Stanger) (1984)
Mr Philip Heathcote (1981)
Mrs Joanna Heskin (née Eales) (1984) & Mr Andrew Heskin (1984)
Mr Richard Highfield (1984)
Miss Susie Holden (1980)
Ms Catherine Hood (1988)
Mr Andrew Hood (1989)
Ms Elizabeth Hope (1984)
Dr Catrin Hughes (née Richards) (1981)
Ms Rhiannon Hughes (1989)
Mr Graham Hunt (1981)
Mr Michael Isaac (1985)
Mrs Deborah Jay (née Olden) (1981)
Mr John Jeffreys (1981)
Mr Ian Jennings (1986)
Ms Janet Kaneen (1987)
Mr Andrew Kinsey (1989)
Ms Melanie Leyshon (1984)
Mrs Elizabeth Liston-Jones (née Liston) (1982)
Yr Athro Andrew Lovett (1980)
Ms Kathryn Ludlow (1985)
Mr Stuart McAlpine (1983)
Mr Niall McElderry (1988)
Mr David Melville (1980) & Mrs Vivienne Melville (née Crawford) (1979)
Mr Ivor Mitchelmore (1980)
Mr Colvin Osborn (1988)
Mr Nigel Padbury (1984)
Mrs Louise Perkins (née Smith) (1981) & Dr Bill Perkins
Mr Jim Poole (1988)
Mr Andrew Richman (1988)
Dr Emyr Roberts (1989)
Mrs Glynis Rogers (née Coleman) (1980)
Mr Philip Siddons (1980)
Mr Duncan Soanes (1984)
Dr Alison Stacey (née Gosney) (1982)
Mr Martin Stallworthy (1984)
Mrs Helen Strickland (née Jones) (1981)
Mr Alexis Stylianides (1989)
Mr Jeremy Thomas (1982)
Mr David Thomas (1983)
Mr John Warburton (1985)
Mr Andy West (1986)
Mrs Fay Wheatcroft (née Moisey) (1987)
Mr Christopher Whelan (1989)
Mr Stephen Whittle (1981)
Mrs Yvonne Wilder (née O'Leary) (1980)
Miss Deborah Winstanley (1980)
Mr Malcolm Wood (1985)
Ms Karen Wright (née Fryer) (1982)

## 1990-1999

Mrs Catherine Ashby (née Smith) (1993)
Dr Tom Bartlett (1995)
Mr James Bellamy (1997)
Mr Simon Best (1996) & Miss Nina Cunningham (1998)
Dr Caroline Bird (née Tiver) (1994)
Mrs Cate Blackmoor (née Clarke) (1994)
Mrs Lucille Bluefield (née Carr) (1996)
Mr Kevin Broadbent (1991)
Mrs Maria Carnegi (née Bennett) (1994)
Mr Richard Carr (1990)
Dr Veryan Codd (1998)
Mr Alan Cole (1997)
Mrs Christine Coley (née Owen) (1992)
Mr Thomas Cotterell (1999)
Miss Sally Cowman (née Humphris) (1996)
Mr Andrew Craze (1998)
Mr Joe Daggett (1990)
Mr Matthew Daley (1994)
Dr Hazel Davey (1994)
Mr Hugh Davidson (1991)
Ms Rebecca Davies (1991)
Mr Timothy Davies (1993)
Mr Paul Davies (1997)
Mr Paul Dignam (1999)
Mrs Nia Ellis (née Jones) (1995)
Miss Karen Evans (1992)
Ms Suzanne Evans (1995)
Mr Ian Fegan (1994)
Mr Vincent Flanagan (1998)
Mr Stuart Ford (1999)
Ms Eleanor Forrest (1998)
Mr Andy Gibson (1998)
Mrs Claire Gilmore (née Atkinson) (1996)
Dr Isobel Gowers (1999)
Mrs Sarah Green (née Turner) (1992)
Miss Vicky Gregory (1998)
Ms Ingrid Hallas (1990)
Mrs Lynette Haslam (née Klein, Coopey) (1996)
Mr Ian Hatch (1994)
Miss Fiona Heald (1990)
Dr Andrew Hemmings (1998)
Mr Andrew Hocking (1997)
Mrs Gillian Hodkin (née Hooton) (1990)
Mr Edward Hogan (1999)
Ms Joelle Hoggan (1994)
Mrs Alwena Hughes Moakes (née Hughes) (1997) & Mr Simon Moakes (1996)
Ms Samantha Jones (1996)
Dr Anwen Jones (née Williams) (1999)
Mrs Andra Jones (née Bromage, Bloomfield) (1999)
Mr Alexander Keepin (1995)
Mr Niall King (1998)
Ms Esther Kinnersley (1993)
Miss Jodie Knight (1998)
Mr Richard Knipe (1991)
Mr James Lowes (1995)
Miss Victoria Martin (1999)
Mrs Sally Mcinnes (1999)
Mr Andrew Millar (1994)
Dr Peter Miskell (1995)
Dr Catherine Moore (1999)
Dr Rhodri Morgan (1992)

> “Mae Cronfa Caledi’r Myfyrwyr yn achubiaeth i lawer o fyfyrwyr nad oes ganddynt unman i droi pan fyddant mewn trallod mawr, ac i rai mae’n golygu’r gwahaniaeth rhwng aros ym myd addysg neu orfod gadael.”
>
> **Caryl Davies, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr**

Mr James Page (1998)
Ms Jane Peate (1990)
Ms Anne Philip (1994)
Ms Cathy Piquemal (1998)
Mr Julian Rawcliffe (1994)
Mr Jim Richards (1995)
Ms Alison Richards (née Goldie) (1997)
Mr Matthew Riley (1996)
Ms Susan Rose (1992)
Ms Hester Russell (1996)
Mr Andrew Ryman (1997)
Mr Ian Shires (1993) & Miss Cheryl Hughes
Mr Paul Smith (1994)
Mrs Kate Smith (née Allen) (1999)
Mrs Louise Suggett (née Thornhill) (1997)
Mr David Tanser (1996)
Ms Ana-Maria Toole (1990)
Mrs Ann Topping (née Pelletier) (1996)
Mr Andrew Turner (1992)
Dr Cynthia Ugochukwu (1998)
Mr Daniel Walker (1998)
Mr Dylan White (1992)
Dr Lizzie Wilberforce (1999)
Mr Frederick Wildgust (1991)
Mr Matthew Winterbourne (1993)
Mrs Rachel Wood (née Lee) (1990)
Mr Andrew Wright (1996)
Mr Jason Wyatt (1998)
Mr Mark Yates (1997)

## 2000-2009

Mr Richard Abbott (2006)
Mr Carl Allen (2006)
Ms Julie Archer (2006)
Dr Rebecca Arnold (2000)
Mr Philip Ashton (2004)
Mr Stuart Ashton (2009)
Mr Marc Baillie (2005)
Mr Stephen Barnes (2002)
Dr Jennifer Bearcock (2002)
Dr Charlotte Berry (2002)
Mr Joseph Brankin (2000)
Mr Clive Bridgman (2003)
Mrs Tracey Brooks (née Mainwaring) (2000)
Mr Paul Brunt (2001)
Miss Sarah Calderbank (2009)
Mrs Miranda Capecchi (née Hughes) (2003) & Mr Giorgio Capecchi (2016)
Mr Douglas Clarke (2008)
Mr Michael Coghlan (2007)
Mr Richard Craig (2002)
Mr Adrian Crowe (2003)
Mr Dyfrig Davies (2001)
Mr David Davies (2006)
Mr Thomas Davies (2006)
Mr Rhys Davies Thomas (2005)
Mr William Edgell (2002)
Miss Karen Edmondson (2005)
Miss Gabrielle Elliott (2006)
Miss Louise Ellis (2003)
Mrs Helen Elmore (née Park) (2009)
Miss Elizabeth Evans (2009)
Mr Andrew Fitzpatrick (2003)
Mr Heddwyn Fletcher (2009)
Mr James Formosa (2006)
Miss Liz Franks (2001)
Mr Johnathan Freeman (2004)
Miss Amanda Freeston (2009)
Mr Christopher Gardner (2002)
Mr Christopher Glynn (2005)
Miss Elin Griffiths (2004)
Mr Jonathan Haston (2009)
Mr Timothy Haynes (2000)
Miss Rachael Hedge (2007)
Miss Catherine Hockenhull (2007)
Mr Anthony Hodson (2008)
Ms Einir Hughes (2009)
Mr Andrew Hunter (2002)
Mr Owain Iorwerth (2005)
Miss Natasha Jones (2000)
Mr Dylan Jones (2005)
Mr Gavin Jones (2006)
Miss Helen Jones (2007)
Mr Jason Jones (2008)
Miss Sophia Kibirige (2001)
Mrs Tanya Kynaston (2001)
Mr Steven Lambert (2009)
Mr Gareth Lawrence (2008)
Mr Pete Le Riche (2001)
Mr Richard Leach (2004)
Mr Miguel Ledo Comesana (2008)
Mrs Victoria Linney (née Webster) (2002)
Mr Lucas Longman (2003)
Mr Richard Martin (2004)
Mr Paul Matthews (2008)
Mr Matthew Meaney (2003)



Dr Keely Mills (2003)
Mr Edward Minchinton (2007)
Mr Elliot Mitcham (2007)
Mr Gary Moore (2008)
Miss Rachel Morgan (2003)
Mr Andrew Murray (2007)
Mr Matthew Needham (2004)
Mrs Anna Needham (née Hilldrup) (2008)
Mr Richard Ormerod (2003)
Miss Elizabeth Padmore (2004)
Mr Daniel Parkes (2000)
Mr Simon Parkin (2000) & Mrs Ellen Parkin (née Thomas) (2000)
Mr Dorian Pascoe (2004)
Mr Jason Pawley (2008)
Mr Joe Paxton (2009)
Mr Christopher Peerman (2005)
Mr Brian Peters (2007)
Miss Charlotte Pitt (2008)
Miss Helen Pointon (2000)
Ms Piera Priolo (2001)
Mr Nicholas Radford (2005)
Miss Emma Raistrick (2000)
Dr Sarah Ralph (2002)
Miss Kady Reeves (2007)
Mr Buawah Samba (2008)
Dr Angharad Saunders (2002)
Mr Nicholas Scott (2009)
Miss Catherine Shaw (2000)
Mr Matthew Shobbrook (2006)
Mr Charles Simmonds (2009)
Mrs Rebecca Simpson (née Webster) (2004)
Mr Peter Sisson (2003)
Mrs Isobel Smith (née Bartlett) (2000)
Mr Graeme Smith (2009)
Mrs Penny Snelling (2009)
Mr James Spicer (2006)
Miss Rebecca Staite (2007)
Miss Kirsty Stronach (2004)
Dr Ian Synge (2002)
Mr George Tapsfield (2003)
Mr Gregory Thacker (2005)
Mr Craig Thomas (2005)
Mrs Dewiena Thompson (née Griffiths) (2002)
Mr Gregory Thornley (2003)
Ms Kathryn Todd (2001)
Mr Neil Turfrey (2000)
Miss Kate Turnbull (2005)
Mr Richard Turner (2000)
Mrs Peri Wagstaff (née Thomas) (2000)
Miss Becky Waring (2006)
Mr Matthew Warren (2005)
Mr William Watkins (2002)
Mr Christopher Watters (2006)
Mr Matteo Weindelmayer (2006)
Mr Max Westwood (2007)
Mr David Wherton (2000)
Mr Charlie Wilkinson (2009)
Mr Owain Williams (2001)
Mr Duncan Williams (2002)
Mr Benedict Wilson (2009)

## 2010-2016 (hyd at 31 Gorffennaf)

Mr Gabriel Aldam (2011)
Dr Natasha Alden (2011)
Mr Nathaniel Avital (2011)
Mr Christopher Bailey (2010)
Mr Sebastian Balcombe (2014)
Mr Matthew Bennett (2012)
Miss Rebecca Brown (2011)
Mr Michael Buchanan (2012)
Mr Eric Bunyan (2012)
Mr Timothy Casey (2010)
Mr Calum Christie (2010)
Mr Michael Collins (2011)
Miss Bethan Cooksley (2011)
Mr Owen Davies (2010)
Miss Eleanor Davies (2012)
Mr Steffan Davies (2012)
Mr James Egerton (2010)
Mr Paul Finch (2010)
Miss Lucy Haines (2010)
Mr Martin Harries (2011)
Miss Libby Holmes (2016)
Miss Kate Howlett (2010)
Mr Thomas Isherwood (2010)
Ms Rabi Isma (2011)
Ms Louise Jagger (2013)
Mr Alwyn Jones (2010)
Mr Edward Jones (2010)
Mr Gareth Jones (2011)
Mr Jasper Kenter (2010)
Miss Carys Lawrence (2010)
Ms Lisa Lawrence (née Tromanm) (2011)
Mr Matthew Lees (2011)
Miss Holly Lloyd (2011)
Dr Helen Marshall (2013)
Mr Christopher-Cameron McNaught (2015)
Mr Alun Minifey (2010)
Mr Frederick O’Dell (2010)
Mr Robert O’Hagan (2012)
Miss Emily Owen (2012)
Miss Kirsty Parish (2015)
Mr Ravi Parmar (2010)
Mr Karl Parry (2012)
Mr Chris Parry (2015) & Mr Alexander Farrin (2015)
Mr Thomas Past (2010)
Mr Ceri Perkins (2010)
Mr Ben Preston-Marriott (2012)
Mr Ashley Price (2011)
Mr Matthew Sargeant (2010)
Mr Joseph Smith (2012)
Mr Lloyd Spence (2012)
Miss Helen Swinney (2015)
Mr William Trollope (2012)
Miss Rachel Truman (2011)
Mr Andrew Twiggs (2012)
Ms Gini Wade (née Barris) (2010)
Mr Daniel Wallace (2010)
Mr Daniel Webb (2011)
Mr Marc Williams (2011)
Mr Peter Williams (2012)
Mr Oliver Wilson (2010)
Mr David Wilson (2011)
Mr Michael Wilson (2011)

** yn dynodi bod y rhoddwr bellach yn ymadawedig.*


### Ffrindiau, rhieni a staff Prifysgol Aberystwyth

Mrs Janet Hardy
Dr Jenny Mathers
Yr Athro April McMahon
Mrs Barbara Smith
Dr Richard White
Dr Ana Winters (née Gallagher)
Miss Catherine Bean
Mrs Susan Chambers
Dr Richard Davies
Dr Eva De Visscher
Dr Hannah Dee
Dr Patrick Finney
Dr Nicholas Groves
Ms Gwerfyl Pierce Jones
Mrs Zoe Laidlaw (née McLean)
Dr Henry Lamb
Miss Collette Langley
Mr Geraint Lewis
Syr David Lloyd Jones
Mr Phil Maddison
Mrs Julie McKeown
Mr Sion Meredith
Dr Iwan Morus
Mr John Owen
Yr Athro Nick Perdikis
Mrs Julie Roberts
Mr David Salisbury
Miss Jackie Sayce
Mr David Townsend
Mrs Alison Toy
Mrs Dilys Williams

### Ymddiriedolaethau a sefydliadau sydd wedi gwneud rhoddion i achosion penodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

*Aber Balch*
*Y Gronfa Loteri Fawr*
*Sefydliad Jane Hodge*
*Ymddiriedolaeth Elusennol Addysgol Joy Welch*
*Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (Cangen Caerdydd)*
*Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr (Cangen y Gogledd Orllewin)*
*Sefydliad Pears*
*Pitney Bowes*
*Y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol*
*Ymddiriedolaeth Goffa Stapledon*
*Tenovus, Eich Elusen Canser*
*Ymddiriedolaeth Leverhulme*
*Ymddiriedolaeth Wellcome*
*Grŵp Willis*

# Graddio a Chymrodyr 2016



*Mae wythnos y graddio'n benllanw bendigedig i'r flwyddyn academaidd, pan fydd Aber yn dathlu llwyddiannau ei myfyrwyr gyda'u teuluoedd, eu cyfeillion a'r staff sydd wedi eu cynorthwyo i gyrraedd y nod addysgol yn Aber. Mae'n adeg hefyd pan fydd y Brifysgol yn dathlu ac yn anrhydeddu'r rhai sydd wedi gwneud cyfraniad eithriadol i'r sefydliad, neu i fywyd proffesiynol a chyhoeddus yng Nghymru drwy ddyfarnu iddynt Gymrodoriaethau, Doethuriaethau neu raddau Baglor er anrhydedd.*

## Cymrodyr

*Dyma'r rhai a anrhydeddwyd gan Brifysgol Aberystwyth ym mis Gorffennaf 2016:*

### Charmian Gooch



Charmian Gooch, un o gyn-fyfyrwyr Aber, yw cyd-sylfaenydd a chyfarwyddwr Global Witness, sefydliad di-elw sy'n ymgyrchu i roi terfyn ar gamweddau yn erbyn hawliau dynol a'r amgylchedd. Arweiniodd yr ymgyrch yn erbyn diemwntau gwaed at enwebu Global Witness am Wobr Heddwch Nobel yn 2003. Enillodd Charmian wobr flynyddol TED yn 2014, a chyda'i chyd-sylfaenwyr, mae wedi derbyn sawl gwobr ryngwladol. Yn 2014 roedd ei henw ar restr Bloomberg Markets o'r 50 Mwyaf eu Dylanwad.

### Ruth Lambert MBE



Cafodd Ruth Lambert ei geni a'i magu ym Machynlleth. Ar ôl ennill gradd hanes yn Llundain, defnyddiodd Ruth etifeddiaeth deuluol i deithio'r byd cyn priodi Swyddog yn y Llynges ym 1954. Bu'n Ustus Heddwch yn Llundain Fewnol, ac yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth y Tabernacl Machynlleth ddwywaith. Hi hefyd oedd trefnydd Gŵyl Machynlleth a rhaglen MOMA Machynlleth am bron i ddeng mlynedd ar hugain.

### Dr Catherine Bishop



Mae Dr Catherine Bishop yn rhwyfwraig Olympaidd driphlyg, yn ddiplomydd gwrthdaro rhyngwladol ac yn siaradwr ac yn hwylusydd profiadol, ac enillodd radd MPhil mewn gwleidyddiaeth ryngwladol yn Aber. Treuliodd dros ddegawd hefyd yn ddiplomydd Prydeinig, yn arbenigo mewn gwrthdaro, a gwasanaethodd am gyfnodau yn Bosnia ac yn Irac. Mae dawn ganddi i ysbrydoli wrth siarad a darlithio ar faterion busnes, gan ganolbwyntio ar her rhoi perfformiad eithriadol o dan amodau anodd.

### Syr Evan Paul Silk KCB



Yn frodor o Grughywel, aeth Paul Silk i Brifysgolion Rhydychen a Princeton yn yr Unol Daleithiau a'r Brifysgol Agored. Treuliodd y rhan fwyaf o'i yrfa broffesiynol yn Glerc yn Nhŷ'r Cyffredin ac yn Glerc i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O 2011 tan 2014 ef oedd cadeirydd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru. Mae wedi ysgrifennu a darlithio'n helaeth ar y Senedd a'r cyfansoddiad, a chafodd ei urddo'n farchog am ei wasanaethau i seneddau ac i ddatganoli.

### Natasha Devon MBE



Mae Natasha Devon MBE yn awdur, yn ymgyrchydd ac yn sylwebydd teledu. Hi yw sylfaenydd y Self Esteem Team a'r Body Gossip Education Programme, sy'n gweithio mewn ysgolion i gynorthwyo pobl ifanc yn eu harddegau, eu rhieni a'u hathrawon gyda materion yn ymwneud ag iechyd meddwl a delwedd y corff. Yn 2015, penodwyd Natasha yn Hyrwyddwr Iechyd Meddwl mewn Ysgolion i'r llywodraeth. Yn 2016 cafodd ei henwi gan y *Sunday Times* a *Debretts* yn un o'r 20 unigolyn mwyaf eu dylanwad ym myd addysg ym Mhrydain.

### Dr Mitch Robinson



Yn wreiddiol o Mississippi, graddiodd Mitch Robinson â gradd Meistr yn y Gyfraith (LLM) yn Adran y Gyfraith a Throseddeg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2005. Mae bellach yn arbenigwr ar gyfraith ryngwladol i Adran Amddiffyn yr Unol Daleithiau, ac yn ddiweddar bu'n gweithio ar achosion hawliau dynol yng nghanolfan gadw Bae Guantánamo, Ciwba, o safbwynt hawliau'r drefn briodol ac adsefydlu'r rhai a gafodd eu harteithio.

### A J S Williams MBE



Llun: RSC

Bu'r diweddar Bill Williams (1920-2016) yn beilot gyda'r RAF ac yn hyfforddwr hedfan cyn ymuno â staff Aber ar ôl graddio ag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn cemeg. Yn 2014 enwyd Bill yn un o 175 o Wynebau Cemeg y Gymdeithas Gemeg Frenhinol, i gydnabod ei gyfres o ddarlithoedd i blant. Derbyniodd hefyd Wobr Ddarlith Michael Faraday, Medal Efydd B D Shaw a Medal Arian y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

### Andrew Guy MBE



Andrew Guy yw Cadeirydd y Coaching Inn Group, ac mae ganddo ddeugain mlynedd o brofiad yn sector ciniawa anffurfiol y diwydiant croeso, yn gweithio ym Mhrydain, Ewrop a'r Unol Daleithiau. Mae'n Ymddiriedolwr i ddwy brif elusen y diwydiant croeso, Hospitality Action a Springboard, a derbyniodd MBE yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2015. Cyflwynwyd ei Gymrodoriaeth iddo mewn digwyddiad i ddathlu Sylfaenwyr y Brifysgol ym mis Tachwedd 2016, gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y seremonïau graddio ym mis Gorffennaf.

### Yr Athro Julian Dowdeswell



Yr Athro Julian Dowdeswell yw Cyfarwyddwr Sefydliad Scott i Ymchwil y Pegynau, mae'n Athro Daearyddiaeth Ffisegol ym Mhrifysgol Caergrawnt ac yn Gymrawd Brian Buckley yng Ngwyddor y Pegynau yng Ngholeg yr Iesu, Caergrawnt. Mae wedi dysgu ym mhrifysgolion Aberystwyth, Bryste a Chaergrawnt, ac wedi sefydlu canolfannau ymchwil rhewlifeg yn Aberystwyth ac ym Mryste. Mae Julian wedi derbyn nifer o wobrau gan gynnwys Medal y Pegynau, Medal Aur y Sylfaenydd a Gwobr Goffa Gill gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, ac yn 2014 enillodd Fedal y Pwyllgor Gwyddor Arctig Rhyngwladol.



## Doethuriaeth Er Anrhydedd

### Yr Athro Ken Walters FRS



Mae Ken Walters yn Athro Ymchwil uchel ei fri ym Mhrifysgol Aberystwyth, ac enillodd ei radd MSc a PhD ym Mhrifysgol Abertawe. Maes ei ymchwil yw mecaneg hylifol a rheoleg, ac mae'n un o sylfaenwyr-gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol. Yn ogystal â'i anrhydeddau rhyngwladol, yn 2010 daeth yn aelod o Gyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Cymru, ac yn 2014 cafodd ei ethol yn aelod o'r Academi Beirianneg Ryngwladol.

## Gradd Baglor Er Anrhydedd yn y Gwyddorau

### Stefan Osgood



Daeth Stefan James Osgood (1994-2016), a oedd yn wreiddiol o Wallasey, i astudio mathemateg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2012. Bu'n weithgar mewn sawl agwedd ar fywyd y myfyrwyr yn Aberystwyth; ef oedd capten Tîm Cleddyfa'r Dynion ac Is-Lywydd AberSnow (campau eira). Ym mis Ebrill 2016, ef oedd y myfyriwr cyntaf i ennill Lliwiau'r Brifysgol (Chwaraeon), Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn ac Aelodaeth Oes Anrhydeddus o Undeb y Myfyrwyr ar ôl ei farwolaeth. Cododd cyd-aelodau tîm Stefan dros £10,000 i elusennau, gan gynnwys i Mind Aberystwyth, er cof am Stefan.

## Graddau Baglor Er Anrhydedd yn y Celfyddydau

### Karina Shaw




Pennaeth Cynorthwyol yn Ysgol Penglais, Aberystwyth yw Karina Shaw. Mae ganddi gysylltiad hir ag Ysgol Penglais a hithau wedi bod yn ddisgybl yno ac yna'n athrawes yno ers 16 mlynedd. Mae'n frwd iawn dros gynhwysiant cymdeithasol a chadw hanes lleol a threftadaeth leol yn fyw er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n un o Ymddiriedolwyr Fforwm Cymunedol Penparcau a hi yw Cadeirydd Grŵp Hanes a Threftadaeth Penparcau ac mae'n ymwneud ag amryw helaeth o brosiectau cymunedol.

### Aled Haydn Jones



Cafodd Aled Haydn Jones ei eni a'i fagu yn Aberystwyth. Dechreuodd ei yrfa yn y cyfryngau gyda Radio Bronglais FM a Radio Ceredigion, ac yna yn Radio 1 ef oedd cynhyrchydd y *Breakfast Show* gyda Chris Moyles (gan ddarlledu'r sioe yn fyw o Aberystwyth ar sawl achlysur). Aled hefyd oedd cyflwynydd *The Surgery* am chwe mlynedd, yn rhoi cyngor yn fyw ar yr awyr i bobl ifanc fregus yn eu harddegau. Mae Aled yn awr yn rheoli sioeau penwythnos Radio 1 a bu hefyd yn gyflwynydd ar S4C, gan gynnwys ar ei raglen ei hun, *Llond Ceg*.

# Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr



*Gwisgo siaced Aber am yr Aduniad 2015.* Credyd Jeff Griffiths

## Neges y Llywydd



Mae gennym ddau ddigwyddiad o bwys i dynnu sylw atynt yn y rhifyn hwn. Mae'r cyntaf yn dathlu 25 mlynedd ers sefydlu PROM. Mae'r ail yn edrych ymlaen at 125$^{ain}$ pen-blwydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr.


Dechreuwyd cynllunio ar gyfer cylchgrawn newydd i gyn-fyfyrwyr yn 1990, ac rwy'n cofio siarad gyda'r Athro Derec Llwyd Morgan (yr Is-Brifathro bryd hynny a ddaeth wedyn yn Is-Ganghellor) am y prosiect yn ei swyddfa yn yr Hen Goleg. Gofynnais iddo a allai feddwl am deitl ar gyfer y cyhoeddiad newydd, ac atebodd, bron ar unwaith, PROM – a dyna ddechrau felly ar gyfnod newydd yng nghyfathrebu'r Brifysgol â'i chyn-fyfyrwyr, yn gymar perffaith i'r berthynas hirbarhaol a sefydlwyd drwy Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr.

Sefydlwyd Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth ar 2 Mawrth 1892 drwy ymdrechion, ymhlith eraill, Thomas Ellis AS. Amcanion y Gymdeithas oedd galluogi cyn-fyfyrwyr i adnewyddu cyfeillgarwch dyddiau Coleg, codi arian ar ran y Coleg ac ymestyn diddordebau addysgiadol y Coleg a Chymru. Mae'r holl amcanion hyn yr un mor berthnasol heddiw ag yr oeddent bryd hynny, a cheir nifer o enghreifftiau disglair o gyflawni'r amcanion hynny. Cynrychiolwyd ei haelodau ar draws y byd trwy nifer o ganghennau yn y DU a thramor – erbyn 1919, roedd gan y Gymdeithas egin-ganghennau yn India, Burma a Ceylon. Yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif, sefydlwyd canghennau yn Hong Kong, Siapan a Maleisia. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd i ddatblygu grwpiau yn Washington DC ac Efrog Newydd. Ar ben hynny, ers iddi gael ei sefydlu mae Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth wedi trefnu digwyddiadau a chynulliadau, yn cynnwys aduniad blynyddol, a'r cyfan wedi ei seilio ar y ffenomen gymdeithasol a diwylliannol a elwir yn 'Ysbryd Aber'. Mae'r gefnogaeth i'r Brifysgol wedi ffynnu yn ogystal ac yn cynnwys prynu a chymunroddi'r Ystafelloedd Cynnull; cyfraniad sylweddol i Gynllun Datblygu Penglais; arian ar gyfer codi pwll nofio'r campws a labordai iaith, a llond gwlad o ysgoloriaethau i fyfyrwyr.

Mae'r 125$^{ain}$ pen-blwydd, felly, yn achlysur i Gymdeithas Cyn-fyfyrwyr Aberystwyth edrych yn ôl â balchder. Fodd bynnag, mae hefyd yn gyfle i fod yn greadigol ac yn frwdfrydig wrth edrych ymlaen, fel sy'n cael ei adlewyrchu yn y cynlluniau cyffrous i ymestyn Aelodaeth Gyswllt o'r Gymdeithas i'r holl gyn-fyfyrwyr! Mae'r fenter hon yn cael ei hamlinellu'n fanwl isod, a hyderaf y byddwch yn ymuno â ni i sicrhau y bydd y 125 mlynedd nesaf yr un mor gynhyrchiol a chefnogol i Aber â'r 125 mlynedd a fu.

**Steve Lawrence**

> "Yr edau euraid o'r cyfarfod cyntaf yn 1892 hyd heddiw yw cyfeillach a gwasanaeth."


Meeting of Old Students of the University College of Wales held at the University College Aberystwyth on Wednesday the 2nd March 1892.
Present:- Mr T. E. Ellis M.P., Principal Roberts, Councillors D C Roberts and T W Powell, Messrs John Evans Solr, Dr Samuel MA, the Revd Lewis Williams, M J Morgan

*Cofnodion cyfarfod cyntaf y Gymdeithas, 2 Mawrth 1892*







*T F Roberts, Prifathro 1891-1919*

Ers ei dechread, mae aelodau Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr wedi codi symiau sylweddol o arian, wedi gwaddoli a chymunroddi cyllid ac wedi codi'u lleisiau yn San Steffan ac mewn mannau eraill i gefnogi Aberystwyth ac addysg uwch yng Nghymru. Yn anochel bu rhai rhwystrau a phroblemau, ond mae'r Gymdeithas wedi goroesi cyfnodau o helbul economaidd a chymdeithasol anferth yn cynnwys dau Ryfel Byd. Heddiw, cystadleuaeth mewn addysg uwch, cyfathrebiadau electronig a'r angen i barhau'n berthnasol i gyn-fyfyrwyr ac i'r Brifysgol yw'r prif heriau newydd.

Fel y crybwyllwyd yng ngeiriau'r Llywydd uchod, sefydlwyd y Gymdeithas yn ffurfiol ar 2 Mawrth 1892 gyda'r syniad o greu "Cymdeithas o Gyn-fyfyrwyr i'r diben o roi cymorth i'r Coleg, sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy argyfwng lle y dylai ei gyfeillion weithio gyda'i gilydd i'w hyrwyddo." Fel y dywedodd Emrys Wynn Jones yn ei gyfrol ardderchog ar hanes y Gymdeithas, "Yr edau euraid o'r cyfarfod cyntaf yn 1892 hyd heddiw yw cyfeillach a gwasanaeth." Ysgrifennwyd yr hanes gan Emrys ar gyfer canmlwyddiant y Gymdeithas ym 1992, ac mae'r egwyddorion hyn yn parhau wrth galon cyfansoddiad y Gymdeithas hyd heddiw.

Mae'r berthynas rhwng y Gymdeithas a'r Brifysgol wedi ei hail-ddiffinio drwy'r blynyddoedd, a'r gydnabyddiaeth ffurfiol gynharaf yn digwydd yn 1903, pan ganiatwyd i'r Gymdeithas 3 chynrychiolydd ar y Llys ac un ar y Cyngor. Yn ddiweddarach, yn 1985, cydnabuwyd y Gymdeithas yn Ordinhad 30 y Siarter Atodol fel y gymdeithas swyddogol ar gyfer cyn-fyfyrwyr. Fodd bynnag, ar ôl canrif a chwarter o fodolaeth barhaus, mae'n bryd adolygu cyfansoddiad y Gymdeithas ac felly mae'r Pwyllgor yn argymell ein bod yn:

***Ailddatgan y diben deublyg o gyfeillach a gwasanaeth:***

- Cefnogi'r Brifysgol drwy arfer yr awdurdod sy'n deillio o hanes maith a llwyddiannus
- Darparu llais annibynnol i gyn-fyfyrwyr y Brifysgol
- Annog a hyrwyddo aduniadau a grwpiau rhyngwladol
- Darparu fforwm i amlygu cyraeddiadau cyn-fyfyrwyr, yn rhai diweddar a hanesyddol
- Creu sianel gyfathrebu ychwanegol ar gyfer llwyddiannau, syniadau a phrosiectau'r Brifysgol

***Ailwampio aelodaeth o'r Gymdeithas.***

Ar hyn o bryd mae unrhyw gyn-fyfyriwr neu aelod o'r staff yn gymwys i ddod yn aelod o'r Gymdeithas am dâl aelodaeth oes bychan. Mae hyn wedi cyfyngu ar faint yr aelodaeth – 9,478 yn 2016 – ac o ganlyniad wedi cyfyngu'r gynrychiolaeth y mae'r Gymdeithas wedi gallu ei darparu fel y corff penodedig ar gyfer cyn-fyfyrwyr. Y cynnig felly yw dod yn fwy cynhwysol drwy roi **aelodaeth** yn awtomatig i bob cyn-fyfyriwr a staff Prifysgol Aberystwyth. Bydd gan bob aelod yr hawl i ddod i'r Aduniad a digwyddiadau eraill; i dderbyn cyfathrebiadau; i gael mynediad i *The Annual* y Gymdeithas ar lein ar osaannual.wordpress.com ac ymuno â grwpiau lleol y Gymdeithas yn eu hardal.

Bydd **Aelodaeth lawn** drwy dalu tanysgrifiad aelodaeth oes yn rhoi manteision ychwanegol o bleidlais yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar gyfer Swyddogion y Pwyllgor Cyffredinol, a'r hawl i sefyll neu i enwebu rhywun i sefyll am le ar y Pwyllgor.

Bydd y newidiadau hyn yn rhoi'r Gymdeithas mewn sefyllfa i fod yn fwy abl i fwrw ymlaen â'i hanes anrhydeddus o sianelu ffyddlondeb ac anwyldeb ei chyn-fyfyrwyr er lles y Brifysgol trwy 'edau euraid cyfeillach a gwasanaeth'.

Os hoffech ymuno â Chymdeithas y Cyn-fyfyrwyr neu ddod i unrhyw un o'n digwyddiadau, cysylltwch â 01970 621568, datblygu@aber.ac.uk neu osaadmin@aber.ac.uk i gael rhagor o wybodaeth neu ewch i www.aber.ac.uk/cy/development/alumni/osa/joinosa i gael ffurflen gais Aelodaeth Oes.

## Uchafbwyntiau'r Gymdeithas 2017

Cynhelir yr **Aduniad Blynyddol** ddydd Gwener 18 Awst tan ddydd Sul 20 Awst 2017 a'r **Cinio Blynyddol** ddydd Sadwrn 19 Awst 2017.

**25$^{ain}$ Darlith Llanymddyfri** ar 3 Mehefin 2017 yng Ngholeg Llanymddyfri, siaradwr **Y Farwnes Kay Andrews.**

**Eisteddfod Genedlaethol, Môn** – cynrychiolir y Gymdeithas gan aelodau lleol yn ystod wythnos yr Eisteddfod yn ogystal ag aduniad y cyn-fyfyrwyr ar y Maes.

Bydd derbyniad **Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru** yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 25 Gorffennaf 2017.

### Yr *Annual*

Yr *Annual* oedd cylchgrawn y Gymdeithas am flynyddoedd ac roedd yn cael ei argraffu a'i ddosbarthu i aelodau drwy'r byd i gyd. Heddiw cyhoeddiad ar-lein yw'r *Annual* sydd i'w gael ar https://osaannual.wordpress.com/ ac yn cynnwys newyddion a gwybodaeth am ganghenau a digwyddiadau, ac yn dathlu cyraeddiadau aelodau'r Gymdeithas. Cliciwch ar *Follow* yng nghornel dde isaf sgrin yr *Annual* i gael diweddariadau rheolaidd. Rydyn ni bob amser yn ddiolchgar am eich adborth.

### Prosiect Cangen Caerdydd i Ddigideiddio Cofrestri Cynnar




*Aelodau Cangen Caerdydd yn mynd yn ôl i'r ysgol*

Yn ogystal ag ariannu bwrsariaeth i fyfyriwr am lawer blwyddyn, mae aelodau Cangen Caerdydd yn ddiweddar wedi cefnogi prosiect i ariannu cydweithio rhwng adran archifau'r Brifysgol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i ddigideiddio cyfrolau rhwymedig cyntaf cofrestri myfyrwyr, a nawr maent yn trawsgrifio'r rhain i greu archif chwiladwy werthfawr a hynod ddiddorol. Dengys y ffotograff aelodau yn y sesiwn hyfforddi trawsgrifio gyntaf, yn edrych ar y cofnod ar gyfer y myfyriwr cyntaf un yn Aberystwyth. Os hoffech chi wirfoddoli, cysylltwch ar bob cyfrif!

# Gwobrau, Penodiadau, Cyflawniadau

## I Brifysgol Aberystwyth




Am yr ail flwyddyn yn olynol, mae **Sandy Spence** a'i gydweithwyr yn yr Adran Gyfrifiadureg wedi ennill gwobr Pobl **Cystadleuaeth Ffotograffiaeth Wyddonol yr EPSRC** am ddelwedd o robot dynolffurf sy'n dysgu am sut i chwarae oddi wrth blentyn ifanc.

Roedd Aber ar y rhestr fer am dair gwobr yng **Ngwobrau Partneriaethau Busnes ac Addysg** 2015 a gafodd eu cynnal yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2015.

Enillodd Campws Penglais **Wobr y Faner Werdd** am yr ail flwyddyn yn olynol ac enillodd Campws Llanbadarn y wobr am y tro cyntaf. Cyflwynir y gwobrau gan Cadwch Brydain yn Daclus, ac fe'u dyfernir ar sail meini prawf megis cynaliadwyedd, cadwraeth, treftadaeth a chyfranogiad y gymuned.

Mae ansawdd ein cyfleoedd dysgu i fyfyrwyr a'n safonau academaidd yn Aber wedi'u cadarnhau gan yr **Asiantaeth Sicrhau Ansawdd**, sydd hefyd yn nodi fel enghraifft o arfer da drefniadau'r Brifysgol ar gyfer rhag-gofrestru myfyrwyr a'r gefnogaeth bersonol ar eu cyfer.



Mae **Clwb Roboteg Aberystwyth** a'u llysgenhadon gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg wedi ennill gwobr genedlaethol am eu gwaith gyda myfyrwyr o ddwy ysgol leol.

Dyfarnodd y Sefydliad Ffiseg statws **Ymarferydd Juno** i'r Adran Ffiseg, yr ail Brifysgol yn unig yng Nghymru i dderbyn yr anrhydedd mawr hwn am gymryd camau i fynd i'r afael â'r ffaith fod menywod yn cael eu tangynrychioli ym maes ffiseg mewn prifysgolion ac i annog gwell ymarfer ar gyfer dynion a menywod.

Bu Aber yn dathlu trydedd flwyddyn lwyddiannus y cynllun **Effaith Werdd** sy'n cael ei redeg gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Bu tri thîm ar ddeg o wahanol adrannau yn cymryd rhan; dyfarnwyd y Safon Aur i bum tîm, y Safon Arian i chwe thîm arall, a'r Safon Efydd i ddau dîm.

Cyrhaeddodd y tîm Datblygu a Chysylltiadau Alumni yn Aber y rhestr fer ar gyfer **Gwobr Arweinyddiaeth a Rheolaeth y *Times Higher Education*** (THELMA), sy'n dathlu'r enghreifftiau gorau o arloesed, gwaith tîm a menter yn addysg uwch.

## Penodiadau

### Uwch Benodiadau



**Yr Athro John Grattan** – Is-Ganghellor Dros Dro



**Yr Athro Judy Broady-Preston** – Cyfarwyddwr yr Athrofa Datblygiad Proffesiynol



**Yr Athro Jo Crotty** – Cyfarwyddwr Athrofa Busnes a'r Gyfraith



**Yr Athro Tim Woods** – Cyfarwyddwr yr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol ac Addysg



**Julie McKeown** – Cyfarwyddwr Marchnata

### Penaethiaid Adrannau



**Yr Athro Richard Beardsworth** – Gwleidyddiaeth Ryngwladol

### Cadeiriau Personol



**Yr Athro Mike Wilkinson** – Cadair Agroecosystemau'r Ucheldiroedd



**Yr Athro Huw Jones** – Cadair Genomeg Drawswladol ar gyfer Bridio Planhigion

## Myfyrwyr a Staff



Dyfarnwyd Medal anrhydeddus y Pegynau i'r Athro **Bryn Hubbard**, Cyfarwyddwr y Ganolfan Rewlifeg yn yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.



Cafodd yr Athro **Phillipp Schofield**, Athro Hanes yr Oesoedd Canol ym Mhrifysgol Aberystwyth, ei ethol yn Gymrawd Academi'r Gwyddorau Cymdeithasol.




Cafodd rhewlif yn Antarctica ei enwi yn Rhewlif Glasser, ar ôl y rhewlifegydd, yr Athro **Neil Glasser**, o'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Neil yw Cyfarwyddwr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg y Brifysgol yn ogystal.



Mae asteroid wedi ei enwi ar ôl y darlithydd Ffiseg Dr **Tony Cook**. Cafodd yr asteroid a adwaenid gynt fel '2003 JO13' ei ailenwi'n 'Tonycook' i gydnabod gwaith Dr Tony Cook ym maes seryddiaeth amatur a mapio topograffeg planedau.



Enillodd **Cennydd Jones**, myfyriwr yn IBERS, yr ail wobr yng nghystadleuaeth fawreddog Cymdeithas Frenhinol Ffermwyr Godro Prydain ar gyfer Myfyriwr Llaeth Iechyd Anifeiliaid MSD y Flwyddyn 2016.



Cynhaliwyd *Symposiwm Ffiniau Gwyddor Deunyddiau Di-drefn* yn Llundain i nodi pen-blwydd yr Athro **Neville Greaves** o'r Adran Ffiseg yn 70 oed. Bu academyddion o safon fyd-eang yn dathlu cyfraniad yr Athro Greaves i fesur a rhagweld priodweddau deunyddiau ar y lefel atomig.




Enillodd **Owen Daniel Howells**, myfyriwr yn yr Adran Ddaearyddiaeth, ei gap cyntaf yn chwarae dros Gymru ym Mai 2016. Chwaraeodd Owen, sy'n gapten ar dîm cyntaf Rygbi Undeb y Brifysgol, i Fyfyrwyr Cymru yn eu gêm lwyddiannus yn erbyn Myfyrwyr Ffrainc.




Cyrhaeddodd un o fyfyrwyr Cyfrifiadureg, **Mazhar Shar**, restr fer derfynol gwobrau Targetjobs ar gyfer Myfyriwr Israddedig y Flwyddyn ym maes Cyfrifiadureg a Dadansoddeg, sef gwobrau sy'n dathlu israddedigion disgleiriaf y DU.


Cafodd pedwar aelod a chyn aelod staff, ac un alumna, o Brifysgol Aberystwyth eu hethol yn Gymrodyr gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru:











Yr Athro **John Doonan**, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Genedlaethol yn IBERS; yr Athro **Sarah Prescott**, Cadair Rendel mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg; Athro Emeritws **Michael Hambrey**, Athro Rhewlifeg a'r Athro **Len Scott**, Athro Emeritws Hanes Rhyngwladol ac Astudiaethau Cudd-wybodaeth. Anrhydeddwyd hefyd yr arlunydd **Mary Lloyd Jones**, Cymrawd Prifysgol Aberystwyth a chefnogwraig frwd i gynlluniau'r Brifysgol i ailddatblygu'r Hen Goleg, lle mae ganddi stiwdio.



Dyfarnwyd MBE i **Dr Rhian Hayward**, Rheolwr Datblygu Busnes yn yr Adran Ymchwil, Busnes ac Arloesi yn Aber, yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines 2016 am ei gwasanaeth i entrepreneuriaeth yng Nghymru.



Derbyniodd **Ned Thomas**, cyn-ddarlithydd yn yr Adran Saesneg a chyn-gyfarwyddwr Sefydliad Mercator, Gymrodoriaeth er Anrhydedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gydnabod ei gyfraniad eithriadol tuag at addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg.



Enillodd **Sarah Wydall** o Adran y Gyfraith a Throseddeg un o Wobrau Coffa cyntaf Audrey Jones am Ysgolheictod Ffeministaidd am ei gwaith ar y prosiect *Dewis* sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder a cham-drin pobl hŷn (prosiect y soniwyd amdano yn y rhifyn diwethaf o PROM).



Dyfarnwyd Gwobr Cynghorydd Arian Myfyrwyr y Flwyddyn 2016 (y DU) i **Eri Mountbatten**, Cynghorydd Myfyrwyr o Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, gan NASMA.



Am y drydedd flwyddyn yn olynol, ymddangosodd Dr **Hannah Dee** o'r Adran Gyfrifiadureg ar restr *Computer Weekly* o'r 50 menyw fwyaf dylanwadol ym maes cyfrifiadureg yn y DU; mae yn y nawfed safle a hi yw'r academydd uchaf o ran ei safle ar y rhestr.



Mae **Gary Reed**, Cyfarwyddwr Ymchwil, Busnes ac Arloesi, wedi cael ei secondio am ddwy flynedd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol, Aelodaeth (Cymru) gyda Sefydliad Arweinyddiaeth Addysg Uwch.

## Alumni:

Mae'r arlunydd **Rob Pointon** (Celf 2004) wedi ennill Gwobr Haworth (£4,000) am ei baentiad *Piccadilly Falls* sy'n edrych lawr ar risiau symudol prysur yng ngorsaf drenau Piccadilly Manceinion.

Enillodd **Mari Ellis Dunning** (MA Ysgrifennu Creadigol 2015) Wobr Awduron Ifainc Terry Hetherington 2016, gan hawlio'r wobr o £1,000 ar gyfer *Cartref*, stori fer a ysbrydolwyd gan ei chyfnod fel myfyriwr yn Aberystwyth.

Enillodd **Hanna Thomas** (Gradd Sylfaen mewn Amaethyddiaeth) ysgoloriaeth Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru/ Waitrose 2016 i fyfyrwyr sylfaen sy'n bwriadu mynd ymlaen i astudio ar gyfer BSc.



Mae **Dr Hannah Bailey**, (Daearyddiaeth 2009), wedi derbyn Gwobr Fulbright Lloyds of London i astudio newidiadau i rewlifau Alasga. Bydd yn astudio ym Mhrifysgol Alaska Anchorage, a hefyd yn treulio amser yng Ngholeg Dartmouth, Hampshire Newydd.

Cyrhaeddodd paentiad gan yr arlunydd **Stefan Orlowski** (Celf 2007) y rhestr fer ar gyfer Gwobr Lynn Painter-Stainers, un o gystadlaethau uchaf ei pharch y DU ar gyfer paentio cynrychioladol.

Derbyniodd **John Thornhill YH** (MPhil Y Gyfraith 2006) OBE yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines am ei wasanaethau i'r system cyfiawnder troseddol.

Ymddangosodd **Peter Edwards** (Busnes a Rheolaeth 2008) yn *30 under 30* Forbes: rhestr y diwydiant o'r prif arweinwyr, dyfeiswyr ac entrepreneuriaid ifainc.



Dyfarnwyd Gwobr Hydroleg Ryngwladol (Medal Volker) Cymdeithas Ryngwladol y Gwyddorau Hydrolegol, UNESCO a WMO, i'r Athro **Denis Hughes** (Daearyddiaeth, 1973, PhD 1978).



Yr Uchel Siryf sydd wedi ei enwebu ar gyfer Dinas a Sir Bryste 2018-19 yw **Roger Opie** (Economeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 1968) a fu'n gapten ar yr Harriers yn Aber. Yn dilyn gyrfa rygbi gyda Chlwb Rygbi Pêl-droed Clifton lle mae e'n Is-Lywydd, mae ef bellach yn sylwebu ar rygbi ar Radio'r BBC.

Enillodd **Maria Apichella** (PhD, Saesneg 2015) Wobr Melita Hume 2015 am y casgliad cyntaf heb ei gyhoeddi gorau yn Saesneg gan fardd 35 oed neu iau, am ei chyfrol o farddoniaeth, *Psalmody*.

Bu **Ian Bowles** (Mathemateg Bur ac Ystadegau, 1967), cyn-chwaraewr rygbi i Brifysgolion Cymru a Phrydain, yn cynrychioli Prydain ym Mhencampwriaethau Athletau Meistri'r Byd fel y taflwr disgen gorau o Brydain yn y dosbarth 70 i 74 oed.

Aeth Cymru â thri thîm i gwpan y byd Meistri Hoci yn Awstralia a chyn-fyfyrwyr o Aberystwyth oedd yn gapteiniaid ar y tri thîm. Chwaraeodd saith o'n cyn-fyfyrwyr dros Gymru: **Ian Johnson** (Amaethyddiaeth, 1975, staff) Capten Meistri Cymru (60 i 64 oed); Dr **Ben Johnson** (Daeareg, PhD, 1979) Capten Meistri Gwych Cymru (65 i 69 oed); **Glyn Thomas** (Cymraeg i Oedolion) Capten Meistri Hŷn Cymru (70+); **Gareth Hughes** (Daearyddiaeth, 1970) Rheolwr – Tîm Meistri Gwych Cymru; **Jeff Robinson** (Daearyddiaeth, PhD, 1976) Llywydd Hoci Meistri Cymru a Thîm Meistri Hŷn Cymru; Dr **Antony Wyatt** (cyn-aelod o staff) Tîm Meistri Cymru; **Richard Sanders** (Daearyddiaeth, 1974- 1977, staff) Tîm Meistri Cymru.

### Ac yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016:

Enillodd **Guto Roberts** (Ffiseg) Fedal Wyddoniaeth yr Eisteddfod Genedlaethol am ei gyfraniad gydol oes i wyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Enillodd **Glenys Roberts** (Cymraeg, 1968) Her Gyfieithu 2016.

Enillodd **Hefin Robinson** (Drama, 2009) y Fedal Ddrama, sy'n cael ei dyfarnu am ddrama lwyfan o unrhyw hyd.



Enillodd **Eurig Salisbury** (Cymraeg ac Astudiaethau Ffilm a Theledu 2009, darlithydd yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd) y Fedal Ryddiaith.

Enillwyd Gwobr Dysgwr y Flwyddyn gan **Hannah Roberts** (Cymraeg, 2005) a ddilynodd gwrs blasu'r Gymraeg wrth astudio daearyddiaeth a mwynhau'r pwnc gymaint nes iddi newid i radd yn y Gymraeg.



Cafodd **Liz Saville Roberts** AS (Astudiaethau Celtaidd, 1987) a ddysgodd Gymraeg yn ystod ei chyfnod yn Aber ac a ddaeth yn Aelod Seneddol benywaidd cyntaf Plaid Cymru, ei hurddo gan Orsedd y Beirdd.




Enillodd Dr **Peadar Ó Muircheartaigh**, darlithydd yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Wobr Johann Kaspar Zeuss gan Societas Celtologica Europaea am y traethawd PhD gorau ym maes Astudiaethau Celtaidd a gyflwynwyd i brifysgol yn Ewrop.



Yng nghynhadledd flynyddol Academia Europea, dyfarnwyd Ysgoloriaeth Burgen i Dr **Rhianedd Jewell**, darlithydd mewn Cymraeg Proffesiynol; mae'r ysgoloriaeth yn cydnabod ysgolheigion ifainc dawnus sy'n cael eu hystyried yn arweinwyr y dyfodol yn eu maes.

# Silff Lyfrau


*Dyma amlinelliadau byr o rai o'r llyfrau lu a gyhoeddwyd gan academyddion Aber dros y flwyddyn ddiwethaf.*



## US Power and the Internet in International Relations: The Irony of the Information Age

**Madeline Carr, Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Er bod y rhyngrwyd yn hollbresennol y dyddiau hyn, ac yn holl bwysig ar gyfer ystod eang o swyddogaethau'r wladwriaeth, ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd gennym o hyd o'i oblygiadau yng nghyd-destun cysylltiadau rhyngwladol. Gan gyfuno athroniaeth technoleg â damcaniaethau grym o faes cysylltiadau rhyngwladol, mae'r astudiaeth hon yn archwilio grym gwladwriaethau yn yr oes wybodaeth.



## Peasants and Historians: debating the medieval English peasantry

**Phillipp Schofield, Hanes a Hanes Cymru**


Mae *Peasants and Historians* yn astudiaeth o'r drafodaeth hanesyddol ar werin bobl Lloegr yn y canol oesoedd. Yn y gyfrol hon – yr astudiaeth gyntaf o'i bath – mae'r awdur yn dilyn hynt datblygiad ymchwil hanesyddol i archwilio natur cymdeithas werinol.



## Alien Audiences: Remembering and Evaluating a Classic Movie

**Martin Barker, Kate Egan, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu,** gyda Sarah Ralph a Tom Philips


Erbyn hyn mae ffilm Ridley Scott, *Alien*, a ryddhawyd yn 1979, yn cael ei hystyried yn glasur, ac ysgrifennwyd yn helaeth amdani. Ond sut mae cynulleidfaoedd wedi ymwneud â hi? Mae'r gyfrol hon yn cyflwyno canlyniadau prosiect ymchwil sylweddol â chynulleidfaoedd – a'r canlyniadau hynny'n peri cryn syndod ar adegau – gan archwilio sut mae pobl yn cofio ac yn parhau i ymwneud â'r ffilm.



## Thailand in the Cold War

**Matthew Philips, Hanes a Hanes Cymru**


Amwys oedd safiad Gwlad Thai yn ystod y Rhyfel Oer: roedd yn awyddus i gynnal annibyniaeth y wlad, ond eto'n awyddus i ddangos ei bod yn sefyll yn gadarn yn erbyn comiwnyddiaeth. Gan ystyried diwylliant poblogaidd, mae'r gyfrol hon yn dangos sut y bu i ideoleg y diwylliant prynu ac integreiddio â diwylliant "byd rhydd" wreiddio yno'n raddol, a hynny yn ei dro yn rhan sylfaenol o bennu ymochredd Gwlad Thai o safbwynt gwleidyddiaeth ryngwladol.



## Adorno and Modern Theatre: The Drama of the Damaged Self in Bond, Rudkin, Barker and Kane

**Karoline Gritzner, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu**


Mae'r gyfrol hon yn archwilio dramâu Edward Bond, David Rudkin, Howard Barker a Sarah Kane yng nghyd-destun gwaith yr athronydd amlwg Theodor W. Adorno (1903–1969). Mae'n trafod egwyddorion allweddol damcaniaeth esthetig a beirniadaeth ddiwylliannol Adorno ac yn archwilio eu dylanwad ar genhedlaeth o ddramodwyr arloesol wedi'r rhyfel.



## Adolescent Girlhood and Literary Culture at the Fin de Siècle: Daughters of Today

**Beth Rodgers, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**


Mae'r gyfrol hon yn archwilio'r modd y cafodd profiadau merched yn eu harddegau eu cyfleu ar draws ystod o *genres* yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n dadlau bod lle amlwg yng nghyfnod y *fin de siècle* i ddiffinio, nodweddu a chyfeirio at ferched yn eu harddegau. Fe'u gelwid yn y wasg yn 'ferched heddiw', 'merched ifanc di-briod' a 'genethod modern', a hwythau ar y ffin rhwng plentyndod a dod yn oedolion, ac ystyrid bod cysylltiad annatod rhyngddynt a moderniaeth diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



## Justinian's Balkan Wars: Campaigns, Diplomacy and Development in Illyricum, Thrace and the Northern World, A.D. 527-65

**Alexander Sarantis, Hanes a Hanes Cymru**


*Justinian's Balkan Wars* yw'r gyfrol gyntaf i adrodd hanes materion milwrol a diplomyddol yn y taleithiau Rhufeinig i'r de o afon Donwy yn ystod teyrnasiad yr Ymerawdwr Justinian.



## Cartel Criminality: The Mythology and Pathology of Business Collusion

**Christopher Harding, y Gyfraith a Throseddeg**, gyda Jennifer Edwards

Mae cartelau busnes gwrth-gystadleuaeth, sy'n ymwneud ag arferion megis gosod prisiau, rhannu'r farchnad, rigio cynigion a gosod cyfyngiadau ar allbwn, bellach yn destun ceryddu swyddogol cadarn a rheolaeth gyfreithiol lem mewn nifer fawr o awdurdodaethau ledled y byd. Mae'r gyfrol hon yn gosod agenda ymchwil ar gyfer astudio patholeg, achoseg a throseddeg cartelau busnes, ac yn ymchwilio i'w natur, eu gweithrediad, eu parhad a'u camweddau canfyddedig yn fanwl gywir.



## Equine Reproductive Physiology Breeding and Stud Management

**Mina Davies-Morel, Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**


Mae pedwerydd argraffiad y gwerslyfr poblogaidd hwn yn rhoi cyflwyniad cynhwysfawr ar sut i fridio ceffylau yn llwyddiannus. Mae'r argraffiad newydd hwn, sydd wedi'i ddiweddaru drwyddo draw, yn cwmpasu technegau megis clonio, chwistrelliadau sberm i mewn i'r sytoplasm (ICSI), ffrwythloni in vitro (IVF) a thechnolegau atgynhyrchu cysylltiedig sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.



## Stanley Anderson: Prints: A Catalogue Raisonné. Yr Academi Gelf Frenhinol, Llundain.

**Robert Meyrick a Harry Heuser, Celf**


Er iddo fyw drwy rai o newidiadau mwyaf dramatig yr ugeinfed ganrif, creodd Stanley Anderson CBE (1884–1966) ddelwedd o draddodiad gwledig Seisnig a oedd, yn ei hanfod, yn un oesol yn ei ysgythriadau a'i dorluniau pren. Daeth Anderson yn feistr ar ei grefft: cafodd ei ethol yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Peintwyr-Ysgythrwyr ac Engrafwyr yn 1923 ac roedd yn ffigwr allweddol yn adfywiad ysgythru y 1920au. Mae'r *catalogue raisonné* hwn yn casglu ynghyd, am y tro cyntaf, yr *œuvre* cyflawn o brintiadau Anderson.



## Factors influencing foot and ankle injury risk in soccer: The role of playing surface and footwear

**Daniel Low, Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff**


Er gwaethaf y llu o fanteision corfforol a chymdeithasol a geir yn sgil cymryd rhan mewn pêl-droed, mae'r risg o anafiadau yn y gamp hon yn 'sylweddol' ac ystyrir bod yr arwyneb chwarae a'r esgidiau a wisgir yn ffactorau sy'n cyfrannu at hyn. Mae'r gyfrol hon yn edrych yn benodol ar y droed a'r ffêr, gan ddisgrifio sut mae'r arwyneb chwarae a'r esgidiau a wisgir yn dylanwadu ar ewynnau'r ffêr, tendon Achilles a strwythurau metatarsol. Yna mae dadansoddiad o'r llenyddiaeth yn disgrifio'r potensial i newid y dyluniad i leihau'r risg o gael anaf yn y dyfodol.



## Key Concepts in Rural Geography

**Michael Woods, Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**, gyda Lewis Holloway a Ruth Panelli

Mae *Key Concepts in Rural Geography*, a ysgrifennwyd gan awduron a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn rhan o set arloesol o destunau cydymaith ar gyfer isddisgyblaethau Daearyddiaeth Ddynol. Mae'n rhoi cyflwyniad i'r cysyniadau canolog sy'n diffinio ymchwil gyfoes ym maes daearyddiaeth wledig.



## Dreamstreets: A Journey Through Britain's Village Utopias

**Jacqueline Yallop, Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol**

O felinau New Lanark yn yr Alban i fythynnod Celf a Chrefft Port Sunlight, mae Yallop yn ymweld â'r arbrofion iwtopaidd hyn er mwyn archwilio eu hanes cyfoethog. Gan edrych ar bopeth o systemau carthffosiaeth i gerflunio, o siocled i lo, ac o fasnach rydd i ryddfreinio etholwyr, mae'r gyfrol hon yn archwiliad personol o pam a sut y crëwyd yr iwtopiâu pentrefol hyn, beth maent yn ei ddweud wrthym am y gorffennol a sut maent yn dal yn bwysig inni heddiw.




## *Philosophies du voyage: visiter l'Angleterre au 17e-18e siècles*

(cyhoeddwyd yn Ffrangeg)

**Gábor Gelléri, Ieithoedd Modern**

Er bod llawer iawn o Ffrancwyr yn teithio i Loegr drwy gydol y 18fed ganrif, ychydig iawn a astudiwyd ar y teithiau hyn. Mae'r monograff hwn yn trafod cyfnod o 130 o flynyddoedd (1660-1789), gan ddefnyddio mwy na 70 o ffynonellau uniongyrchol i gyflwyno goblygiadau athronyddol, gwleidyddol, crefyddol, cymdeithasol a llenyddol y ffenomen hon o ran teithio. Defnyddid yr arfer teithio hynod gymhleth hwn yn systematig i "roi prawf" ar y rhan fwyaf o syniadau mawr y cyfnod.



## Violence and Civilization in the Western States-Systems

**Andrew Linklater**

Creodd *The Problem of Harm in World Politics* (Caergrawnt, 2011) gan Andrew Linklater agenda newydd i gymdeithaseg cyfundrefnau gwladwriaethol. Mae'r llyfr hwn yn datblygu ymhellach ymgais yr awdur i gyfuno archwiliadau proses-gymdeithasol o brosesau gwareiddio â dadansoddiadau'r Ysgol Seisnig o'r gymdeithas ryngwladol i lunio synthesis uwch. Mae Linklater yn defnyddio dull cymharol Martin Wight o ymdrin â chyfundrefnau gwladwriaethol a gwaith cymdeithasegol Norbert Elias i ofyn sut y daeth Ewropeaid modern i feddwl eu bod yn fwy 'gwaraidd' na'u hynafiaid canoloesol. Mae'n ymdrin â chyfuniadau newydd o drais a gwareiddiad drwy gwmpas hanesyddol eang o'r henfyd clasurol i'r byd Cristnogol Lladin a'r Eidal adeg y Dadeni i'r cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

# TEYRNGEDAU

*Gyda thristwch mawr yr ydym yn cofnodi ar y tudalennau hyn golli cyn-fyfyrwyr, myfyrwyr, Cymrodyr ac aelodau staff, sydd, neu a fu'n astudio yma, ac yr hysbyswyd ni am eu marwolaeth yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theuluoedd a chyfeillion y sawl a restrir yma.*

## CYMRODYR

### Ei Anrhydedd y Barnwr Elgan Edwards (1943 – 2016)




Roedd Elgan Edwards, a fu farw yn gynharach eleni, yn aelod hoffus ac uchel ei barch o farnwriaeth hŷn Swydd Gaer. Gobeithiai ddychwelyd yn Gofiadur Anrhydeddus Caer ar ôl brwydr hir a dewr gyda salwch, ond nid felly y bu.

Cafodd ei eni a'i fagu yn y Rhyl lle roedd gan y teulu fusnes melysion. Mae'n eithaf tebyg iddo werthu ffon india-roc i'r awdur o un o'r stondinau ar y rhodfa glan môr, neu dyna a ddyfalai flynyddoedd wedyn beth bynnag. Enillodd radd yn y gyfraith o Aberystwyth lle bu'n Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Cafodd ei alw i'r bar yn Gray's Inn a chyn bo hir iawn roedd wrthi'n adeiladu practis llwyddiannus iawn yng Nghaer. Daeth o hyd i amser i ymladd dwy sedd ar ran y Ceidwadwyr. Daeth yn farnwr rhan-amser yn 1983 ac yn Farnwr Cylchdaith yn 1989 cyn cael ei benodi'n Uwch-Farnwr Cylchdaith yn 2002. Yn y swydd honno, bu'n llywyddu dros rai o'r achosion troseddol mwyaf difrifol yng Ngogledd Cymru a Swydd Gaer, yn ogystal ag eistedd, o bryd i'w gilydd, fel aelod o'r Llys Apêl yn Llundain. Roedd yn arbennig o deg a chadarn ei farn wrth wneud hynny.

Er gwaethaf ei swyddi barnwrol uchel, roedd ei draed yn parhau yn gadarn ar y ddaear ac roedd yn ddyn dymunol iawn. Roedd yn gefnogwr brwd o glwb pêl-droed Manchester United. Roedd ganddo synnwyr digrifwch bywiog ac roedd wrth ei fodd yn adrodd straeon am ei fywyd wrth y bar ac ar y fainc, a'i lygaid yn pefrio fel arfer, a byddai ei gynulleidfa wrth ei bodd yn gwrando arno. Roedd bob amser yn barod iawn ei gyngor a'i anogaeth i fyfyrwyr yn Gray's Inn, lle daeth yn Feinciwr yn 2004, ac yn Aberystwyth, lle daeth yn Gymrawd yn 2005. Roedd yn ddyn teulu, ac roedd ef a'i wraig Carol yn arbennig o hael a diddan wrth groesawu gwesteion i'w cartref ger Caer. Daeth yn ffigwr amlwg mewn sawl agwedd ar fywyd Caer, yn cynnwys y Rasus a, rywfodd, nid yw'r lle hwnnw yr un peth hebddo.

*Milwyn Jarman*

### Mr A J S 'Bill' Williams MBE CChem FRSC (1920-2016)



Credyd: RSC

Yn sail i fywyd A J S 'Bill' Williams, a llawer o'i yrfa, oedd yr ysbrydoliaeth a gafodd gan ei athro cemeg. Arweiniodd hynny yn ei dro ato ef yn ysbrydoli nifer o ddisgyblion ysgol gyda'i ddarlithoedd ar "Lliw" a "Gwyddoniaeth ac Ynni", ac un o'r pwyntiau allweddol oedd annog y disgyblion i gymryd rhan ymarferol yn ystod y cyflwyniadau. Amcangyfrifir iddo ef a'i gydweithwyr draddodi'r darlithoedd hyn i fwy nag wyth deg mil o ddisgyblion ac i lawer o oedolion. Dyfarnwyd iddo MBE a nifer o fedalau a gwobrau mawreddog cymdeithasau gwyddonol i gydnabod y gwaith hwn.

Pan adawodd yr ysgol, aeth Bill i'r gwasanaeth sifil, ond torrodd y rhyfel ar draws hynny ac yn 1940 gwirfoddolodd Bill ar gyfer yr Awyrlu Brenhinol (RAF). Cafodd ei anfon trwy Ganada i UDA i ddysgu hedfan cyn dychwelyd i'r DU. Gwelodd ei hyfforddwyr fod ganddo ddawn naturiol fel hyfforddwr ac y byddai felly yn fwy gwerthfawr yn gwneud yr hyn a ddaethai'n naturiol iddo, sef hyfforddi eraill i hedfan. Mae ei lyfrau log yn dangos iddo hedfan 4,500 o oriau dysgu mewn awyrennau Oxford dwy-injan.

Ar ddiwedd y rhyfel, bu'n addysgu milwyr unwaith yn rhagor, ond y tro hwn i'w paratoi ar gyfer bywyd allan o'r lluoedd arfog. Ar yr un pryd roedd yn mynychu ysgol nos er mwyn ennill y cymwysterau angenrheidiol i fynd i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, lle enillodd radd dosbarth cyntaf mewn Cemeg ac ymuno â staff yr Adran Gemeg Organig. Daeth Bill o hyd i gyfle i chwarae rhan bwysig yn adran Gorllewin Cymru o'r Gymdeithas Gemeg Frenhinol. Cafodd ei gyfweld ar raglen *Café Science* BBC Radio Wales ac ar un adeg bu'n Gynghorydd Gwyddonol y Cyngor. Roedd yn gyd-awdur llawlyfr o'r enw *A Student's Handbook of Organic Qualitative Analysis*; a defnyddid unrhyw amser hamdden i ymchwilio i agweddau ar gemeg cyfansoddion cylch bach a lleihau ocsimau a gafodd eu cyhoeddi mewn cyfnodolion rhyngwladol o fri.


Mae hynny'n ein harwain at gariad arall Bill, sef canu'r piano yn glasurol. Cafodd Bill ei annog i ddysgu canu'r piano yn naw oed a pharhaodd ei frwdfrydedd tan ei nawdegau. Pwy all anghofio ei ben-blwydd yn 70 oed pan lwyddodd Bill a chyfaill agos iddo berswadio eu ffrindiau cerddorol i ffurfio cerddorfa a Bill ei hun yn unawdydd?

Dyn caredig a diymhongar oedd Bill yn ei hanfod, ond roedd yn falch iawn, ac wedi ei syfrdanu, o gael ei ddewis yn un o "175 Wyneb Cemeg" y Gymdeithas Gemeg Frenhinol. Mynnodd nad oedd yn deilwng o ymddangos ar yr un rhestr fawreddog â Borodin y cyfansoddwr a Frederic Soddy, enillydd Gwobr Nobel a astudiodd yn Aber, ond ni fyddai'r rheiny ohonom a gafodd y pleser o adnabod Bill, a'r hyn a gyflawnodd yn ystod ei fywyd, yn cytuno.

*John Evans*

## MYFYRIWR

### Stefan Osgood (1994 – 2016)



Roedd Stefan yn fyfyriwr yn yr Adran Fathemateg, ac yn ystod Seremonïau Graddio 2016, dyfarnwyd iddo Radd Baglor Er Anrhydedd, a dderbyniwyd gan ei deulu er cof amdano (gweler tudalen 39). Gwelir ei eisiau yn fawr gan ei gyd-fyfyrwyr sy'n parhau i godi arian yn ei enw.

## STAFF

### Michael MccGwire OBE (1924 – 2016)



Roedd Michael Kane MccGwire yn fyfyriwr yn Aber rhwng 1967 ac 1970, yn aelod o staff yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol o 1970-71, ac yn Athro er Anrhydedd yn y 2000au. Cafodd Mike fywyd rhyfeddol llawn antur, ac roedd yn ddadansoddwr eithriadol ar faterion strategol.

Ganwyd Michael ym Madras yn 1924 ac yn 1942, ac yntau'n ganol-longwr 17 mlwydd oed, cymerodd ran yn y confoi atgyfnerthol chwedlonol i Malta, ac yn y glaniadau yng Ngogledd Affrica, Salerno, Anzio, a Normandi. Yn ôl ym Môr y Canoldir yn 1947, cafodd ei arswydo gan ei brofiadau ym Mhatrôl Palesteina, lle gwelodd gynghreiriaid y rhyfel yn tynnu'n groes i'w gilydd, a chamfanteisio ciaidd ar ffoaduriaid at ddibenion gwleidyddol.

Ac yntau wedi dysgu Rwsieg yng Nghaergrawnt, bu'n gweithio yn GCHQ ac yna'n Swyddog Llynges Cynorthwyol ym Moscow, ac yn 1965 fe'i penodwyd i'w swydd olaf yn y Llynges, yn bennaeth ar adran forwrol Sofietaidd gwasanaethau cudd-wybodaeth Prydain lle cafodd effaith aruthrol, gan ad-drefnu systemau trin a dadansoddi data yn llwyr. Dyfarnwyd OBE iddo yn 1968.

Penderfynodd Mike ddilyn trywydd newydd yn ei bedwardegau a chofrestru i wneud gradd mewn Economeg a Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn Aberystwyth, lle'r ysbrydolodd fyfyrwyr eraill i feddwl yn rhyngwladol ac yn ymarferol. Ar ôl cyfnod byr yn aelod o staff yr Adran, aeth Mike i Ganada i sefydlu Canolfan Astudiaethau Morwrol a Strategol newydd yno.

Yn 1998 cyhoeddwyd llyfr o draethodau i anrhydeddu MccGwire: *Statecraft and Security: the Cold War and Beyond*. Roedd cyfranwyr uchel eu bri i'r gyfrol yn cydnabod ei gyfraniad eithriadol, a breindaliadau'r llyfr hwn sy'n darparu cronfa ar gyfer Gwobr Flynyddol Michael MccGwire i Fyfyrwyr Hŷn yn yr Adran.

*Yr Athro Ken Booth FBA*

*Mae fersiwn lawn y deyrnged hon ar gael i'w darllen yn:*
*https://www.aber.ac.uk/en/development/alumni/obituaries/obituaryprofiles/michaelmccgwire/*

### David Bryan James (1929 – 2016)

Roedd David, a gafodd ei eni yn Sir Gâr, yn aelod o'r staff dysgu yn yr hen Adran Fotaneg Amaethyddol lle roedd ei brif ddiddordebau academaidd yn canolbwyntio ar ddylanwad ffactorau amgylcheddol ar dwf planhigion a chnydau. Yn 1958 priododd David ag Eleanor M Jones, a oedd yn frodor o Aberystwyth ac yn un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol ac yn gyd-aelod o'r staff. Roedd Eleanor a David yn aelodau pybyr o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, gan helpu ar y Pwyllgor, lle bu Eleanor yn Drysorydd am nifer o flynyddoedd, a gyda threfniadau'r Aduniadau Blynyddol.

### Mr Michael John Corlett (1951 – 2015)

Yn wreiddiol o Formby, Glannau Mersi, enillodd Mike radd anrhydedd cyfun mewn Celf a Llyfrgellyddiaeth yn 1972. Daeth yn Gynorthwyydd Llyfrgell yn 1972, ac yn 1983 daeth yn Uwch-Gynorthwyydd Llyfrgell yn Llyfrgell Hugh Owen, ac yn 1997 yn Llyfrgellydd Cynorthwyol yn y Gwasanaethau Gwybodaeth. Bu Mike hefyd yn Ysgrifennydd cangen UNSAIN y Brifysgol rhwng 1996 a 2014, ac roedd yn gasglwr brwd o lyfrau am golff.

Dywedodd ei gyn-gydweithwraig, Julie Hart: "Bu Mike yn gweithio yn y Brifysgol am fwy na 40 mlynedd, ac yn fwyaf diweddar ef oedd arweinydd tîm caffaeliadau deunyddiau'r llyfrgell, ac yn ymddiriedolwr y gronfa bensiynau leol. Roedd yn ymwneud â nifer o gymdeithasau lleol yn cynnwys Clwb Ffilmiau Aberystwyth; yn ystod ei gyfnod fel Ysgrifennydd y Clwb yn y 1980au, helpodd i drawsnewid ei sefyllfa ariannol drafferthus er gwell. Mae ei gydweithwyr yn gweld ei eisiau'n fawr, yn arbennig ei ddoethineb a'i garedigrwydd; roedd yn ŵr bonheddig."

### Yr Athro Peter Wathern (1947 – 2015)




Yn wreiddiol o Stroud, enillodd Peter radd mewn Bioleg o Goleg Bedford Llundain a PhD o Brifysgol Sheffield, mewn ecoleg safleoedd ailddatblygu. Ym Mhrifysgol Aberdeen canolbwyntiodd ar effaith gweithgareddau o wneuthuriad dyn ar ecoleg planhigion, ond mae'n cael ei adnabod yn bennaf am arwain Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd.

Yn ystod tri degawd yn Aberystwyth, lansiodd y cwrs Meistr cyntaf mewn Asesu Effaith ar yr Amgylchedd, gan baratoi graddedigion ar gyfer swyddi yn y byd go-iawn ar yr union adeg y daeth Asesiadau o'r Effaith ar yr Amgylchedd yn orfodol ar gyfer datblygiadau mawr a gyflwynwyd ar gyfer caniatâd cynllunio yn y DU.

Goruchwyliai yr Athro Wathern waith ymchwil myfyrwyr PhD rhyngwladol, gweithiai ar brosiectau rhyngwladol gyda'r UE a NATO, a hyfforddai gynllunwyr awdurdodau lleol. Roedd yn arbennig o effeithiol wrth ddangos gwerth astudio amlddisgyblaethol a phwysigrwydd cyflwyno i bobl broffesiynol y sgiliau i reoli'r amgylchedd yn well. Mewn byd sy'n newid o hyd, mae'r egwyddorion hyn yn un mor berthnasol heddiw ag erioed.

## Yr Athro Mike Foley (1948 – 2016)



Enillodd Mike radd BA mewn Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol o Brifysgol Keele, ac MA mewn Theori Wleidyddol, Cymdeithaseg Wleidyddol a Llywodraeth UDA, a PhD o Brifysgol Essex. Ymunodd â staff academaidd Prifysgol Aberystwyth yn 1974, pan gafodd ei benodi'n Ddarlithydd mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth America yn yr Adran Wleidyddiaeth.

Mae enw da Mike fel un o'r prif ymchwilwyr yn ei faes yn aruthrol, ond nid oedd ei gyfraniad i'r brifysgol wedi'i gyfyngu i ymchwil ac addysgu, er mor sylweddol y bu'r cyfraniadau hynny. Ers y 1990au cyflawnodd amrywiaeth o rolau arweiniol yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, gan gynnwys Cyfarwyddwr Astudiaethau Graddedig a Chyfarwyddwr Ymchwil, ac yn fwyaf diweddar Pennaeth Dros Dro ac yna Bennaeth yr Adran.

Bydd cydweithwyr a myfyrwyr yn cofio Mike fel athro ymroddgar, ymchwilydd ymroddedig ac fel dyn hynod garedig a meddylgar. Cynigiodd glust gydymdeimladol i sawl cenhedlaeth o fyfyrwyr, a pharodrwydd i wrando ar eu problemau ac i gynnig cymorth moesol ac ymarferol. Roedd Mike yn ddyn tawel a chanddo feddwl praff a synnwyr hiwmor sych. Bydd colled fawr ar ei ôl.

## Mr Ieuan Mason James

Bu Ieuan James yn gweithio yn y Swyddfa Gyllid ym Mhrifysgol Aberystwyth am nifer o flynyddoedd, ac roedd ei gefnogaeth barhaus i Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, hyd yn oed ar ôl iddo ymddeol, yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr gan y Pwyllgor, yn enwedig y cymorth hael a roddodd ef a'i wraig Glenys i lawer Aduniad Blynyddol.

## Yr Athro Kevin Shingfield (1968 – 2016)



Yn wreiddiol o Norfolk, graddiodd Kevin mewn Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Nottingham yn 1990.

Oddi yno, aeth i weithio yn Sefydliad Rowett, Prifysgol Aberdeen, cyn dilyn rhaglen PhD yn hen Goleg Amaethyddol yr Alban ym maes maethu da godro. Enillodd ei ddoethuriaeth yn 1995.

Aeth Kevin yn ei flaen i gyflawni swyddi ôl-ddoethurol gyda MTT Ffindir a Phrifysgol Reading cyn cael swydd fel Ymchwilydd Gwyddonol gyda MTT Ffindir, lle cafodd ei benodi yn Athro yn 2010.

Yn 2013, ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth yn Athro Ffisioleg Faethol yn IBERS. Roedd ei waith ymchwil yn canolbwyntio ar fetaboledd lipid mewn anifeiliaid cnoi cil a deall ymateb genynnau i faethynnau. Roedd gan Kevin gysylltiadau ar draws y byd ac roedd yn aelod gweithgar o Gymdeithas Gwyddor Anifeiliaid Prydain ac yn Olygydd yr Isadran ar Anifeiliaid Cnoi Cil yn y cyfnodolyn *Animal*.

Roedd Kevin yn wyddonydd o fri rhyngwladol a wnaeth gyfraniad mawr i wyddor anifeiliaid cnoi cil, ac yn arbennig i'n dealltwriaeth o agweddau yn y fuwch odro at wella proffil lipid llaeth.

Y tu hwnt i'r gwaith, ei brif ddiddordebau oedd rygbi, beiciau modur a'i system gerddoriaeth unigryw. Bydd colled fawr ar ei ôl.

## Mrs Dinah Mary Jamieson

Gweithiai Dinah fel Rheolwr Neuaddau yn y Neuaddau Glan Môr yn ystod canol y nawdegau lle gwnaeth lawer o ffrindiau, a bydd yn cael ei chofio gan genedlaethau o fyfyrwyr a fu'n byw ar lan y môr.

## Yr Athro Emeritws Robin Charles Whatley (1936 – 2016)



Ymunodd yr Athro Emeritws Whatley â staff yr Adran Ddaeareg fel darlithydd cynorthwyol yn 1965. Rhwng 1970 a 1973 bu'n Athro Gwadd, dan nawdd y Cyngor Prydeinig, ym Mhrifysgol La Plata, yr Ariannin. Fe'i penodwyd yn Uwch-ddarlithydd yn 1975, yn Ddarllenydd yn 1985 ac yn Athro yn 1988, swydd y bu ynddi tan ei ymddeoliad. Roedd Robin yn feicrobaleontolegydd o safon ryngwladol yn arbenigo mewn Ostracoda, a bu'n teithio'r byd yn trafod y maes hwnnw. Helpodd i hyfforddi cenedlaethau o feicrobaleontolegwyr Aber, ac mae llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i ddilyn gyrfaoedd llwyddiannus yn y diwydiant olew.


## Ms Irena Halina "Ren" Brzeski (1958 – 2015)

Ymunodd Ren â'r Brifysgol yn 1999, gan weithio yn gyntaf gyda'r tîm ôl-raddedig cyn symud i'r tîm israddedig fel ysgrifennydd y Cyfarwyddwr Derbyn Myfyrwyr.

Wrth dalu teyrnged iddi, dywedodd Nerys Davies, cydweithwraig a Rheolwr y Swyddfa Derbyn Israddedigion, "Roedd Ren yn aelod amhrisiadwy o'r tîm denu a derbyn ac yn gyfeilles garedig a gofalgar. Roedd hi'n arddwraig frwd iawn, yn mwynhau cerdded ac yn hoff o brofi ei sgiliau iaith wrth fynd dramor ar wyliau gyda'i gŵr. Byddwn yn gweld ei heisiau ac yn cofio amdani'n gynnes iawn."

## Yr Athro T Ceiri Gruffydd (1925 – 2016)

### Cyn-Lywydd Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr



Bu'r Athro Thomas Ceiri Griffith a fu farw ar Fawrth 26ain 2016, yn gysylltiedig ag Aberystwyth ers 1943, yn gyntaf fel myfyriwr (BSc Ffiseg Radio, 1946; PhD, 1950), ac wedi hynny fel aelod gydol oes a llywydd (1985) Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr.

Ganwyd Ceiri yn Llanbedr, Meirionnydd ond symudodd y teulu fel ffermwyr tenant i Gwm Ystradllyn, Llanaelhaearn ac yn y pendraw i Blas Gŵyl, y Ffôr. Aeth i Ysgol Sirol Pwllheli, lle dysgodd Saesneg a darganfod ei gariad at wyddoniaeth.

Yn Aber cafodd ei ysbrydoli gan yr Athro E J Williams FRS (*Dessin*). Yn anffodus bu farw *Dessin* yn 1946, ond rhoddodd ei astudiaethau arloesol a'i gysylltiadau ag enillwyr Gwobr Nobel, Blackett a Powell, gyfle i Ceiri gyhoeddi ei bapur cyntaf yn *Nature* yn 21 oed.

Treuliodd Ceiri ei yrfa yn gweithio yn UCL (yn dilyn cyfweliad hynod fyr gan yr Athro Harrie Massey: "Allwch chi adeiladu siambr gwmwl?"; "Gallaf"; "Iawn, chi biau'r swydd"). Bu'n ymchwilio i faes ffiseg ronynnol yn Harwell yn wreiddiol, ond newidiodd i ffiseg positronau, ac mae'r labordy a sefydlodd yn y 1960au yn dal i fynd heddiw dan ofal Nella Larrichia.

Yn 1957, priododd â June Roberts, a raddiodd mewn Economeg o Aber yn 1951, a chael tri o blant (Gareth, Nia, Alun). Y tu hwnt i fyd gwaith, roedd bywyd Ceiri yn troi o amgylch y gymuned Gymraeg yn Llundain.

Ar ôl marwolaeth June yn 1989, dychwelodd Ceiri at ei wreiddiau yn Eifionydd. Yn 1990, priododd ag Ann (hithau wedi graddio o Aber), ac ymgolli'n llwyr yn ei astudiaethau achyddol. Rhoddodd ei ymddeoliad gyfle iddo gasglu'r holl wybodaeth yma mewn llyfr (1989; *Achau ac Ewyllysiau Teuluoedd De Sir Gaernarfon)*.

## Estynnwn Gydymdeimlad â theuluoedd a Chyfeillion y canlynol:

** Aelod o Gymdeithas y Cyn-fyfyrwyr*

**Adams,** Dr Peter David* (Ffiseg, 1959), bu farw Ebrill 2016

**Bolle-Jones,** Dr Evan William (Cemeg a Botaneg, 1945), bu farw Medi 2015

**Burrell,** Mr William David* (Botaneg Amaethyddol, 1952), bu farw Mehefin 2015

**Caney,** Mrs M Elizabeth, née Davies* (Mathemateg, 1960), bu farw Medi 2016

**Carter,** Mrs Melitta Helen, née Alevropoulos (Economeg Amaethyddol, 1985), bu farw Medi 2015

**Davies,** Mr Kenneth Joseph* (Ffiseg, 1949), bu farw Awst 2015

**Davies,** Mr John Trevor, (Botaneg, 1949), bu farw Mehefin 2015

**Ezeani,** Yr Ustus Anthony Ofor Nnaemeka, (Y Gyfraith, 1961), bu farw Hydref 2016

**Edbrooke,** Mrs Mollie Geen, née Penny* (Daearyddiaeth, 1952), bu farw Gorffennaf 2016

**Edwards,** Mr Meirion Ellis (Bioleg Amaethyddol, 1975), bu farw Medi 2015

**Elliott,** Mr Simon Derek* (Ffiseg, 1992), bu farw Rhagfyr 2015

**Evans,** Mr John* (Y Gyfraith, 1957), bu farw Gorffennaf 2015

**Evans,** Mr Robin Emile (Mathemateg, 1986), bu farw Ionawr 2016

**Furzer,** Dr Adrian Sidney (Ffiseg, 1971), bu farw Gorffennaf 2015

**Griffiths,** Dr Richard John Mostyn (Cemeg, 1969), bu farw Chwefror 2015

**Gwynne,** Ms Telsa Christina (Swoleg, 1991), bu farw Tachwedd 2015

**Hall,** Dr Christopher Clement (1970), bu farw Ionawr 2016

**Harbinson,** Mr David Joseph, (Y Gyfraith, 2007), bu farw Awst 2016

**Hashimoto,** Dr Chikara, (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 2007 and 2014), bu farw Hydref 2016

**Hind,** Mrs Margaret Kathleen Doris, née Davies* (Celf, 1943), bu farw Ionawr 2016

**Hughes,** Dr Joan Isaac, née Isaac* (Cymraeg, 2001), bu farw Ionawr 2016

**Hummel,** Mr Jonathan William, (Economeg, 1985), bu farw Medi 2014

**Ince,** Mr Oliver, (Astudiaethau Ffilm a Theledu, 2004), bu farw Mehefin 2015

**James,** Dr Rhydian Fôn (Busnes a Rheolaeth, 2012), bu farw Ionawr 2016

**Jeffries,** Dr Teresa Emily (Daeareg, 1992), bu farw Ebrill 2016

**Jones,** Mr David Evan Alun* (Y Gyfraith, 1951), bu farw Mawrth 2015

**Jones,** Mrs Eirlys* (1949), bu farw Mawrth 2016

**Jones,** Dr Richard Lumley* (Cemeg, 1952), bu farw Chwefror 2016

**Jones,** Mr Timothy Gilbert* (Y Gyfraith, 1974), bu farw Hydref 2016

**Kenyon-Smith,** Yr Athro Emeritus Alec James (Daeareg, 1953), bu farw Tachwedd 2015

**Lewis,** Mrs Gweno Mererid, née Ellis* (Almaeneg, 1925), bu farw Ionawr 2016

**Llewellin,** Mrs Edith Annie, née Morris (Botaneg, 1954), bu farw Mawrth 2016

**McKenna,** Mr Darren Kevin (Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, 2010), bu farw Tachwedd 2015

**McLellan,** Mrs Janet, née Cuthill, (Botaneg Amaethyddol, 1966), bu farw Awst 2016

**Millward,** Mrs Joanna Margery Eleanor, née Dark* (Cerddoriaeth, 1966), bu farw Ebrill 2016

**Morgan,** Mrs Sheila, née Lynch, (Saesneg, 1956), bu farw Rhagfyr 2015

**Obregon,** Ms Adriana Yvette (TAR, 1997), bu farw Mawrth 2015

**Owen,** Mr T Boyd*, bu farw Rhagfyr 2015

**Owen,** Mr Emrys (Economeg, 1961), bu farw Gorffennaf 2016

**Peters,** Mr Colin Richard (Saesneg, 1977), dyddiad ei farwolaeth yn anhysbys

**Phillips,** Miss Mary Megan* (Mathemateg, 1944), bu farw Mai 2016

**Porter,** Mrs Glenys, née Williams (Cerddoriaeth, 1938), bu farw Ebrill 2016

**Powell,** Mr Henry (Harry) (Botaneg, 1945), bu farw Ionawr 2016

**Raw,** Ms Jessica (Gwleidyddiaeth Ryngwladol, 2011), bu farw Mehefin 2015

**Rees,** Mr David Victor H* (Botaneg, 1948), bu farw Gorffennaf 2015

**Roberts,** Dr John* (Ffiseg, 1956), bu farw Mehefin 2015

**Roberts,** Ms Margaret Iris, née Hughes (TAR, 1978), dyddiad ei marwolaeth yn anhysbys

**Roberts,** Mr Thomas Noel (Cemeg, 1981), bu farw Gorffennaf 2016

**Rokkan,** Yr Athro Cysylltiol Elizabeth Gwenllian Clough, née Harris* (Ieithoedd Ewropeaidd, 1945), bu farw Ionawr 2016

**Shelley,** Mr Gareth Clifford Raif (Rheolaeth Cefn Gwlad, 2010), bu farw Mai 2016

**Spencer,** Mr Duncan Hamilton (Rheolaeth Cefn Gwlad, 2010), bu farw Chwefror 2016

**Stannard,** Mr Daniel Robert (Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth, 2012), bu farw Mai 2015

**Thomas,** Mrs Lilian*, née Naish, (Saesneg, 1945), bu farw Medi 2016

**Thorne,** Mrs Mary Cynthia, née Jones, bu farw Mawrth 2016

**Wallace,** Mr David Anthony (Mathemateg, 1983), bu farw Mai 2016

**Williams,** Mrs Mair*, bu farw Medi 2016

**Williams,** Mr Vaughan Morgan* (Hanes, 1957), bu farw Mawrth 2016

**Wilson,** Yr Athro Emeritws John Bastow (Botaneg, 1966), bu farw Ebrill 2015

**Wright,** Dr Jeremy Charles (Ffiseg, 1962), dyddiad ei farwolaeth yn anhysbys

# Cicio'r Bar

## *Prentis y Swyngyfareddwr*

*gan Dr Russell Davies*



Galwch fi'n Bilbo.

Yn hwyr ryw brynhawn Mawrth, yn hwyr yn nhymor yr hydref 1978, cychwynnais am yr Hen Goleg. Rhaid mai dydd Mawrth oedd hi gan mai dyna'r unig ddiwrnod y byddwn yn mynd i ddarlithoedd. Nid y ffaith fy mod i'n fyfyriwr annisgybledig (ac mi roeddwn i) oedd yr esgus, ond bod yn rhaid defnyddio'r amser i ddarllen yr holl ddeunydd yr oedd staff hanes Cymru yn ei gyhoeddi (roedd Geraint H Jenkins ei hun yn cyhoeddi gydag angerdd y byddai Balzac yn genfigennus ohono).

Roedd glaw oer Tachwedd, a fu'n pistyllio'n ddi-baid am wythnosau, wedi cilio gan adael niwl o'r môr y byddai Dickens yn falch ohono. Nid tymor o ffrwythlondeb addfwyn mohono ond, er hynny, cychwynnodd eich colofnydd eofn ar ei daith o Bantycelyn i seminar gan y dihafal Gareth Williams ar Wrachod, Dewiniaid a Swyngyfareddwyr.

Arweiniai grisiau haearn bwrw simsan at ystafell Gareth yn uchelfannau'r Hen Goleg. Prif gamp y Swyngyfareddwr oedd cael lle i'w holl brentisiaid yn yr ystafell, am fod cynifer o lyfrau yno ei bod hi'n anodd meddwl i ba dwll y byddai myfyrwyr yn gallu gwasgu. Ond fel Jacques Fouroux y tu ôl i bac Ffrainc neu *le Petit General* (dyna i chi Ffrangeg, bois bach) yr oedd yn ymdebygu iddo, cipiai Gareth bob un ohonom i'r Tardis o ystafell oedd ganddo.

Roedd y silffoedd yn drwm dan bwysau ffrwyth llafur ysgolheigaidd ar amrywiaeth o bynciau a fyddai'n codi cywilydd ar yr *Encyclopaedia Britannica* – pob dim o alcemi i Zoroastrianiaeth, o argyfyngau rygbi i Raymond Chandler. Ond yn wahanol i'r Gwyddoniadur y codwyd cywilydd arno, ni osodwyd hanes Cymru rhwng cromfachau hanes Lloegr, ond rhoddwyd iddo'n hytrach ei lwybr tragwyddol ei hun yn yr eclectigiaeth ogoneddus hon. Roedd llyfr am *Glory Days of Pontypool RFC* (llyfr byr mae'n amlwg) yn hobnobio gydag un arall o'r enw *The Cheese and the Worms*, nid llyfr coginio Gareth fel y mae'n digwydd, ond microhanes o gosmoleg melinydd o'r unfed ganrif ar bymtheg. Tan hynny arferwn gredu mai merch a oedd yn dda am wneud symiau oedd polymath.

Y prynhawn hwnnw eglurodd Gareth sut, yn "argyfwng cyffredinol yr ail ganrif ar bymtheg", yr oedd hi'n gwneud synnwyr perffaith i gredu yng ngwirionedd pwerau daearol i wrachod a dewiniaid, a pham ei bod hi'n rhesymol ac yn rhesymegol i bobl ofni eu hud a'u mileindra. Byddai cyfoeswyr yn credu mewn atgyfodedigion hyd yn oed, sef yr ysbrydion hynny a fyddai'n cerdded ar y ddaear ar ôl eu marwolaeth.

Daeth yr atgofion hyn yn ôl ataf yn ddiweddar oherwydd yr holl bropaganda am *The Game of Thrones* – y cymysgwch rhyfedd hwnnw o hanes, hierarchiaeth a misdimanars. A oedd wir gymaint o silicon yn yr oesoedd a fu? Mae'r gyfres o nofelau a'r rhaglenni teledu diddiwedd wedi cymysgu ffaith, ffuglen a ffantasi mewn ffordd na all hanes ffeithiol fyth ei wneud, os ydych yn credu eu cyhoeddusrwydd.

Ond yr hyn a oedd yn glir ar y prynhawn hwnnw yn yr Hen Goleg niwlog, oedd fod hanes yn llawer mwy gwaedlyd a chiaidd nag unrhyw beth y gallai sgriptwyr ei ddychmygu. O'r byd Clasurol y daw Cleopatra a ddefnyddiai ryw fel offeryn ar gyfer polisïau tramor a Helen y lansiodd ei hwyneb fil o longau. Ac mae cynllunio Maciafelaidd teuluoedd Borgia a Medici, trais a rheibusrwydd y Dadeni, heb sôn am lygredd gormeswyr diweddarach fel Mao, Stalin a Hitler, yn taflu cydgynllwyio *GoT* i'r cysgodion. Roedd gwisgoedd canoloesol hyd yn oed yn well gan y byddai copisau yn cyrraedd pen y daith yn syth.

Fel W C Fields, a yrrwyd i'w ddiod gan fenyw heb erioed gael y cwrteisi i ddiolch iddi, ni chefais innau'r cwrteisi, tan nawr, i ddiolch i Gareth am effaith yr un mor feddwol y prynhawn hwnnw.

Roedd hi'n hwyr ar y seminar yn gorffen. Roedd Cofrestrydd y Brifysgol, y diweddar annwyl Tom Arfon Owen, yn amlwg wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid osgoi defnyddio trydan yn ormodol er mwyn arbed arian i'r sefydliad. Roedd yr Hen Goleg felly mor oer â thŷ bach ysbryd ac mewn amdo o dywyllwch. Y tu allan, roedd gwyntoedd dolefus oddi ar Raddfa Beaufort yn agosáu o'r gorllewin unwaith eto. Canai'r Hen Goleg yn ei chadwyni fel y môr. Gwichiai a griddfanai fel llong hwylio. Roedd Tŷ Usher yn fwy llawen. Teimlai'r munudau y bûm wrthi yn chwilio am y swits golau fel oriau, gan wir oleuo gwersi'r prynhawn. Does dim fel tywyllwch i ddwysáu eich ofnau -

...shhh, a wnaeth rhywbeth symud yn y cysgod....

Galwch fi'n Bilbo.





1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

www.aber.ac.uk

# Diwrnodau Agored 2017

## Israddedig ac Uwchraddedig

### Diwrnodau Agored

Dydd Mercher 12fed Gorffennaf
Dydd Sadwrn 16eg Medi
Dydd Sadwrn 14eg Hydref
Dydd Sadwrn 11eg Tachwedd

### Diwrnod Agored Ar-lein

Dydd Iau 6ed Ebrill
Dydd Mercher 6ed Rhagfyr



Archebwch heddiw: **www.aber.ac.uk/diwrnodagored**

01970 622065 | diwrnodagored@aber.ac.uk

GORAU YNG NGHYMRU
A RHIF 4 YN Y DU
★★★ACM 2016★★★
AM FODLONRWYDD MYFYRWYR